Adroddiad Ymchwil Tai AYT 1/00 – Chwefror 2000

# Cysgu Allan yng Nghymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae copïau ychwanegol o'r adroddiad hwn ar gael yn rhad ac am ddim oddi wrth:

**Sue Wood**
Adran Tai ac Adnewyddu Cymunedol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: (029) 2082 3904
E-bost: sue.wood@wales.gsi.gov.uk
Gwefan: http://www.wales.gov.uk/

ISBN 0 7504 2416 8
© Hawlfraint y Goron 2000

# Rhagair

Nid oes yna esiampl waeth o eithrio cymdeithasol na bod heb do uwch eich pen yn enwedig wrth iddi nosi. Nid oes gan y rheiny sy'n gorfod cysgu allan y lefel sylfaenol o gysur ac o ddiogelwch personol y mae'r rhan fwyaf ohonom yn cymryd yn ganiataol bob dydd o'n bywydau. Yn ogystal mae'r sawl sy'n cysgu allan yn agored i beryglon iechyd na wyneba weddill y boblogaeth.

Yn ein cymdeithas ddatblygedig a chymharol gyfoethog ni ddylai neb orfod byw fel hyn. Am y rheswm hwn mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ymrwymo i ddileu'r angen i unrhyw un yng Nghymru gysgu allan. Bydd yr adroddiad hwn yn gymorth i ni ymateb i'r sialens sylweddol o ddelio â chysgu allan. Comisiynwyd y gwaith tua diwedd 1998 i hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac awdurdodau lleol o amlder ac achosion cysgu allan, a chynghori ynglŷn â strategaethau effeithiol i helpu'r rhai sy'n cysgu allan. Daeth yr awdur, Paul Bevan, ar secondiad o fudiad gwirfoddol sy'n helpu'r digartref, Newport Action for the Single Homeless. Dros flwyddyn fe ymwelodd â phob un o awdurdodau lleol Cymru a thua hanner cant o fudiadau er mwyn cael darlun clir o natur a graddfa'r broblem yng Nghymru, a beth sy'n cael ei wneud i'w datrys. Rydym yn ddiolchgar iawn iddo am yr holl amser a brwdfrydedd a ymroddodd i'r dasg. Dyma'r adroddiad o beth wnaeth ddarganfod. Bydd o ddiddordeb mawr i bawb sy'n ymddiddori yn y broblem gymdeithasol fwyaf difrifol hon.



**PETER LAW A.C.**
Ysgrifennydd y Cynulliad ar yr Amgylchedd
a Llywodraeth Leol

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Rhagair | i |
| Diolchiadau | iii |
| Crynodeb Gweithredol | 1 |
| 1. Cyflwyniad | 6 |
| 2. Diffinio cysgu allan | 7 |
| 3. Amlder cysgu allan | 8 |
| 4. Achosion cysgu allan | 11 |
| 5. Enghreifftiau o'r gwasanaethau presennol | 14 |
| 6. Strategaethau digartrefedd sengl | 15 |
| 7. Bylchau yn y ddarpariaeth i rai sy'n cysgu allan a'r digartref sengl | 16 |
| 8. Materion eraill | 20 |
| 9. Casgliadau | 25 |
| Argymhellion | 27 |
| Cyfeiriadau | 33 |
| Atodiad A: Y sefyllfa ym mhob ardal awdurdod lleol | 35 |
| Atodiad B: Yr awdurdodau lleol a'r cyrff y cysylltwyd â hwy | 79 |
| Atodiad C: Cwestiynau i'r awdurdodau lleol | 81 |
| Atodiad D: Cwestiynau i'r cyrff gwirfoddol | 82 |

# Diolchiadau

Hoffwn ddiolch i'r holl bobl hynny sydd wedi bod mor garedig â rhoi o'i hamser i mi, er mwyn trafod cysgu allan a digartrefedd sengl o fewn eu meysydd gwaith. Cefais y fraint o weld â'm llygad fy hun y gwaith a wneir gan lawer o'r cyrff gwirfoddol, yn ymuno er enghraifft â rowndiau cawl ac mewn gwaith cenhadol, yn ymweld â chanolfannau galw-heibio, llochesau nos, cynlluniau mynediad uniongyrchol a chynlluniau tai gyda chymorth. Yn yr un modd yr wyf yn ddiolchgar iawn i'r holl bobl a welais yn swyddfeydd pob awdurdod lleol trwy Gymru a fu'n trafod materion gyda mi ac a ddarparodd wybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn.

Rhaid diolch hefyd i Richard Frame a phwyllgor rheoli Newport Action for the Single Homeless, ac i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am roi cyfle imi ymgymryd â'r gwaith hwn. Diolch yn arbennig i Mike Harmer a roddodd gyngor gwerthfawr ac amyneddgar ar olygu'r adroddiad, ac i Yvonne Washer am ddarllen y proflenni.

Diolch hefyd, fel erioed, i Eileen a gweddill fy nheulu am eu cefnogaeth gyson a'u diddordeb yn y gwaith.

**Paul Bevan**

(Secondiwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, o Newport Action for the Single Homeless)

Hydref 1999

# Crynodeb Gweithredol

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn ar secondiad i'r Swyddfa Gymreig o'r sector gwirfoddol i'r digartref sengl.  Pwrpas y secondiad oedd:

"rhoi gwybod i'r Swyddfa Gymreig/ Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r awdurdodau lleol am amlder ac achosion cysgu allan yng Nghymru; a chynghori ynglŷn â strategaethau i helpu rhai sy'n cysgu allan, a sut i gyrraedd yr amcan o ddileu'r angen i unrhyw un yng Nghymru gysgu allan."

Mae'r adroddiad yn seiliedig ar drafodaethau ynghylch cysgu allan gydag adrannau tai pob un o'r awdurdodau lleol a thros hanner cant o gyrff eraill sy'n gweithio i ddiwallu anghenion y sengl digartref yng Nghymru.

## Amlder cysgu allan

Mae gwybodaeth ar gael am gysgu allan mewn rhai ardaloedd (y prif ganolfannau trefol yn bennaf), ond nid mewn llawer ardal arall. Cynhaliwyd arolygon mewn rhai ardaloedd,ond oherwydd y gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd, amseriad yr arolygon, eu cwmpas annigonol a'r anawsterau cynhenid ynglŷn â chasglu data, mae'n anodd pennu'r nifer sy'n cysgu allan ar unrhyw un noson yng Nghymru, na thros flwyddyn gyfan.

## Achosion cysgu allan

Mae gan bob unigolyn sy'n cysgu allan ei resymau ei hun dros wneud hynny. Y canlynol yw rhai o'r ffactorau cyfranogol mwyaf cyffredin:

- Tor-perthynas;
- Tlodi;
- Diweithdra;
- Problemau iechyd meddwl;
- Camddefnyddio cyffuriau neu alcohol;
- Analluu i ymdopi heb gymorth mewn llety annibynnol;
- Troi allan o lety;
- Gadael gofal awdurdod lleol, carchar neu ysbyty seiciatrig heb baratoad a chefnogaeth ddigonol;
- Trais yn y cartref;
- Cam-drin yn rhywiol neu'n gorfforol;
- Diffyg llety addas, fforddiadwy (gan gynnwys diffyg llety argyfwng);
- Pobl ifainc yn rhedeg i ffwrdd o'u cartrefi, neu o ofal;
- Gwahardd neu gau allan rhai pobl rhag defnyddio rhai hostelau.

I lawer o'r rhai sy'n cysgu allan, gall hynny fod yn rhan o'r profiad ehangach o ddigartrefedd, a all gynnwys aros mewn gwahanol fathau o lety ansicr dros dros (megis ar lawr yng nghartrefi cyfeillion neu berthnasau, hostelau, a thai o safon isel ac ansicr).  Mae ambell un yn cysgu allan am noson neu ychydig nosweithiau, a byth yn gwneud hynny wedyn; mae eraill yn cysgu allan nifer o weithiau, ar ôl disbyddu eu mynediad dros dro i wahanol fathau o lety ansicr.  Mae eraill eto sydd wedi cysgu allan am gyfnodau hwy, a chysgu allan bellach yw eu ffordd normal o fyw.

## Y gwasanaethau presennol

Mae'r gwasanaethau lletya a chymorth, sydd â'r cysylltiad dwysaf â'r rhai sy'n cysgu allan, i'w cael yng Nghaerdydd, Abertawe, Casnewydd, Wrecsam a Bangor.  Mae'r dewis o wasanaethau yn wahanol ym mhob ardal, gyda Chaerdydd ac Abertawe yn cynnig yr amrediad ehangaf.  Ceir peth darpariaeth mewn trefi eraill, megis cynllun mynediad uniongyrchol yng Nghaerfyrddin, a rowndiau cawl yng Nghaernarfon, Bae Colwyn, Llandudno a'r Rhyl.  Yr oedd llochesau nos yn agored yn y Fenni, Bangor, Caerdydd a'r Rhyl yn ystod gaeaf 1998/99.  Dros y gaeaf yn Sir Benfro mae'r awdurdod lleol yn lletya rhai sy'n cysgu

allan yn ei hostelau i'r "statudol ddigartref". Mae diffygion amlwg yn y ddarpariaeth i rai sy'n cysgu allan yn, er enghraifft, Blaenau Gwent, Ceredigion, Sir y Fflint, Powys a Thorfaen.

## Strategaethau digartrefedd sengl

Pedwar awdurdod lleol sydd â strategaeth ysgrifenedig ar gyfer digartrefedd sengl. Y pedwar yw Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Caerdydd ac Abertawe. Fodd bynnag, mae gan lawer o'r ardaloedd fforymau neu grwpiau, a fyddai'n dalyrnau addas i ddatblygu strategaeth ddigartrefedd sengl a chysgu allan.

## Bylchau yn y ddarpariaeth

Er gwaethaf absenoldeb strategaeth yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, mae'r cyrff digartrefedd a'r awdurdodau lleol yn gyffredinol yn ei chael yn hawdd i ddweud pa wasanaethau ychwanegol sydd eu hangen ar eu hardaloedd. Byddai rhai ohonynt yn wasanaethau newydd i'r ardal, ac eraill yn ychwanegu at ddarpariaeth bresennol o'r un math. Y prif anghenion a nodwyd oedd:

### Llety:

Darpariaeth argyfwng (o wahanol fathau) ym mhob awdurdod, a rhagor o lety fforddiadwy o ansawdd da i bobl sengl mewn deunaw awdurdod.

### Cymorth:

Nodwyd gwasanaethau adsefydlu er mwyn helpu'r digartref i symud i lety mwy addas mewn deg o'r ardaloedd awdurdod lleol; a gwasanaethau cymorth i helpu pobl i gynnal eu llety mewn dwy ardal ar bymtheg. Nododd yr atebwyr yr angen am wasanaethau cyngor tai mewn deuddeg awdurdod; canolfannau dydd neu alw-heibio i'r digartref mewn saith; cynlluniau bond newydd i gael mynediad i lety preifat ar rent mewn pump; ac ehangu'r cynlluniau presennol mewn tri awdurdod. Nodwyd bod angen gwasanaethau cenhadol mewn pum awdurdod, ac mewn pedwar awdurdod yr angen am lety gyda chymorth i rai â phroblemau ymddygiad neu ddull o fwy di-drefn. Nodwyd yr angen am ragor o wasanaethau (gan gynnwys llety gyda chymorth) i rai â phroblem gyffuriau mewn deng awdurdod, a phroblem mewn perthynas ag alcohol mewn wyth.

### Amrywiol:

Credai'r atebwyr mewn wyth awdurdod fod angen rhagor o ymchwil i ddigartrefedd sengl a chysgu allan; ac mewn pedwar awdurdod credid bod angen i ysgolion gyfrannu at atal digartrefedd. Cyfeiriwyd at amryw o wasanaethau eraill mewn un neu ddau yn unig o'r ardaloedd awdurdod lleol, er enghraifft: llety gyda chymorth; gwasanaethau cyfryngu; gwasanaethau ymgyfeillio; rhagor o dai i'w rhannu am dymor hir; cypyrddau â chlo lle y gall pobl sy'n cysgu allan adael eu heiddo; a darparu clinigau i'r digartref.

## Materion eraill

Yn ogystal â'r diffygion yn lefel y gwasanaethau sydd ar gael i'r digartref sengl, yr oedd yr ymchwil hefyd yn tynnu sylw at yr anawsterau penodol a gâi llawer ohonynt i gael mynediad at y gwasanaethau sydd ar gael. Y prif broblemau a ddatgelwyd oedd y canlynol:

### Iechyd a chymorth:

Nodwyd anawsterau i gofrestru gyda Meddyg Teulu a chael mynediad at ofal iechyd gan atebwyr mewn deuddeng awdurdod; a chyfeiriwyd mewn pedwar awdurdod at yr anhawster i gael mynediad at ddeintydd sy'n ymgymryd â gwaith NHS. Mewn un ar ddeg o'r ardaloedd awdurdod lleol, cyfeiriwyd at gael cymorth i rai sy'n wynebu problemau mewn dau neu ragor o'r meysydd iechyd meddwl, camddefnyddio cyffuriau, a chamddefnyddio alcohol; ac yr oedd saith yn ystyried bod cael cymorth i rai gydag anhwylder personoliaeth neu broblem ymddygiad yn arbennig o anodd. Mynegwyd gwahanol bryderon mewn wyth awdurdod am y flaenoriaeth isel a roddir i bobl sengl ddigartref gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol; a chyfeiriodd atebwyr mewn tri

awdurdod at yr angen am ragor o gynllunio, paratoad a chefnogaeth i bobl ifainc sy'n gadael gofal. Gall mynediad at wasanaethau adsefydlu cyffuriau fod yn araf iawn mewn pedair ardal awdurdod lleol; a thanlinellwyd yr angen am well paratoad i rai a ryddheir o garchar mewn pedwar awdurdod. Yn yr un modd, mynnai un ardal y rhyddheir rhai pobl o ysbytai seiciatrig heb wneud trefniadau cymorth digonol o flaen llaw.

### Llety a budd-daliadau:

Ystyrid bod mynediad at dai cymdeithasol yn anodd i bobl sengl ddigartref mewn pum awdurdod, ac mewn deg awdurdod nododd yr atebwyr wahanol anawsterau mewn perthynas â budd-daliadau tai a nawdd cymdeithasol. Yr oedd yr anhawster o gael llety argyfwng i bobl gyda chŵn yn peri pryder mewn dau awdurdod, ac mewn un awdurdod tanlinellwyd yr anhawster o gael llety i droseddwyr Atodlen Un mewn hostelau.

### Amrywiol:

Nodwyd rhai materion eraill, mwy cyffredinol. Yr oedd atebwyr mewn chwech o'r awdurdodau, nad oedd ganddynt strategaeth ddigartrefedd sengl benodol, yn credu ei bod yn bwysig eu bod yn datblygu strategaeth o'r fath. Credai atebwyr mewn tri awdurdod fod angen deddfwriaeth newydd i ehangu'r categorïau o bobl ddigartref a ystyrir yn 'achosion blaenoriaeth', a chyflwyno asesiadau cymorth i'r bobl ddigartref sy'n cysylltu ag adrannau tai'r awdurdodau lleol.

## Casgliadau

### Natur cysgu allan

Mae anawsterau'n codi wrth ymdrin ar wahân â chysgu allan, heb gyfeirio at ddigartrefedd sengl yn gyffredinol oherwydd, er enghraifft, bod llawer o'r bobl sy'n cysgu allan yn gwneud hynny am gyfnodau byr yn unig, yn ystod cyfnod o ddigartrefedd llawer hwy.

Mewn rhai ardaloedd mae modd adnabod yr union rai a fu'n cysgu allan yn barhaus, neu bob yn ail, am gyfnodau hir. Mae hyn yn wir am rai o'r trefi lleiaf yn ogystal â'r ardaloedd trefol mawr. Gallai cyswllt priodol a chynigion o gymorth eu galluogi i roi'r gorau i gysgu allan. Eto, rhaid cydnabod na fydd rhai hwyrach yn barod i ymryddhau ar frys o'u harfer hirdymor o gysgu allan, ac y bydd angen sefydlu cyswllt ac ymddiriedaeth dros gyfnod hir cyn y gwelant yn dda i wneud hynny. Yn wir, mae datblygu ymddiriedaeth rhwng asiantaethau a phobl sy'n cysgu allan yn hanfodol, os am ddarparu cymorth a gwasanaethau effeithiol.

Yn aml iawn, mae'r cyswllt a'r cymorth cilyddol ymysg pobl sy'n cysgu allan yn fwy datblygedig yn y trefi mawr nag ydyw yn y trefi llai, lle y gall cysgu allan fod yn ffordd fwy unig o fyw.

### Graddfa cysgu allan

Anodd iawn yw penderfynu union nifer y rhai sy'n cysgu allan, ac ni all gwaith cenhadol nac arolygon, hyd yn oed, gynnig rhagor nag amcangyfrif. Mae'r dystiolaeth yn arwyddo bod y nifer yn uwch yn y dinasoedd a'r trefi mwyaf yng Nghymru nag yn y trefi llai. Fodd bynnag, y mae cysgu allan yn digwydd mewn ardaloedd gwledig ac mewn trefi bach.

### Strategaethau i gynorthwyo rhai sy'n cysgu allan

Mae a wnelo cysgu allan a digartrefedd sengl yn aml â ffactorau ehangach na materion tai yn unig. Mae'n hanfodol, felly, darparu cymorth sydd wedi ei deilwra i ofynion yr unigolyn. Er mwyn ymateb yn effeithiol i ddigartrefedd sengl a chysgu allan yng Nghymru, mae angen gwasanaethau ychwanegol. Dylai'r gwasanaethau hynny gynnwys gwaith cenhadol, llety argyfwng hygyrch am 24 awr y dydd; gwasanaethau adsefydlu a chymorth, canolfannau dydd, cynlluniau bond, gwasanaethau cynghori ynghylch tai; a rhagor o lety fforddiadwy, sicr, o ansawdd da i bobl sengl yn yr ardaloedd cywir.

Gall y cymorth i rai sy'n cysgu allan gynnwys sylw brys gan wasanaethau argyfwng megis gwaith cenhadol a llety argyfwng; ond rhaid cyfannu hynny gyda llety symud-ymlaen digonol, ynghyd

â chymorth os oes angen. Yn yr hirdymor, bydd angen gwrthweithio'r problemau hyn trwy ymosod hefyd ar achosion isorweddol y digartrefedd a'r cysgu allan.

Gall datblygu strategaethau amlddisgyblaeth, amlasiantaeth, goleuedig, i ymosod ar ddigartrefedd sengl, wneud cyfraniad pwysig trwy sicrhau y defnyddir yr adnoddau yn y modd mwyaf effeithiol, ac y darperir gwasanaethau addas.

## Argymhellion

### I Gynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Dylid cael grŵp amlddisgyblaeth, amlasiantaeth i ysgrifennu a datblygu strategaeth ddigartrefedd genedlaethol, ar gyfer pob un sydd yn ddigartref. Gallai'r Fforwm Ymgynghorol Cenedlaethol ar Dai yng Nghymru arwain y gwaith hwn, a dylai gwmpasu materion ehangach na llety yn unig. Dylai hyn gysylltu â strategaethau eraill, yn genedlaethol ac yn lleol.

2. Dylid adolygu natur amser-gyfyngedig y cyllid a roddir i gyrff gwirfoddol yn unol ag Adran 180 Deddf Tai 1996, oherwydd y perygl y bydd gwasanaethau yn cau ar ddiwedd y cyfnod cyllido.

3. Dylai'r Cynulliad wahodd nifer mwy o'r cyrff gwirfoddol sy'n ymwneud â digartrefedd i wneud cais am gyllid dan Adran 180 Deddf Tai 1996.

4. Dylid ystyried yr oblygiadau cyllidol sy'n deillio o'r cynigion "Cynorthwyo Pobl", o safbwynt cynlluniau yn ymwneud â digartrefedd sengl.

5. Dylai fod grant, sy'n cyfateb i'r Grant Refeniw Tai Gyda Chymorth (SHRG), i helpu tenantiaid awdurdodau lleol a landlordiaid preifat i gynnal eu llety.

6. Trwy ymgynghori gyda'r cyrff priodol, dylid sefydlu fformat a dull cyson o gadw cofnod o'r rai sy'n cysgu allan ac o'r digartref sengl.

7. Gyda'r pwerau sydd ar gael iddo dan Adran 189 Deddf Tai 1996, dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ehangu'r categorïau o bobl ddigartref y rhoddir blaenoriaeth i'w hangen am lety, i gynnwys y rhai sy'n cysgu allan.

### I Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Llywodraeth Ganol

8. Dylid newid y ddeddfwriaeth ynglŷn â hawl rhai 16 - 25 oed i dderbyn budd-dâl tai, gan godi'r taliadau i'r lefel sydd ar gael i rai dros 25 oed.

9. Dylid ystyried newidiadau deddfwriaethol i fynnu bod yr awdurdodau lleol yn sicrhau y cynhelir asesiadau cymorth o'r holl ymgeiswyr digartref, ac y darperir cymorth priodol i bobl mewn achosion cymwys.

### I awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a chyrff gwirfoddol eraill

10. Dylai pob awdurdod lleol ddatblygu strategaeth ddigartrefedd ysgrifenedig mewn cydweithrediad â'r asiantaethau priodol, a dylai fod 'lladmerydd' ym mhob awdurdod i sicrhau ei datblygu, ei gweithredu a'i monitro. Dylai strategaethau'r awdurdodau lleol gyfannu'r strategaeth ddigartrefedd genedlaethol.

11. Dylid adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer y digartref sengl yn rheolaidd, i sicrhau y darperir y gwasanaethau mwyaf priodol.

12. Dylid gwneud rhagor o waith cenhadol mewn rhai ardaloedd.

13. Dylid darparu rhagor o wahanol fathau o lety argyfwng hygyrch 24-awr, i wrywod a benywod 'digartref anstatudol' ym mhob rhan o Gymru.

14. Dylid darparu gwasanaethau cymorth priodol ynghyd â'r llety argyfwng, i helpu pobl i baratoi ar gyfer llety cyfnod hwy, ac i setlo i mewn ynddo.

15. Dylid darparu canolfannau dydd mewn rhai ardaloedd.

16. Dylai'r awdurdodau lleol sicrhau y gwneir asesiad o anghenion cymorth pawb a ganfyddir yn ddigartref, ac y gwneir trefniadau priodol ar gyfer gwasanaethau cymorth.

17. Dylid darparu rhagor o lety fforddiadwy, sicr, o ansawdd da i unigolion sengl trwy'r rhan fwyaf o Gymru, yn yr ardaloedd lle y mae pobl yn dymuno byw.

18. Dylid darparu rhagor o wasanaethau cyngor tai mewn rhai ardaloedd.

19. Dylid datblygu rhai cynlluniau bond newydd, ac ehangu rhai o'r cynlluniau presennol, er mwyn helpu pobl i gael mynediad at lety preifat ar rent.

20. Dylai rhai o'r cynlluniau bond ystyried darparu, neu drefnu gydag asiantaethau eraill i ddarparu, cymorth i rai o'u cleientiaid i symud i mewn i'w llety ac i'w gynnal.

21. Dylid darparu rhagor o wasanaethau i bobl sy'n wynebu anawsterau mewn perthynas â chyffuriau a/neu alcohol.

22. Dylid ymgymryd â gwella'r paratoad, a'r gwaith cymorth dilynol, i rai sy'n symud allan o ofal yr awdurdod lleol.

23. Dylid gwella'r cymorth a roddir i rai sy'n cael anhawster oherwydd dau neu ragor o'r canlynol: problem iechyd meddwl, camddefnyddio cyffuriau, camddefnyddio alcohol.

24. Dylid darparu rhagor o gymorth i rai sy'n amlygu problemau ymddygiad neu anhwylderau personoliaeth.

25. Dylid cyflymu'r mynediad at wasanaethau adsefydlu cyffuriau.

26. Dylai'r gwasanaethau cymdeithasol roi blaenoriaeth uwch nag a wneir ar hyn o bryd i helpu'r digartref sengl.

27. Dylai pob awdurdod lleol a chymdeithas dai sicrhau nad ydynt, yn ddigyfiawnhad, yn cyfyngu mynediad pobl nad oes ganddynt gyfeiriad i'w cofrestrau tai neu restrau aros.

28. Dylid darparu rhagor o wasanaethau cyfryngu, i geisio lleihau nifer y toriadau perthynas, sy'n un o achosion pwysicaf digartrefedd.

29. Dylid darparu rhagor o wybodaeth am dai a digartrefedd i blant ysgol.

30. Dylai darparwyr hostelau a llochesau nos adolygu eu trefniadau yn rheolaidd, er mwyn sicrhau nad ydynt yn gwahardd neb o'u cynlluniau heb reswm cyfiawn, nac am gyfnod o amser na ellir ei gyfiawnhau.

31. Dylid sefydlu corff cynrychioliadol i'r cyrff gwirfoddol sy'n gweithio gyda'r digartref yng Nghymru, gyda chynrychiolaeth arno i bob corff aelodol.

### I'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol (NHS)

32. Dylid ymchwilio ymhellach i'r anhawster o gael mynediad at Feddyg Teulu, i rai o'r digartref sengl a chysgwyr allan yng Nghymru.

33. Dylai'r mynediad at ofal iechyd deintyddol fod yn haws i bobl ddigartref.

34. Dylid ystyried trefnu clinigau sefydlog neu symudol i'r digartref sengl yng Nghaerdydd ac Abertawe.

35. Dylid gwella'r paratoad a'r gwasanaeth cymorth dilynol i bobl ddigartref a ryddheir o'r ysbytai.

### I'r Adran Nawdd Cymdeithasol

36. Dylai fod gwell cysondeb, yn y mathau o daliadau a'r symiau a delir i bobl ddigartref o Gronfa Gymdeithasol yr Adran Nawdd Cymdeithasol, er mwyn dodrefnu eu llety wrth iddynt symud allan o gynlluniau tai gyda chymorth.

### I'r Swyddfa Gartref

37. Dylid gweithredu i wella'r paratoad ar gyfer llety a chymorth dilynol, i bobl a ryddheir o garchar.

# 1. Cyflwyniad

**1.1** Ym mis Hydref 1998 secondiwyd yr awdur i Adran Dai y Swyddfa Gymreig o'r corff gwirfoddol Newport Action for the Single Homeless, sy'n darparu llety a gwasanaethau cymorth i'r digartref sengl yng Nghasnewydd. Dyletswydd y swyddog a secondiwyd fyddai:

> "rhoi gwybod i'r Swyddfa Gymreig / Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r awdurdodau lleol am amlder ac achosion cysgu allan yng Nghymru; a chynghori ynglŷn â strategaethau i helpu rhai sy'n cysgu allan, a sut i gyrraedd yr amcan o ddileu'r angen i unrhyw un yng Nghymru gysgu allan."

**1.2** Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn wedi ymweld â phob awdurdod lleol yng Nghymru a llawer o'r cyrff gwirfoddol sy'n gweithio i helpu'r digartref sengl a rhai sy'n cysgu allan (fel a gofnodir yn Atodiad B). Y cyrff gwirfoddol dan sylw oedd y rhai sy'n darparu gwasanaethau cymorth neu lety. Yr oeddynt yn cynnwys cyrff sy'n darparu un neu ragor o'r gwasanaethau canlynol: gwaith cenhadol; rownd gawl neu rownd frecwast; llochesau nos; hostelau mynediad uniongyrchol; canolfan ddydd neu gyfleusterau galw-heibio; gwasanaethau cyngor tai; cynlluniau bond; a llety gyda chymorth. Ym mhob ardal, y nod oedd ymweld ag un neu ragor o'r prif gyrff. Mewn ardaloedd awdurdodau lleol fel Caerdydd ac Abertawe, canfuwyd ac ymwelwyd â nifer dda o wahanol gyrff. Mewn ardaloedd eraill, megis Torfaen, yr oedd yn anodd dod o hyd in unrhyw gorff a oedd yn gwybod am gysgu allan yn yr ardal. Cynhaliwyd y trafodaethau rhwng Tachwedd 1998 a Gorffennaf 1999, yn seiliedig ar restr o gwestiynau a ddiffiniwyd o flaen llaw ynglŷn â chysgu allan (fel yn Atodiadau C a D). Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar yr atebion i'r cwestiynau hynny.

**1.3** Mae rhai o'r materion sy'n ymwneud â chysgu allan hefyd yn berthnasol yng nghyd-destun perthynol ond ehangach digartrefedd yn gyffredinol ymysg pobl sengl. Oherwydd hynny, er mai ar gysgu allan y mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio, cwmpesir agweddau ar y persbectif ehangach, sef digartrefedd sengl.

**1.4** Ni fwriadwyd yr adroddiad hwn fel asesiad manwl o'r sefyllfa yn ardal pob awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae'n darparu arweiniad cyffredinol i'r hyn sy'n wybyddus am gysgu allan yng Nghymru mewn arolygon ac ystadegau. Mae hefyd yn arweiniad cyffredinol i safbwyntiau awdurdodau lleol a llawer o'r cyrff gwirfoddol ynglŷn â'r bylchau yn y ddarpariaeth bresennol.

# 2. Diffinio cysgu allan

**2.1** Bu'n anodd cadw at ddiffiniad manwl o gysgu allan o fewn yr adroddiad hwn. Mae rhannau o'r adroddiad yn cydgrynhoi'r ymchwil sydd wedi ei wneud yng Nghymru ar gysgu allan. Mae'r adroddiad yn cynnwys ystadegau a ddarparwyd gan wahanol gyrff, yn aml yn gysylltiedig â gofynion cyllidol, ac nad ydynt o anghenraid yn defnyddio diffiniad twt o gysgu allan. Yn yr un modd, mae rhannau eraill o'r adroddiad yn cyfeirio at sgyrsiau gyda chynrychiolwyr rhai o'r cyrff, a allent fod yn diffinio cysgu allan braidd yn wahanol i'w gilydd.

**2.2** Fel y canllaw cyffredinol, fodd bynnag, defnyddiwyd y diffiniad o bobl sy'n cysgu allan a roddir gan Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau:

> "Pobl sy'n cysgu, neu a wnaeth wely, yn yr awyr agored (megis ar y strydoedd, mewn mynedfeydd, parciau neu lochesau bysiau); neu mewn adeiladau neu leoedd eraill na fwriadwyd i neb fyw ynddynt (megis sguboriau, cytiau, meysydd parcio, ceir, cychod adfeiliedig, gorsafoedd neu 'bashes')"

**2.3** Defnyddir y diffiniad hwn hefyd yn y Fframwaith ar gyfer Strategaeth Dai Genedlaethol i Gymru. Nid yw'n cynnwys sgwatwyr, teithwyr, na phobl sy'n byw mewn hostelau, llochesau nos, neu lety dros dro cyffelyb, na phobl sy'n aros dros dro gyda chyfeillion neu berthnasau.

**2.4** Mewn rhannau o'r adroddiad defnyddiwyd y term 'stryd-ddigartref'. Defnyddir ef fwyfwy er enghraifft, gan y timau cenhadol mewn ardaloedd trefol sy'n cyfarfod pobl 'ar y stryd'. Arferir 'stryd-ddigartref' yn aml fel term i olygu rhai sy'n cysgu allan. Fodd bynnag, gall gyfeirio hefyd at bobl y cysylltir â hwy ar y stryd ar adegau o'r dydd pan nad oes tystiolaeth eglur eu bod yn cysgu allan. Yng nghyd-destun gwaith cenhadol, yr ystyriaeth bwysig yw bod rhywrai wedi gweld angen i gysylltu â'r gwasanaethau ar y stryd, ac y gallai hynny roi mynediad iddynt at y cymorth priodol.

# 3. Amlder cysgu allan

**3.1** Anodd yw penderfynu pa nifer mewn gwirionedd sy'n cysgu allan mewn ardal. Mae rhai yn cysgu allan am un noson neu ychydig o nosweithiau, a hwyrach na fyddant byth yn gorfod gwneud hynny wedyn. Mae eraill yn aros mewn gwahanol fathau o lety - yn symud oddi ar lawr un cyfaill neu berthynas at un arall, ac yna i le gwely a brecwast, i hostel, ac yn ôl ar lawr y cyfaill, gyda phwl neu ddau o gysgu allan yn y canol. Mae eraill eto sydd wedi cysgu allan am gyfnodau hwy, sy'n ei chael yn fwyfwy anodd i gael mynediad at wasanaethau, ac y mae cysgu allan wedi dod yn arferiad normal iddynt. Hwyrach na fydd rhai o'r bobl sy'n cysgu allan yn dymuno i neb gysylltu â hwy, ac ni ddônt i gysylltiad â chyrff sy'n darparu llety a chymorth. O ganlyniad, gyda phoblogaeth mor gyfnewidiol, a'r anhawster i adnabod y rhai sy'n cysgu allan trwy gynnal arolygon traddodiadol, nid yw'n debygol y bydd ymdrechion i 'gyfrif' y nifer sy'n cysgu allan ar un adeg benodol yn rhoi darlun cywir o'r sefyllfa. Fel arfer felly, yr hyn a geir trwy geisio 'cyfrif' y rhai sy'n cysgu allan fydd amcangyfrif is na'r gwir ffigur.

**3.2** Fodd bynnag, mae'n bwysig ceisio penderfynu'r nifer sy'n cysgu allan er mwyn cael syniad o faint y broblem. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r cofnodion ystadegol a gadwyd gan rai cyrff, ac arolygon o'r niferoedd a fu'n cysgu allan yng Nghymru er 1996.

**3.3** Mewn rhai ardaloedd (e.e. Caerffili, Caerdydd, Gwynedd, Casnewydd, Sir Benfro, Rhondda Cynon Taf, Abertawe) cynhaliwyd arolwg fwy nag unwaith rhwng 1996 a 1999. Mewn ambell ardal gwnaed un arolwg yn unig (e.e. Ynys Môn a Sir Fynwy). Gwnaed rhai o'r arolygon ledled yr awdurdod, tra'r oedd eraill yn gyfyngedig i un brif dref neu ddinas.

**3.4** Yr oedd rhai arolygon yn seiliedig ar gyfrif pennau dros wahanol gyfnodau (e.e. ar ddwy neu dair noson; dros gyfnod di-dor o 24 awr; unwaith y mis; ac unwaith neu ddwywaith yr wythnos am ddeng wythnos). Cofnododd rai o'r arolygon y troeon y daeth cysgwyr allan at yr asiantaethau am gymorth dros gyfnod o ychydig fisoedd neu flwyddyn.

**3.5** Nid yw'r diffiniadau o bobl yn cysgu allan a ddefnyddiwyd wedi eu cofnodi bob tro, ac weithiau maent yn gwahaniaethu ychydig rhwng un arolwg a'r nesaf.

**3.6** Mae rhai o'r arolygon yn cynhyrchu gwybodaeth ystadegol yn bennaf, tra bo eraill yn cynnwys gwybodaeth fwy ansoddol, er enghraifft am y rhesymau dros ddigartrefedd ac anghenion pobl sy'n cysgu allan.

**3.7** Mae'r arolygon a'r ystadegau yn dangos bod y nifer sy'n cysgu allan rhywdro yn ystod cyfnod o flwyddyn yn uwch na'r nifer sy'n gwneud hynny ar unrhyw un noson.

**3.8** Mae'r enghreifftiau canlynol yn darlunio'r amrywiaeth o arolygon ac ystadegau sydd ar gael am gysgu allan yng Nghymru:

**1996:** Mewn arolwg a gynhaliwyd mewn 15 lle yng Nghymru dros ddwy neu dair noson yn Ionawr a Chwefror 1996, canfuwyd 86 o bobl yn cysgu allan (Y Gwasanaeth Ymgynghorol Tai Anghenion Arbennig a Shelter Cymru, 1996);

- Daeth cynllun cenhadol symudol Cyreniaid Cymru i gysylltiad â 116 o rai a oedd yn stryd-ddigartref am un noson neu ragor yng nghanol dinas Abertawe rhwng 12 Chwefror a 21 Ebrill 1996.

**1997:** Mewn arolwg tair noson yn Nhachwedd 1997 canfuwyd 8 o bobl yn cysgu allan ym Mwrdeistref Caerffili (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Shelter Cymru, 1997);

- Mewn arolwg 24 awr ar 24 Medi 1997 amcangyfrifwyd bod 12 o bobl yn cysgu allan yng nghanol dinas Caerdydd (Cyngor Dinas Caerdydd - Tîm Canol y Ddinas, 1997);

- Trwy gyfrwng eu rownd frecwast ddyddiol rhwng Rhagfyr 1997 a Mawrth 1998, cyfarfu Cymuned Wallich Clifford â 60 o bobl yn cysgu allan yng nghanol neu o gwmpas dinas Caerdydd (Cymuned Wallich Clifford, 1998);

- Mewn cyfrifiadau ar un noson yr wythnos dros ddeng wythnos, canfuwyd 38 o bobl yn cysgu allan yng Ngwynedd (Cyngor Sir Gwynedd a Shelter Cymru, 1997);

- Canfuwyd mewn astudiaeth genhadol rhwng Gorffennaf 1996 a Mai 1997 bod hyd at 30 o bobl ar unrhyw un adeg yn cysgu allan ar strydoedd canol Abertawe (Cymdeithas Caer Las, 1997).

**1998:** Yn ystod arolwg 12 mis rhwng Gorffennaf 1997 a Mehefin 1998 dywedodd 75 o'r bobl a ddaeth at 39 o asiantaethau yn Sir Benfro, eu bod yn cysgu allan (Gweithredu dros Ddigartref Sengl Sir Benfro, 1998);

- Mewn arolwg tair noson yn Awst 1998 canfuwyd 11 o bobl yn cysgu allan ym mwrdeistref Caerffili a 13 ym mwrdeistref Casnewydd (Gweithredu dros Ddigartref Sengl Casnewydd, 1998);

- Mewn arolwg un noson 17 Gorffennaf 1998 canfuwyd 5 o bobl yn cysgu allan ym mwrdeistref Rhondda Cynon Taf (Fforwm Tai Pobl Sengl Rhondda Cynon Taf, 1998);

- Trwy gyfrif pennau unwaith neu ddwy noson yr wythnos dros ddeng wythnos, canfuwyd 34 o bobl yn cysgu allan yng Ngwynedd (23 ym Mangor ac 11 yng Nghaernarfon). Yn ychwanegol, lletywyd 12 o bobl trwy gynllun peilot galw-heibio a oedd yn rhedeg ochr yn ochr â'r cyfrifiad pennau (Cyngor Gwynedd a Chywaith Joseff, 1998);

- Bu lloches nos y Rhyl yn sir Ddinbych yn lletya 80 o bobl rhwng 1 Rhagfyr 1997 a 22 Mawrth 1998; yr oedd 70 ohonynt wedi cysgu allan rywdro yn eu hoes, a 58 wedi cysgu allan rywdro yn ystod y flwyddyn flaenorol (Gwasanaethau NACRO Gogledd Cymru, 1998).

**1999:** Bu lloches nos y Santes Fair ym Mangor (Gwynedd) yn lletya 50 o wahanol bobl rhwng 21 Rhagfyr 1998 a 4 Ebrill 1999, 29 ohonynt wedi bod yn cysgu allan cyn hynny, a 5 arall wedi byw mewn sgwat. (Cymdeithas Tai Gogledd Cymru, 1999);

- Yn ystod 13 'tro o gwmpas' nosweithiol a gyflawnwyd unwaith y mis yn Wrecsam rhwng 10 Ebrill 1998 a 9 Ebrill 1999, gan WATCH (Ymddiriedolaeth Weithredu Wrecsam Cristnogion Dros y Digartref), gwelwyd 18 o bobl yn cysgu allan;

- Mewn ciparolwg tair noson yn Ionawr a Chwefror 1999 canfuwyd 5 o bobl yn cysgu allan yng Nghasnewydd, neb yng Nghaerffili (er bod gwybodaeth ddibynadwy yn awgrymu bod 7 yn cysgu allan yno) a neb yn Sir Fynwy (er bod gwybodaeth ddibynadwy yn awgrymu bod 3 yn cysgu allan yno). Yr oedd dau a arhosodd yn lloches nos y gaeaf yn y Fenni rhwng 25 Rhagfyr 1998 a 31 Mawrth 1999 wedi bod yn gysgwyr allan hirdymor yn yr ardal honno (Gweithredu dros Ddigartref Sengl Casnewydd, 1999);

- Daeth gwasanaeth cenhadol Cyreniaid Cymru i gysylltiad â 169 o rai a oedd yn stryd-ddigartref am un noson neu ragor yng nghanol dinas Abertawe rhwng 3 Rhagfyr 1998 a 5 Mai 1999 (Cyreniaid Cymru, 1999);

- O'r 253 a fu'n aros yn Lodge House, canolfan dros nos Cymdeithas Caer Las

yn Abertawe rhwng Awst 1998 a Mawrth 1999, yr oedd 25 o'r rhai a ddatgelodd fanylion yn dweud eu bod wedi cysgu allan y noson cyn cael mynediad yno;

- Trwy gyfrwng eu rownd frecwast ddyddiol o 1 Rhagfyr 1998 i 31 Mawrth 1999, cyfarfu Cymuned Wallich Clifford â 75 o rai stryd-ddigartref (h.y. pobl a oedd, neu a ddywedodd eu bod, yn cysgu allan) yng nghanol ac o gwmpas canol dinas Caerdydd (Cymuned Wallich Clifford, 1999);
- Rhwng 1 Mawrth 1999 a 29 Gorffennaf 1999, canfu rownd gawl Andy Webb yng Nghaerdydd ar nosweithiau Iau fod cnewyllyn o ryw 6 o bobl yn cysgu allan yno. Rhwng 3 Mehefin 1999 a 29 Gorffennaf 1999, canfu'r rownd gawl rhwng 8 a 10 o bobl bob nos Iau (ac eithrio un noson pan gafwyd 14 yno);
- Amcangyfrifwyd gan ddeunaw o aelodau neu gefnogwyr Cysgu Allan Cymru (sef cynghrair o gyrff digartrefedd Cymreig), yn yr ardaloedd yng Nghymru lle mae'r aelodau'n gweithio, bod dros 150 o bobl yn cysgu allan a thros 1600 mewn llety dros dro, ar 6 Mai 1999 (Shelter Cymru, 28 Mehefin 1999).

**3.9** Fel y mae'r enghreifftiau hyn yn awgrymu, mae'n anodd monitro amlder y cysgu allan yng Nghymru ar hyn o bryd, oherwydd y gwahanol ddulliau o gasglu gwybodaeth, a phrinder cyrff a gomisiynwyd neu sydd â'r adnoddau neu i gasglu data mewn rhai ardaloedd. Mae cymariaethau yn anodd oherwydd diffyg fformat cyson ar gyfer casglu'r data. Fodd bynnag gall gwaith cenhadol, yn arbennig, ddarparu gwybodaeth ddiweddar, sy'n ddefnyddiol a dibynadwy. Y prif ardaloedd lle y gwneir gwaith cenhadol ar hyn o bryd yw Caerdydd, Abertawe, Bangor a Chaernarfon.

# 4. Achosion cysgu allan

**4.1** Mae gan bob unigolyn sy'n cysgu allan ei reswm neu resymau ei hunan dros fod yn y sefyllfa honno. Fodd bynnag, gellir adnabod prif achosion isorweddol digartrefedd fel y canlynol, a gall un neu gyfuniad ohonynt fod yn achos uniongyrchol bod unigolyn yn cysgu allan.

- Tor-perthynas. Gall hyn ddigwydd, er enghraifft, pan fo partneriaid yn gwahanu ac un ohonynt yn symud allan o'r cartref; pan ddywedir wrth berson ifanc am adael cartref yn dilyn anghydfod neu oherwydd ei ymddygiad annerbyniol; pan na all person ifanc ddioddef aros gartref ddim hwy, ac y mae'n rhaid iddo ef neu hi gael 'lle i anadlu'; yn dilyn ailbriodi pan fo partner newydd yn symud i mewn i'r cartref, a hynny yn peri trafferthion rhwng y 'llys-riant' a pherson ifanc. Gall hynny arwain at orfodi'r person ifanc i adael, neu deimlo ei bod yn rhaid iddo adael oherwydd na all ymdopi yn hwy â'r sefyllfa;
- Diffyg sefydlogrwydd neu strwythur cadarn yn y cefndir (e.e. symud o ofal un awdurdod lleol i ofal un arall);
- Tlodi. Os na all pobl fforddio i gynnal pob aelod o'u teulu agosaf, gellir gorfodi un neu ragor o'r aelodau i adael cartref;
- Diweithdra hirdymor;
- Problemau iechyd meddwl, a all arwain at anallu i ymdopi;
- Troi allan o lety (weithiau oherwydd anallu i ymdopi â'r cyfrifoldeb o fod yn denant);
- Anallu i ymdopi heb gymorth mewn llety annibynnol, yn enwedig ymysg rhai pobl ifainc, e.e. prinder sgiliau domestig, anallu i ofalu am filiau, budd-daliadau ac ymdrin â landlordiaid;
- Gadael gofal awdurdod lleol, heb baratoad a chefnogaeth ddigonol;
- Y berthynas gydag eraill yn torri i lawr mewn llety gyda chymorth i bobl ifainc, heb unman i'r person dan sylw symud iddo wedyn;
- Gadael carchar heb lety i fynd iddo na sgiliau digonol i fyw'n annibynnol;
- Gadael ysbyty (yn enwedig ysbyty seiciatryddol) heb drefnu llety a chymorth priodol o flaen llaw;
- Gadael y lluoedd arfog heb y gallu i ymdopi'n rhwydd yn awyrgylch llai sefydliadol y bywyd sifil. Hefyd, yn y lluoedd arfog mae traddodiad o yfed yn drwm ar benwythnosau. Yn y byd sifil gall hyn arwain at unigolion yn cysgu allan dros dro;
- Trais yn y cartref (yn bennaf yn erbyn benywod, er y gwelir yn digwydd hefyd yn erbyn gwrywod);
- Bygythiad o drais yn achosi i unigolyn symud allan o'i eiddo er mwyn osgoi'r sefyllfa honno;
- Camdriniaeth rywiol neu gorfforol yn achosi i unigolyn symud o'i gartref neu o ofal;
- Aflonyddu;
- Ailfeddiannu tai ar forgais;
- Unigrwydd;
- Marwolaeth partner yn achosi i unigolyn anobeithio a cholli'r ewyllys i barhau yn ei sefyllfa;
- Gall defnyddio cyffuriau neu alcohol greu trafferthion rhwng rhieni a phobl ifainc, gan achosi i'r person ifanc adael y cartref; mae rhai pobl yn defnyddio cyffuriau ac alcohol yn y fath fodd na allant ymdopi â chynnal tenantiaeth; troir rhai pobl allan o'u llety oherwydd ôl-ddyled rhent a achoswyd trwy fwydo'r arferiad cyffuriau yn lle talu'r rhent;
- Mae rhai pobl yn dilyn ffordd cwbl ddi-drefn o fyw, gan symud o un math o lety i'r nesaf, a

hwyrach yn ymroi i droseddu, defnyddio sylweddau anghyfreithlon, etc.;

- Mewn rhai trefi gwyliau mae rhai landlordiaid yn codi rhenti isel yn y gaeaf a rhenti uwch yn yr haf, gan achosi i rai tenantiaid symud allan yn yr haf oherwydd na allant fforddio'r rhenti uwch;
- Colli llety clwm trwy golli swydd mewn ardaloedd gwledig;
- Analluı i ddod o hyd i lety addas, fforddiadwy;
- Llety anaddas;
- Prinder llety fforddiadwy o ansawdd da yn yr ardaloedd priodol.

**4.2** Gall un neu gyfuniad o'r ffactorau hyn gyfrannu at wneud unigolyn yn ddigartref, ac yn uniongyrchol beri iddo gysgu allan. Fodd bynnag, mae yna nifer o ffactorau ychwanegol eraill a all weithiau achosi i'r unigolyn gysgu allan. Gallant fod yn arbennig o gyffredin yn y canolfannau trefol mwyaf, hyd yn oed os oes yno rai gwasanaethau cenhadol, llety argyfwng mynediad uniongyrchol, gwasanaethau adsefydlu a chymorth.

- Pobl a waherddir o hostelau neu lochesau nos (e.e. oherwydd ymddygiad treisiol, torri rheolau ynglŷn â chyffuriau, alcohol etc);
- Gall rhai anghofio bod ganddynt rywle i fyw, neu sut i gyrraedd eu llety. Mae hyn yn enwedig yn wir am bobl gyda phroblem alcohol sydd hwyrach wedi cysgu allan am flynyddoedd yn y gorffennol;
- Mae pobl ifainc weithiau yn dianc o'u cartrefi, neu o ofal, heb unman arall i fynd iddo. Os ydynt dan 16 oed hwyrach y byddant ofn cysylltu ag unrhyw swyddog na chorff gwirfoddol rhag ofn eu gorfodi i ddychwelyd i'w cartrefi neu i ofal, ac felly maent yn cysgu allan ac yn cadw'n ddistaw. Mae'n bosibl hefyd na fyddant yn gwybod at bwy i fynd am gymorth, ac nad ydynt yn dymuno, neu na chânt, aros gyda chyfeillion neu berthnasau;
- Nid yw rhai pobl ar y dechrau yn gwybod sut i ddod o hyd i'r llety argyfwng yn y dinasoedd a'r trefi mwyaf;
- Mae'r rheolau'r hostelau yn cau rhai pobl allan (e.e. nid yw rhai hostelau yn lletya cyplau, a phrin yw'r nifer sy'n caniatáu i gŵn aros, gyda'r canlyniad nad yw eu perchnogion yn barod i symud i'r hostel);
- Nid yw rhai yn dymuno defnyddio'r hostelau presennol, oherwydd eu trefn a'u rheolau;
- Ni fydd rhai a gyflawnodd droseddau difrifol ac sy'n ffoi rhag yr heddlu yn dymuno cael eu dal, a hwyrach y symudant i ardal arall a chysgu allan;
- Mae nifer fach o bobl yn gwneud penderfyniad bwriadus i ddewis dull penodol o fyw a allai gynnwys cyfnodau o gysgu allan (e.e. y 'rhyfelwyr ecolegol');
- Mae rhai pobl yn dewis ymeithrio o'r 'system' oherwydd, er enghraifft, eu bod yn gwybod, os cânt ormod o arian byddant yn yfed gormod ac y byddant farw oherwydd eu problem alcohol. Nid yw rhai o'r bobl sydd yn y sefyllfa hon yn hawlio budd-daliadau, ac y maent yn dibynnu ar gardota a/neu werthu nifer fach o'r “The Big Issue” er mwyn byw;
- Daethpwyd o hyd i nifer fach o ymgeiswyr am loches wleidyddol yn cysgu allan (yng Nghaerdydd, er enghraifft) oherwydd na wyddent at bwy i fynd am gymorth, ac yr oedd eu hanallu i siarad Saesneg yn gwneud eu sefyllfa yn anos;
- Mae eraill yn coleddu syniad afrealistig o fywyd mewn hostelau, ac oherwydd hynny nid ydynt yn gofyn am fynediad;
- Nid yw ambell un am ddefnyddio hostel oherwydd balchder.

**4.3** Profiad sy'n gyffredin ymysg rhai pobl sy'n cysgu allan yw symud o un math o lety ansicr i fath arall, gan ddisbyddu eu mynediad dros dro i lety yn y pen draw. Er enghraifft, fe gysgant ar

lawr yng nghartref cyfaill, yna symud i le gwely a brecwast, nôl ar lawr cyfaill, ac yna i fflat safon isel dros dro, ond weithiau'n cyrraedd sefyllfa o fod heb unrhyw le i aros a heb ddewis ond i gysgu allan.  Mae ambell un yn cysgu allan am noson neu ychydig nosweithiau, a byth yn gwneud hynny wedyn; mae eraill yn cysgu allan nifer o weithiau.  Mae eraill eto sydd wedi cysgu allan am gyfnodau hwy, ac yn aml y bobl hyn sy'n cael hi'n fwyfwy anodd i gael mynediad at wasanaethau ac i ailsefydlu eu hunain mewn llety ac i fewn i brif ffrwd cymdeithas.

# 5. Enghreifftiau o'r gwasanaethau presennol

**5.1** Mae'r adroddiad yn darparu enghreifftiau o'r gwasanaethau presennol sydd ar gael ym mhob ardal awdurdod lleol, i helpu'r digartref sengl yn gyffredinol. Prin fydd y cysylltiad uniongyrchol rhwng llawer o'r gwasanaethau hyn a'r bobl sy'n cysgu allan. Cofnodir hwy fel enghreifftiau o wasanaethau sy'n chwarae'u rhan i helpu'r digartref sengl ac yn cyfrannu at leihau'r tebygolrwydd y bydd pobl yn cysgu allan.

**5.2** Fodd bynnag, nodwyd hefyd y gwasanaethau sydd debycaf, yn draddodiadol, o gysylltu yn uniongyrchol â phobl yn cysgu allan ym mhob ardal. Y prif rai yw'r rowndiau cawl / brecwast, gwasanaethau cenhadol i'r cysgwyr allan, llochesau nos, hostelau mynediad uniongyrchol a chanolfannau dydd. Mae'r rhestr isod yn nodi'r ardaloedd awdurdod lleol lle y cafwyd bod gwasanaethau o'r fath yn bod.

**5.3** **Rowndiau cawl / brecwast**
Caerdydd, Conwy (Bae Colwyn, Llandudno), Sir Ddinbych (Y Rhyl), Gwynedd (Caernarfon a Bangor), Casnewydd, Abertawe.

**Gwasanaethau cenhadol i bobl sy'n cysgu allan**
Caerdydd, Gwynedd (Caernarfon a Bangor), Abertawe.

**Llochesau nos (trwy'r flwyddyn)**
Caerdydd, Gwynedd (Bangor), Abertawe, Wrecsam.

**Llochesau nos (gaeaf 1998/99)***
Caerdydd, Sir Ddinbych (Y Rhyl), Gwynedd (Bangor) Sir Fynwy (Y Fenni).

**Hostelau mynediad uniongyrchol (mynediad 24-awr i, o leiaf, wrywod a benywod 18-65 oed)**
Caerdydd, Caerfyrddin, Casnewydd, Abertawe.

**Canolfannau dydd a galw-heibio i bobl ddigartref**
Caerdydd, Casnewydd (canolfan alw-heibio ran amser am fwyd / dillad) ac Abertawe (gwasanaeth cymorth a café gyda'r nos, a chanolfan alw-heibio ran-amser yn ystod y dydd).

* Yn Sir Benfro, gellir cyfeirio rhai sy'n cysgu allan i hostelau'r awdurdod lleol yn Ninbych-y-pysgod a Doc Penfro yn ystod y gaeaf.

# 6. Strategaethau digartrefedd sengl

**6.1** O'r 22 awdurdod lleol, pedwar sydd wedi ysgrifennu strategaeth i'r digartref sengl. Paratôdd Merthyr Tudful "Single Persons Homeless Strategy 1998/2000" ac y mae gan Rhondda Cynon Taf "Single Person Housing Strategy 1999-2002". Nid yw strategaeth Caerdydd yn ddogfen waith gyfredol, ac y mae'n destun adolygiad ar hyn o bryd. Mae strategaeth Abertawe ar ganol ei hadolygu, a disgwylir y bydd wedi ei chwblhau erbyn yr hydref 1999. Mae yna Strategaeth Ddigartrefedd Ieuenctid Abertawe, a fu'n weithredol ac a adolygwyd yn rheolaidd er 1996. Mewn rhai awdurdodau sefydlwyd fforymau tai neu ddigartrefedd (neu grwpiau cyffelyb) sy'n ymddangos yn dalyrnau addas ar gyfer datblygu strategaeth digartrefedd sengl. Yr awdurdodau hynny yw Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Ynys Môn, Casnewydd, Sir Benfro a Bro Morgannwg.

# 7. Bylchau yn y ddarpariaeth i rai sy’n cysgu allan a’r digartref sengl

**7.1** Er cyn lleied yw nifer y strategaethau ysgrifenedig, mae pob ardal wedi llwyddo i nodi bylchau yn y ddarpariaeth i rai sy'n cysgu allan ac i'r digartref sengl yn gyffredinol. Mewn rhai achosion nodwyd y diffygion mewn sylwadau gan gyrff gwirfoddol a / neu'r awdurdodau lleol, ac mewn rhai ardaloedd ategwyd hynny gan arolygon neu adroddiadau. Rhestrir isod yr anghenion sydd heb eu diwallu.

## Llety argyfwng

**7.2** Nododd pob un o'r awdurdodau lleol yr angen am lety argyfwng i bobl ddigartref, nad ydynt yn perthyn i grŵp blaenoriaeth sy'n gymwys am lety argyfwng yn unol â Deddf Tai 1996.

**7.3** Yr oedd y mathau o lety argyfwng a nodwyd yn cynnwys y canlynol: rhagor o welyau mynediad uniongyrchol nag a ddarperir ar hyn o bryd (yng Nghaerdydd, Sir Gaerfyrddin [yn benodol, darpariaeth newydd yn Llanelli], Casnewydd ac Abertawe); cynlluniau mynediad uniongyrchol (yn Sir Ddinbych, Gwynedd, Merthyr Tudful, Castell-nedd a Phort Talbot, a Wrecsam); a darpariaeth mynediad uniongyrchol neu argyfwng ar raddfa fechan (e.e. 1-6 gwely argyfwng) yn un neu ragor o'r trefi mewn rhai awdurdodau (Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Ceredigion [yn enwedig i bobl ifainc], Conwy, Sir y Fflint, Sir Benfro, Powys, Torfaen a Bro Morgannwg).

**7.4** Nododd rhai o'r ardaloedd yr angen am ddarpariaeth argyfwng yn benodol i bobl ifainc (Blaenau Gwent, Caerffili, Caerdydd, Sir y Fflint, Gwynedd, Sir Fôn, Abertawe a Bro Morgannwg; i rai dros 25 oed (Ynys Môn); neu am ddarparu lloches nos dros dro, a fyddai hefyd yn gymorth i ganfod yn eglur beth yw lefel yr angen yn yr ardal (Sir Fynwy a Rhondda Cynon Taf).

**7.5** Ym Mlaenau Gwent, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn a Bro Morgannwg, nodwyd y posibilrwydd o letya pobl ifainc yng nghartrefi gwirfoddolwyr dan amgylchiadau argyfwng byrdymor, fel yn y cynllun 'Nightstop' a ddefnyddir gan Barnardo's.

**7.6** Ym mhob ardal nodwyd yr angen am lety i wrywod a benywod, y gellir cael mynediad iddo ar unwaith.

**7.7** Nid oedd yr angen am lety argyfwng yn gyfyngedig i'r prif ganolfannau trefol: yr oedd hefyd yn bod yn yr awdurdodau mwyaf gwledig. Mynegwyd y farn droeon nad yw pobl yn aml yn dymuno symud o'r dref sy'n gartref iddynt, hyd yn oed filltir neu ddwy i ffwrdd. Yr oedd hyn yn arbennig o wir mewn llawer o'r cymunedau yng nghymoedd dy De, ond yr oedd i'w weld hefyd mewn trefi bychain ac ardaloedd gwledig yn yr awdurdodau eraill, megis Sir y Fflint, Sir Benfro a Bro Morgannwg.

## Rhagor o lety fforddiadwy o ansawdd da i bobl sengl yn yr ardaloedd priodol

**7.8** Mae angen cyfannu'r llety argyfwng ymhob ardal gyda chyflenwad digonol o lety arall, y gall pobl symud i mewn iddo am dymor hwy. Heb y ddarpariaeth honno, bydd y llety argyfwng yn fuan yn llawn, ni all neb newydd symud i mewn iddo, ac o ganlyniad ni wneir dim i ddiwallu eu hangen am lety ar frys. Mae gofyn i'r llety tymor hwy fod yn fforddiadwy, o ansawdd da ac yn y mannau lle mae pobl yn dymuno byw.

**7.9** Mewn rhai o'r awdurdodau lleol mwyaf trefol nodwyd bod rhai stadau mawr o dai

cymdeithasol yn lleoedd anneniadol oherwydd eu lleoliad, eu hanes a phrinder cyfleusterau masnachol a chymdeithasol.

**7.10** Mewn rhai o'r awdurdodau mwyaf gwledig, nodwyd yr angen syml am ragor o lety i bersonau sengl yn y trefi bach. Clywyd yn aml nad yw llawer o bobl o anghenraid yn dymuno symud o'r ardaloedd sy'n gyfarwydd iddynt, lle mae eu teuluoedd a'u cyfeillion hwyrach yn byw, ac y maent yn teimlo eu bod yn perthyn.

**7.11** Ni ddylid cymryd yn ganiataol bod pawb sengl yn dymuno cael llety gydag un ystafell wely, gan y byddai'n well gan rai dŷ gyda 2 neu 3 ystafell; a hwyrach y bydd angen rhagor nag un ystafell er mwyn i ddibynyddion rhai ohonynt (e.e. plant, yn dilyn ymwahanu) gael aros o bryd i'w gilydd.

**7.12** Y deunaw ardal a nododd yr angen am ragor o lety fforddiadwy o ansawdd da i bobl sengl mewn ardaloedd priodol, oedd Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili (yn enwedig i bobl ifainc), Caerdydd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Castell-nedd a Phort Talbot, Sir Benfro, Powys, Rhondda Cynon Taf, Abertawe (yn enwedig i bobl ifainc) Torfaen, Bro Morgannwg a Wrecsam.

## Gwasanaethau cymorth i bobl yn eu llety eu hunain

**7.13** Gall cymorth i rai pobl yn eu llety eu hunain gel dylanwad sylweddol trwy eu helpu i reoli eu tenantiaeth, a chyfrannu at atal digartrefedd.

**7.14** Mae llawer ardal wedi nodi'r angen am fecanwaith cyllido, tebyg i'r Grant Refeniw Tai gyda Chymorth (SHRG), i gynorthwyo pobl mewn llety cyngor neu lety preifat ar rent. Mae'r cyllid 'cymorth symudol' SHRG ar gael yn unig fel cymorth i denantiaid cymdeithasau tai.

**7.15** Nodwyd yr angen am hyblygrwydd yn y criteria ar gyfer cymorth (megis rhoi cymorth i bobl sydd ag amrywiaeth mawr o anghenion, am gyfnodau heb gyfyngiad amser mewn rhai achosion, a theilwra'r cymorth i anghenion yr unigolyn yn hytrach nag i gategorïau penodol o angen).

**7.16** Dwy ardal ar bymtheg a nododd yr angen am ragor o gymorth i bobl yn eu llety eu hunain, sef: Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Castell-nedd a Phort Talbot, Casnewydd, Sir Benfro, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Bro Morgannwg.

## Gwasanaethau cynghori

**7.17** Nodwyd yr angen am ragor o gyngor tai mewn rhai ardaloedd, ac mewn rhai achosion credid bod angen "siop un alwad", sy'n darparu mathau eraill o gyngor hefyd. Y deuddeng ardal a gyfeiriodd at yr angen am ragor o wasanaethau cyngor tai oedd: Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Ddinbych, Merthyr Tudful, Sir Benfro, Powys, Abertawe, Torfaen a Bro Morgannwg. Ardaloedd gwledig yw llawer o'r rhain, a oedd yn teimlo bod angen trefniadau cynghori mewn nifer o drefi, yn hytrach nag yn y brif dref neu'r dref fwyaf yn unig.

## Gwasanaethau adsefydlu

**7.18** Mae ar rai o'r bobl ddigartref sy'n symud i mewn i lety angen cymorth gyda materion fel: cael gafael ar lety; paratoi at fyw yn fwy annibynnol; llenwi ceisiadau budd-dâl; trefnu i gael gwasanaethau fel nwy, trydan a dŵr; dodrefnu; a chymorth cyffredinol yn y cyfnod cynnar ar ôl symud i mewn. Gall cymorth o'r fath wneud gwahaniaeth mawr i'w cyfle i setlo ac ymdopi mewn llety. Nodwyd yr angen am y math hwn o wasanaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych,

Gwynedd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Castell-nedd a Phort Talbot, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg.

### Gwasanaethau i bobl sy'n wynebu problemau mewn perthynas â chyffuriau

**7.19** Nodwyd yr angen am ragor o wasanaethau i rai sy'n wynebu dibyniaeth ar gyffuriau neu broblemau cysylltiedig â chyffuriau, gan ddeg o'r ardaloedd: Caerffili (llety gyda lefel uchel o gymorth), Caerdydd (llety gyda chymorth), Sir Gaerfyrddin (gwasanaethau adsefydlu cyffuriau), Ceredigion, Ynys Môn, Merthyr Tudful, Castell-nedd a Phort Talbot (llety gyda lefel uchel o gymorth), Sir Benfro (cyngor a chymorth), Bro Morgannwg a Wrecsam.

### Gwasanaethau i bobl sy'n wynebu problemau mewn perthynas ag alcohol

**7.20** Nodwyd yr angen am ragor o wasanaethau i rai sy'n wynebu problemau mewn perthynas ag alcohol, gan wyth o'r ardaloedd. Yr ardaloedd hynny oedd Caerdydd (rhagor o welyau dadwenwyno y gellir cael mynediad atynt ar frys, a rhagor o lety gyda chymorth), Ceredigion, Sir Ddinbych (gwasanaeth i gysgwyr allan hirdymor gyda phroblem alcohol), Merthyr Tudful, Castell-nedd a Phort Talbot ("tŷ gwlyb"), a Bro Morgannwg.

### Ymchwil

**7.21** Yr oedd wyth ardal yn cydnabod bod arnynt angen rhagor o wybodaeth am gysgu allan a digartrefedd sengl. Y rheini oedd Sir Gaerfyrddin Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, pob un ohonynt yn bwriadu cynnal arolwg ym 1999 neu 2000, Sir Fynwy, Powys a Thorfaen.

### Canolfannau dydd neu alw-heibio

**7.22** Nododd saith awdurdod yr angen am ganolfannau dydd neu ryw fath arall o ddarpariaeth yn ystod y dydd. Yr awdurdodau oedd: Blaenau Gwent (i bobl ifainc), Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Casnewydd, ac Abertawe.

### Cynlluniau bond

**7.23** Gall cynlluniau bond chwarae rhan ddefnyddiol iawn trwy warantu bondiau a rhent o flaen llaw i landlordiaid, er mwyn helpu pobl i gael mynediad i lety preifat ar rent. Mae cynlluniau yn bod eisoes mewn rhai rhannau o Gymru, megis Caerdydd, Ceredigion, Gwynedd, Casnewydd, Abertawe a Bro Morgannwg.

**7.24** Mae gan rai o'r ardaloedd gynlluniau bond ar raddfa gymharol fechan (e.e. Blaenau Gwent, Merthyr Tudful a Sir Fynwy) neu sydd wedi eu hanelu yn bennaf at grwpiau oedran neu gleientiaid penodol (e.e. Pen-y-bont ar Ogwr a Wrecsam [y ddau i'w sefydlu erbyn yr hydref 1999] a Chaerffili).

**7.25** Nododd Sir Gaerfyrddin, Conwy, Sir y Fflint, Powys a Thorfaen fod angen cynlluniau bond newydd, ac Ynys Môn ei bod yn bosibl bod angen rhywbeth o'r fath.

**7.26** Nododd Blaenau Gwent, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yr angen i gynyddu'r cyllid i'r cynlluniau sy'n weithredol eisoes er mwyn cynyddu lefel y gwasanaeth sydd ar gael yn yr ardal. Nododd Caerffili fod angen ehangu'r cymhwyster ar gyfer y cynllun bond presennol.

### Gwasanaethau cenhadol

**7.27** Pum ardal a nododd yn benodol yr angen am waith cenhadol i ddod i gysylltiad â phobl sy'n cysgu allan. Yr ardaloedd oedd Caerffili, Sir Ddinbych, Ynys Môn, Casnewydd a Sir Benfro. Nododd Abertawe fod angen cynyddu'r gwaith cenhadol yn y gwanwyn, yr haf a'r hydref.

### Llety gyda chymorth i bobl â phroblemau ymddygiad neu ddull o fyw di-drefn

**7.28** Nododd Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Conwy ac Abertawe (yn benodol i bobl ifainc) yr angen

am lety gyda chymorth i bobl gyda phroblemau ymddygiad amlwg neu ddull o fyw di-drefn. Mae'n ymddangos nad yw rhai pobl yn y fath sefyllfa yn cael cymorth priodol, ac nad yw'r 'rhwydi diogelwch' traddodiadol yn eu dal.

## Gwaith atal digartrefedd yn yr ysgolion

**7.29** Yr oedd Sir y Fflint, Abertawe, Torfaen a Bro Morgannwg yn nodi bod darparu cyngor tai a chynnal trafodaethau ar ddigartrefedd yn yr ysgolion yn faes pwysig o ran atal digartrefedd. Soniodd Bro Morgannwg hefyd am yr angen i estyn y gwaith hwnnw, i gyrraedd rhai 14-18 oed mewn colegau a chlybiau ieuenctid.

## Bylchau eraill yn y gwasanaethau

**7.30** Nodwyd amryw o fylchau eraill yn y gwasanaethau, sef: llety gyda chymorth i bobl ifainc (Ceredigion); cynllun llety gyda chymorth (Merthyr Tudful); ehangu'r cynllun llety gyda chymorth presennol i'r digartref sengl (Merthyr Tudful); llety gyda chymorth i rai sydd â phroblemau iechyd meddwl (Ceredigion); llety hanner-ffordd rhwng llety argyfwng a llety hirdymor (Sir Benfro); rhagor o dai hirdymor i'w rhannu (Caerdydd); rhagor o lety gyda chymorth lle y gall pobl ddysgu a gwella eu sgiliau byw sylfaenol, megis coginio a byw o fewn cyllideb cyn symud i lety mwy annibynnol (Caerdydd); gweithwyr cymdeithasol i weithio'n benodol gyda phobl ddigartref sydd â phroblem iechyd meddwl (Abertawe); gwasanaeth ymyrryd mewn argyfwng i rai sy'n dioddef gan afiechyd meddwl (Abertawe); tîm amlddisgyblaethol gyda'i gyllideb ei hun a all dorri ar draws y rhaniadau adrannol traddodiadol (Casnewydd); gwasanaethau cwnsela (Ceredigion); gwasanaeth cyfryngu er mwyn atal rhywfaint o'r digartrefedd (Blaenau Gwent a Chaerffili); gwasanaethau addas i weithio gyda phobl dreisgar ddigartref ac eraill a waherddir yn rheolaidd o'r hostelau (Caerdydd); cynllun cofrestru i landlordiaid preifat ym Mhort Talbot (Castell-nedd a Phort Talbot); llyfryn gwybodaeth / cyfeiriadur gwasanaethau (Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn); gwasanaeth ymgyfeillio (Abertawe); gwasanaeth cenhadol i ieuenctid (Sir Gaerfyrddin); gwasanaeth sgrinio rhag twbercwlosis (Abertawe); gwasanaeth cynghori tu allan i'r oriau arferol (Sir Gaerfyrddin); baddondai cyhoeddus lle y gellir cael cawod, ymolchi a newid dillad (Caerdydd a Sir Benfro); clinig, gan gynnwys cyngor iechyd i bobl ddigartref (Caerdydd ac Abertawe); cypyrddau diogel dan glo, lle y gall pobl sy'n cysgu allan gadw blancedi, dillad ac eitemau personol (Caerdydd).

# 8. Materion eraill

**8.1** Mae gan y bylchau yn y ddarpariaeth, a nodwyd yn yr adran flaenorol, oblygiadau posibl o ran adnoddau a chyllid. Fodd bynnag, daeth nifer o faterion i'r amlwg yn ystod yr ymchwil hwn na fyddent o anghenraid yn gwneud fawr o wahaniaeth i'r gofynion cyllidol. Yn wir, daeth rhai pethau i'r golwg a fyddai'n defnyddio ychydig iawn neu ddim cyllid ychwanegol, ond eto sydd â photensial i wella'r ddarpariaeth a'r cyfleoedd i bobl sy'n cysgu allan ac i'r digartref sengl yn gyffredinol. Rhestrir isod y meysydd a nodwyd yn y cyd-destun hwn.

## Cofrestru gyda Meddyg Teulu a mynediad at ofal iechyd

**8.2** Gall y rhai sy'n cysgu allan a'r digartref sengl yn gyffredinol ei chael yn anodd iawn i gofrestru gyda Meddyg Teulu, yn enwedig os ydynt yn newydd i'r ardal, neu heb gofrestru gyda meddyg pan oeddent mewn llety mwy sefydlog yn yr ardal. Os na all unigolyn gofrestru gyda Meddyg Teulu, cyfyngir ar ei fynediad at wasanaethau gofal iechyd eraill.

**8.3** Gall Feddyg Teulu wrthod cofrestru unigolyn yn ei feddygfa am ba bynnag reswm a ddewisa. Gallai hynny, er enghraifft, olygu na all rhai unigolion gofrestru oherwydd annibendod eu hymddangosiad, diffyg hylendid personol neu'r modd y disgwylir iddynt ymddwyn. Os gwrthodir i neb gofrestru gyda Meddyg Teulu, gall y sawl a wrthodwyd gysylltu â'r awdurdod iechyd lleol, a fydd yn dyrannu meddyg iddo ef neu hi.

**8.4** Fodd bynnag, er mwyn cofrestru y mae angen cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth. Mae cyfeiriad 'dan ofal' yn dderbyniol gan bobl sydd heb lety. Er enghraifft byddai asiantaeth fudd-daliadau, swyddfa gwasanaethau cymdeithasol neu feddygfa yn aml yn gyfeiriadau 'd/o' derbyniol, gyda chaniatâd yr asiantaeth dan sylw.

**8.5** Yn ymarferol, nodwyd mewn llawer ardal bod cofrestru gyda meddyg yn broblem gyffredin i bobl sy'n cysgu allan ac i'r digartref sengl yn gyffredinol. Nodwyd hynny gan Ben-y-bont ar Ogwr, Caerdydd (i raddau), Sir Gaerfyrddin (yn Llanelli), Conwy, Gwynedd, Sir Fynwy, Castell-nedd a Phort Talbot, Casnewydd, Sir Benfro, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Wrecsam.

**8.6** Mewn rhai ardaloedd mae'r hostelau yn gwneud trefniadau gyda'r Meddygon Teulu lleol er mwyn ceisio ymdopi i ryw raddau â'r broblem hon. Mae'r lloches nos yn y Rhyl, Sir Ddinbych, er enghraifft, wedi sefydlu cysylltiad â meddygfa ymarferwyr lleol, sydd wedi cytuno i gofrestru'r bobl sy'n byw yn y lloches. Mae cysylltiadau da iawn yn bod rhwng Meddygon Teulu a rhai o'r hostelau yng Nghaerdydd, ond nid ydynt gystal i breswylwyr yr hostelau eraill. Mae ymarferydd nyrsio i'r digartref yn ymweld yn rheolaidd â llawer o'r hostelau yng Nghaerdydd, a gall helpu pobl i gofrestru gyda meddyg. Mae cynllun mynediad uniongyrchol Caerfyrddin wedi datblygu cysylltiadau da gyda dau o'r Meddygon Teulu lleol sydd yn barod i gofrestru preswylwyr.

**8.7** Bydd rhai pobl hwyrach yn teimlo na allant fynd ar gyfyl meddygfa, neu hwyrach na allant ymdopi â'r broses o gysylltu â'r awdurdod iechyd, i gael dyrannu meddyg iddynt. Mae pobl yn y sefyllfa hon mewn perygl arbennig o fethu â gweld meddyg, ac oherwydd eu sefyllfa (yn enwedig y rhai sy'n cysgu allan), gall eu hiechyd fod yn fregus iawn. Gallant, er enghraifft, ddioddef anhwylderau difrifol i'w traed (trwy beidio â newid sanau ac esgidiau sydd yn gyson yn wlyb neu'n chwyslyd), problemau iechyd oherwydd ymborth anaddas neu brinder bwyd, problemau oherwydd gorwedd ar arwynebau caled iawn, megis cardbord neu goncrit, afiechydon cronig y frest a'r anadl, briwiau ac anhwylderau'r croen, ac y maent yn fwy tebygol o ddal nifer o afiechydon eraill.

**8.8** Hwyrach y bydd angen ystyried pam y mae'n rhaid cael cyfeiriad er mwyn cofrestru gyda Meddyg Teulu; hefyd, a fyddai'n briodol trefnu rhagor o ofal sylfaenol rhagweithiol neu

genhadol, ar gyfer pobl sydd hwyrach yn ei chael yn anodd i ddefnyddio'r gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol traddodiadol; ac a ellir gwella'r mynediad at y gwasanaethau gofal iechyd eraill, i rai sydd heb Feddyg Teulu; a gwella agwedd rhai o'r proffesiynolion iechyd tuag at y digartref.

## Sicrhau cymorth i bobl sy'n wynebu problemau mewn perthynas â dau neu ragor o'r meysydd iechyd meddwl, camddefnyddio cyffuriau a chamddefnyddio alcohol

8.9 Mae rhai pobl yn wynebu problemau mewn perthynas â dau neu ragor o'r meysydd iechyd meddwl, camddefnyddio cyffuriau a chamddefnyddio alcohol. Nodwyd yr anhawster o gael cymorth priodol i bobl yn y fath sefyllfa yn ardaloedd Caerffili, Caerdydd, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Castell-nedd a Phort Talbot, Casnewydd, Sir Benfro, Powys, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Wrecsam.

8.10 Y math o anawsterau a wynebir gan bobl gyda phroblem iechyd meddwl a phroblem alcohol, er enghraifft, yw y gallai'r gwasanaethau iechyd meddwl wrthod eu helpu, gan ddweud bod raid iddynt ddatrys eu hanawsterau gydag alcohol yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, hwyrach y dywed y gwasanaethau alcohol mai canlyniad y salwch meddwl yw'r problemau gydag alcohol, ac mai'r salwch meddwl a ddylid ei drin gyntaf, cyn y gellir gwneud dim ynghylch y broblem alcohol. Yn yr un modd, gwaherddir pobl rhag defnyddio rhai gwasanaethau iechyd meddwl, oherwydd eu hymddygiad ar ôl bod yn yfed.

## Budd-daliadau

8.11 Cyfeiriodd deg o'r ardaloedd at anawsterau'r digartref sengl mewn perthynas â budd-daliadau. Tynnodd Sir Gaerfyrddin, Ynys Môn, Sir Benfro, Powys ac Abertawe yn tynnu sylw yn benodol at y modd yr oedd y cyfyngiadau yn y rheolau budd-dâl tai i rai dan 25 oed yn achosi caledi i bobl ifainc. Tynnodd Caerffili sylw at yr anawsterau ynglŷn â chael budd-daliadau i rai sydd heb gyfeiriad sefydlog. Nododd Powys yr anhawster o ran cael budd-daliadau i bobl ifainc ddiamddiffyn 16 a 17 oed.

8.12 Nododd Sir Benfro a Wrecsam yr anhawster i gael taliadau am ddodrefn a chyfarpar o Gronfa Gymdeithasol yr Adran Nawdd Cymdeithasol. Mae'n ymddangos bod gwahaniaethau mawr ym maint y Grantiau Gofal Cymunedol a ddyfernir, a'u bod yn anos i'w cael mewn ambell ardal na'i gilydd. Yn yr un modd, ceir achosion (yng Nghaerdydd, er enghraifft) o bobl ddigartref, mewn amgylchiadau sy'n ymddangos yn debyg iawn i'w gilydd, yn cael mathau o daliadau a symiau o'r Gronfa Gymdeithasol sy'n gwahaniaethu yn sylweddol. Os cymerir Benthyciad Cyllidebu neu Argyfwng gall hynny arwain at galedi difrifol, gan y didynnir symiau yn rheolaidd o fudd-dâl y derbynnydd i ad-dalu'r benthyciad.

8.13 Gall cyflwyno rheolau adnabod llymach, ar gyfer yr hawl i fudd-dâl tai, hefyd achosi problem. Nododd Casnewydd nad oes gan lawer o'r bobl sy'n aros mewn hostelau unrhyw ddogfennau adnabod, ac y mae hynny'n fwy tebygol byth o fod yn wir, am y rhai sy'n cysgu allan, ac sy'n debyg o gael trafferth enbyd i sicrhau dogfen adnabod o ffynhonnell draddodiadol, megis cerdyn meddygol, pasport, cyfrif banc, biliau, etc. Yn Sir y Fflint, nodwyd yr angen i dalu'r budd-daliadau yn wythnosol yn hytrach na phob pythefnos i rai pobl ifainc, er mwyn eu helpu i gadw at gyllideb.

## Cysylltiad y gwasanaethau cymdeithasol â'r digartref sengl

8.14 Mynegodd wyth ardal eu pryder oherwydd y flaenoriaeth isel a roddir i bobl ddigartref sengl gan yr adrannau gwasanaethau cymdeithasol. Nododd Caerffili, Caerdydd, Sir y Fflint a Chasnewydd y gall fod yn anodd, a chymryd amser hir, i gael asesiadau gan y gwasanaethau cymdeithasol. Dywedodd Caerdydd hefyd bod angen i'r gwasanaethau cymdeithasol chwarae rhan amlycach yn yr ymateb cyfannol i gysgu allan, ac mewn darparu cymorth i bobl ddigartref

gyda phroblem iechyd meddwl; ac y dylent fod ar gael yn amlach tu allan i'r oriau swyddfa traddodiadol. Nododd Castell-nedd a Phort Talbot yr anhawster i gael cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol pan fo anghenion yr unigolyn dan sylw yn cwmpasu rhagor nag un tîm gwasanaethau cymdeithasol. Ym Merthyr Tudful mynegwyd pryder nad oedd y gwasanaethau cymdeithasol yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau llawn yn unol â'r Ddeddf Plant. Yr oedd un hostel yng Nghonwy yn ei chael yn anodd weithiau i gael cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol. Ym Mhowys cafwyd anhawster weithiau i sicrhau cefnogaeth barhaus gan y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth prawf, ar ôl i unigolyn symud i mewn i rai o'r cynlluniau llety gyda chymorth.

## Sicrhau cymorth i bobl gydag anhwylder personoliaeth neu broblem ymddygiad

**8.15** Gall fod yn anodd i bobl gael y cymorth priodol os oes ganddynt 'anhwylder personoliaeth' neu 'broblem ymddygiad'. Hwyrach na fyddant yn gymwys i dderbyn triniaeth feddygol, er enghraifft, os nad ydynt yn dioddef gan afiechyd meddyliol neu gorfforol. Nododd Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Conwy, Sir Ddinbych, Castell-nedd a Phort Talbot, Abertawe a Wrecsam y gall fod yn anodd iawn cael cymorth priodol i bobl sy'n arddangos problemau ymddygiad. Gall eu hymddygiad achosi iddynt gael eu gwahardd rhag cael llety na defnyddio gwasanaethau.

## Strategaethau digartrefedd sengl

**8.16** Nododd Rhondda Cynon Taf bod angen cyflogi unigolyn enwebedig i fod yn gyfrifol am ddatblygu strategaeth ddigartrefedd sengl. Mae Abertawe eisoes yn cyflogi "cydgysylltydd strategaeth ddigartrefedd sengl" gyda chylch gwaith penodol o ymgymryd â'r swyddogaeth honno. Mae'n rhan o ddyletswydd un aelod o staff yr awdurdod lleol yng Nghaerdydd. Ym Mlaenau Gwent, Sir Gaerfyrddin, Sir Ddinbych, Castell-nedd a Phort Talbot, Casnewydd a Wrecsam, ystyrid bod datblygu strategaeth amlasiantaeth, amlddisgyblaeth ar gyfer digartrefedd sengl, gan gyrff gwirfoddol yn bennaf, yn ffordd bwysig o symud ymlaen i ddatblygu'r gwasanaethau.

**8.17** Yr oedd bodolaeth y strategaeth ddigartrefedd ieuenctid yn Abertawe yn ddefnyddiol o ran helpu i gynyddu'r cydweithio rhwng gwahanol gyrff. Enghraifft o hynny oedd sefydlu Tîm Digartrefedd Ieuenctid Abertawe, sy'n cynnwys Barnardo's, yr awdurdod iechyd lleol a'r adrannau tai a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn cyd-drefnu'r ymosodiad ar ddigartrefedd ieuenctid yn y ddinas.

## Mynediad at dai cymdeithasol

**8.18** Gall fod yn eithriadol o anodd i rai sy'n cysgu allan gael mynediad at dai cymdeithasol, gan nad oes cyfeiriad lle y gellir cysylltu â hwy. Mae'n eironig ei bod yn anodd i bobl, nad oes ganddynt yn llythrennol ddim llety, hyd yn oed gael eu henwau ar gofrestr tai awdurdod lleol, neu restr aros cymdeithas dai. Yn yr un modd, gall fod yn anodd i bobl ddigartref sy'n symud yn aml o un cyfeiriad i'r llall, gadw eu henwau ar y rhestrau aros, a chael mynediad at dai cymdeithasol. Nodwyd pryderon yn y meysydd hyn gan Ben-y-bont ar Ogwr, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Castell-nedd a Phort Talbot, a Phowys.

**8.19** Awgrymodd Gwynedd y byddai asesiadau anghenion cymorth yn ddefnyddiol ar ddechrau pob tenantiaeth, er mwyn adnabod y bobl y bydd arnynt angen cymorth hwyrach, i reoli eu tenantiaeth.

## Gall mynediad at wasanaethau adsefydlu cyffuriau fod yn araf iawn

**8.20** Os yw pobl wedi cyrraedd y cyflwr o deimlo'n barod i ymgymryd ag adsefydlu cyffuriau, yn aml mae arnynt angen mynediad at y gwasanaethau ar unwaith, neu'n fuan iawn. Nododd Caerffili, Caerdydd, Sir Ddinbych a Rhondda Cynon Taf y gall mynediad o'r fath fod yn araf iawn, gyda'r canlyniad bod anawsterau'r unigolyn yn cynyddu a'i gymhelliad i geisio adferiad yn lleihau. Mewn rhai achosion, ni fydd y bobl bellach yn barod i dderbyn adferiad pan gynigir lle iddynt.

## Gwell paratoad i bobl a ryddheir o garchar

8.21 Nid oes gan rai pobl a ryddheir o garchar unrhyw lety sicr i symud iddo. Gallent fod wedi colli eu llety blaenorol trwy fethu â thalu'r rhent tra'r oeddent yn y carchar. Am gyfnod cyfyngedig yn unig y telir budd-dâl tai i bobl sydd mewn carchar. Gall rhai ohonynt symud i hostel, tŷ gwely a brecwast, aros gyda chyfeillion, etc, ar ôl eu rhyddhau, ond hwyrach na fydd gan eraill unrhyw le i aros. Nodwyd hwn fel maes sy'n peri pryder penodol gan Gaerdydd, Gwynedd, Casnewydd ac Abertawe.

## Anawsterau i gael mynediad at ddeintyddion

8.22 Nododd Sir Gaerfyrddin, Gwynedd, Powys ac Abertawe fod pobl ddigartref yn cael trafferth i gyrraedd deintyddion sy'n barod i gofrestru cleifion am ofal NHS.

## Newidiadau deddfwriaethol

8.23 Yr oedd Sir y Fflint, Gwynedd ac Abertawe yn nodi'r posibilrwydd y bydd angen newidiadau deddfwriaethol er mwyn ymosod yn fwy cyffredinol ar gysgu allan a digartrefedd sengl. Gallai hynny olygu, er enghraifft, ehangu'r grwpiau blaenoriaeth digartrefedd ar gyfer cymorth gan awdurdodau lleol dan Adran 189 Deddf Tai 1996 (e.e. trwy gynnwys pobl sy'n cysgu allan fel grŵp blaenoriaeth), a mynnu bod awdurdodau lleol yn ymgymryd ag asesu'r ymgeiswyr digartrefedd, mewn perthynas ag anghenion cymorth ac atal digartrefedd yn y dyfodol. Pe gweithredid yr awgrym olaf, byddai angen dilyn hynny trwy ddarparu'r cymorth priodol, yn ôl angen a dymuniad y tenant, a chyfeirio'r achos i'r asiantaethau priodol.

## Pobl ifainc

8.24 Nododd Sir y Fflint, Gwynedd a Chasnewydd yr angen am ragor o gynllunio, paratoad a chymorth i bobl ifainc sy'n gadael gofal. Nododd Castell-nedd a Phort Talbot yr angen am ragor o gymorth i rai 16 ac 17 oed sydd y tu allan i gylch cyfrifoldeb y gwasanaethau cymdeithasol. Cyfeiriodd Sir Gaerfyrddin at yr angen i estyn oedran gadael gofal maeth.

## Rhyddhau o ysbytai seiciatrig heb wneud trefniadau digonol a darparu cymorth o flaen llaw

8.25 Nodwyd pryder yn y maes hwn gan Gaerdydd a Gwynedd. Heb gynllunio priodol a threfnu cymorth addas i bobl a ryddheir o ysbytai seiciatrig, bydd rhai ohonynt yn llawer llai tebygol o ymdopi. Gall hynny ei gwneud yn fwy tebygol y byddant yn ddigartref.

## Cyllido

8.26 Mae'r cyllid i gynlluniau digartrefedd y sector gwirfoddol, a roddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag Adran 180 Deddf Tai 1996, ar gael am amser cyfyngedig yn unig (3 blynedd fel rheol). Mynegwyd pryder gan Gaerdydd a Gwynedd ynghylch cyllido am amser cyfyngedig. Gall ei gwneud yn anodd iawn i gyrff gwirfoddol baratoi cynlluniau hirdymor, heb sicrwydd y bydd eu cyllid yn parhau tu hwnt i ddiwedd y cyfnod. Mae'n golygu y gall rhai gwasanaethau gau ar ôl tair blynedd, os na ddeuir o hyd i ffynonellau cyllid newydd.

8.27 Byddai cyllid 'parhaol', sy'n amodol ar fonitro boddhaol a pharhad yr angen am y gwasanaeth (fel yn achos y Grant Refeniw Tai gyda Chymorth) yn rhoi gwell sicrwydd am wasanaethau sefydlog i'r cleientiaid ac i'r cyrff sy'n eu darparu. Hwyrach y byddai'n briodol adolygu natur amser-gyfyngedig Adran 180, gan ofalu na chosbir prosiectau newydd oherwydd eu gwneud yn sefydlog.

8.28 Nid oedd rhai cyrff gwirfoddol (e.e. ym Mlaenau Gwent) yn gwybod am fodolaeth cyllid Adran 180, er eu bod ymysg y prif gyrff gwirfoddol a oedd yn darparu gwasanaethau i bobl sengl ddigartref o fewn yr awdurdod. Gan nad anfonir gwahoddiadau i ymgeisio am y cyllid

hwn at restr hollgynhwysfawr o'r cyrff gwirfoddol yng Nghymru, dyletswydd pendant yr awdurdodau lleol eu hunain yw rhoi gwybod i'r cyrff lleol, ond nid yw hynny'n digwydd bob tro.

## Pwyntiau eraill

**8.29** Codwyd nifer o bwyntiau eraill mewn un neu ddwy o'r ardaloedd, a allai fod yn berthnasol mewn rhannau eraill o Gymru. Maent yn cynnwys: ymyrraeth briodol gan yr heddlu â phobl sy'n cysgu allan (mae a wnelo hyn yn rhannol â gallu'r heddlu i gysylltu â gwasanaethau sy'n fwy addas i bobl yn cysgu allan [Abertawe]); argaeledd cymorth i ddysgu'r sgiliau sylfaenol cyn bod pobl yn ymgymryd â chynlluniau hyfforddi (Sir Gaerfyrddin); yr anhawster o gael mynediad i hostel neu lety arall i berchennog ci (Caerdydd a Sir Ddinbych); osgoi'r angen i ymweld â nifer o wahanol leoedd ac asiantaethau er mwyn cael cymorth, gan fod modd i'r asiantaethau i gyd safoni eu dull o asesu, cynghori ac atgyfeirio (Gwynedd); angen ymchwil i'r rhesymau pam y mae pobl yn gadael tenantiaeth (Casnewydd); rhoi ystyriaeth i'r posibilrwydd o ddigartrefedd a chysgu allan ymysg rhai ffoaduriaid (Abertawe); materion yn codi o'r ymateb i droseddwyr Atodlen Un yn aros mewn hostelau (Caerdydd); yr angen i awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ddefnyddio ffurflen gais gyffredin (Caerdydd); datblygu trefniadau gwaith rhyngasiantaethol ffurfiol, er mwyn cryfhau'r cysylltiad rhwng yr asiantaethau a'r gwaith o gyflwyno gwasanaethau i gleientiaid (Sir Ddinbych); a'r angen i'r asiantaethau a'r cleientiaid fod yn fwy ymwybodol o'r gwasanaethau sy'n bod yn yr ardal (Sir Gaerfyrddin). Awgrymodd Abertawe y gellid cyflwyno tenantiaethau ar dreial i rai pobl, heb beryglu'r dewis o lety a fyddai ar gael i'r tenant yn y dyfodol, pe methai â rheoli'r denantiaeth yn ystod cyfnod arbrofol.

# 9. Casgliadau

**9.1** Anodd iawn yw edrych ar gysgu allan ar wahân i ddigartrefedd yn gyffredinol. Gall fod yn haws gwneud hynny mewn rhai sefyllfaoedd penodol, er enghraifft os yw unigolyn wedi bod yn cysgu allan am gyfnod hir. Fodd bynnag, mae llawer o'r bobl sy'n cysgu allan yn gwneud hynny am gyfnodau byr iawn, yn ystod eu cyfnod o ddigartrefedd.

**9.2** Anodd iawn yw penderfynu'r union niferoedd sy'n cysgu allan. Trwy wneud gwaith cenhadol rheolaidd a chynnal arolygon achlysurol, ni ellir ond amcangyfrif yr amlder.

**9.3** Mae datblygu ymddiriedaeth rhwng yr asiantaethau a'r bobl sy'n cysgu allan yn hanfodol i ddarparu cymorth a gwasanaethau effeithiol. Er enghraifft, pan sefydlwyd Prosiect Shoreline gan Gymuned Wallich Clifford i rai a oedd yn yfed ar y stryd yng Nghaerdydd, llawer ohonynt wedi bod yn cysgu allan am gyfnod hir, yr oedd yn bosibl, trwy ymgynghori â'r dynion hynny, i ddarparu gwasanaeth effeithiol ac addas. Fel mae'r enghraifft honno yn dangos, er mwyn rhoi gwasanaeth priodol i bobl a fu'n cysgu allan am gyfnod hir, mae angen siarad â'r unigolion dan sylw, defnyddio digon o ddychymyg i ganfod atebion gwreiddiol, a chael cyllid sy'n ddigon hyblyg i ganiatáu defnyddio dulliau newydd. Mewn rhai achosion bydd 'cymorth addas' yn golygu darparu gwasanaeth newydd i grŵp o bobl sydd â rhyw nodwedd yn gyffredin. Mewn achosion eraill hwyrach y bydd rhaid teilwra'r 'cymorth addas' i anghenion unigol a dymuniadau un person yn unig. Mae'n wirionedd amlwg, ond rhaid pwysleisio eto bod angen siarad gyda'r unigolion dan sylw, ynglŷn â pha gymorth, os o gwbl, yr hoffent ei gael. Gall y broses hon gymryd amser hir, cyn y gellir sefydlu perthynas rhwng y 'gweithiwr' a'r cleient. Mewn rhai achosion sefydlir y berthynas gyda'r staff sy'n gweithio mewn cynlluniau penodol (e.e. llochesau nos neu gynlluniau mynediad uniongyrchol). Fodd bynnag, yn enwedig yn achos rhai a fu'n cysgu allan am gyfnod hir, mae'n debygol y bydd angen darparu gwasanaeth cenhadol rhagweithiol er mwyn cysylltu a sefydlu'r berthynas a'r ymddiriedaeth.

**9.4** Ni ddylai'r ffaith fod ambell un wedi cysgu allan am gyfnod hir, a'i fod hwyrach yn adnabyddus fel cymeriad lleol, fod yn esgus dros ddifrawder ar ran cyrff sy'n gweithio yn y maes. Fodd bynnag, os yw unigolyn yn amlwg yn dymuno parhau i gysgu allan, dylid parchu ei hawl yn hynny o beth, ond gan ofalu bod cymorth ar gael ar adeg briodol i'r unigolyn. Mae hynny'n golygu monitro ei sefyllfa (e.e. trwy arsylwi gan un o'r gwasanaethau) fel bod o leiaf bwynt cyswllt sy'n wybyddus i'r unigolyn, os bydd ei angen. Rhan o werth y rowndiau cawl, rowndiau brecwast a'r timau cenhadol yw y gellir sefydlu swyddogaeth iddynt yn monitro sefyllfa unigolion, a darparu cyswllt hwylus gyda gwasanaeth dechreuol os bydd angen.

**9.5** Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y nifer o bobl sy'n cysgu allan yn uwch yn y dinasoedd a'r trefi mawr nag yn y trefi bach. Mae hynny yn amlwg yng Nghaerdydd ac Abertawe er enghraifft, ac i raddau llai yng Nghasnewydd a Wrecsam, Eto, mae cysgu allan yn digwydd hefyd mewn trefi llai megis Y Fenni, Bangor, Caerffili, Caernarfon, Crucywel a Llandudno. Yng Nghaerdydd ac Abertawe, ac mewn rhai o'r trefi llai (e.e. Y Fenni a Wrecsam) mae modd adnabod rhai pobl sy'n adnabyddus am fod wedi cysgu allan ers amser hir, neu sydd â hanes iddynt o gysgu allan o bryd i'w gilydd ers amser hir. Hwyrach bod tuedd i'r cysgwyr allan mewn trefi mawr gysgu yng nghanol, neu'n agos i ganol y dref, ac yn weddol agos at ei gilydd. Yn yr un modd, mewn dinasoedd, hwyrach bod diwylliant cymunedol y stryd-ddigartref yn gryfach. Mae

gwell cyfle i rwydwaith cymorth ddatblygu ymhlith y cysgwyr allan, ac y maent yn aml yn treulio llawer o'u hamser gyda'i gilydd. Mewn ardaloedd gwledig mae amlder y cysgu allan a gofnodir yn is; mae'n anos i'w ganfod yn aml, a'r bobl sydd wrthi yn fwy unig, gan nad oes cystal rhwydwaith o gymorth gan gysgwyr eraill.

**9.6** Mae a wnelo cysgu allan a digartrefedd sengl yn aml â ffactorau ehangach na materion tai yn unig. Mae gan lawer o'r digartref sengl broblemau eraill sydd angen sylw, megis camddefnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl, problemau emosiynol a seicolegol, diffygion o ran sgiliau byw sylfaenol, addysg a hyfforddiant. Yn ogystal â llety addas, rhaid i'r cymorth a roddir i lawer o'r rhai sy'n cysgu allan, ac i'r digartref sengl yn gyffredinol, gynnwys darparu cefnogaeth briodol.

**9.7** Mae yna ddau brif faes lle y gellir gweithio i leihau'r lefelau cysgu allan. Yn gyntaf, mae angen darparu gwasanaethau argyfwng a gwasanaethau symud-ymlaen, i helpu'r bobl sy'n cysgu allan ar hyn o bryd a'r rhai a fydd yn gwneud hynny yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu parhau'r gwasanaethau priodol presennol a datblygu gwasanaethau newydd lle y gellir dangos bod angen. Enghreifftiau o waith argyfwng yw gwaith cenhadol, cynlluniau mynediad uniongyrchol a llochesau nos. Fodd bynnag un rhan o'r ateb yn unig yw gwasanaethau o'r fath. Mae'n hanfodol hefyd bod mathau amrywiol, addas a digonol o lety symud-ymlaen a chymorth ar gael gan y gwasanaethau argyfwng hyn, fel y gall pobl symud i mewn i lety mwy cynaliadwy. Nid yn unig y mae hynny yn ychwanegu at y cyfleoedd i bobl a fu'n cysgu allan adsefydlu: mae hefyd yn rhyddhau'r llety argyfwng ar gyfer y bobl newydd a ddaw'n ddigartref. Gall leihau'r amser y bydd angen i bobl aros mewn llety argyfwng. Yn achos rhai ohonynt, mae aros am gyfnodau hir mewn llety mynediad uniongyrchol yn creu problem oherwydd gorddibyniaeth, ac yn datblygu diwylliant o ddigartrefedd. Enghreifftiau o lety symud-ymlaen priodol yw: cynlluniau tai gyda chymorth staff i bobl sy'n ddigartref ac yn wynebu anawsterau ychwanegol (fel problemau iechyd meddwl, neu gamddefnyddio alcohol neu gyffuriau); llety hirdymor gyda chymorth; llety cymorth-isel lle y gall pobl aros yn ddiogel am lety mwy addas; a chymorth i rai pobl yn eu llety eu hunain.

Yr ail faes lle mae modd gweithio i leihau'r lefelau cysgu allan yw maes y polisïau a'r gwasanaethau, lle y gellir ymosod ar achosion isorweddol digartrefedd. Mae'r rhain yn cyrraedd ystyriaethau llawer ehangach na'r darpariaethau argyfwng a symud-ymlaen. Maent yn cynnwys cwestiynau fel lleihau tlodi; gwella cyfleoedd addysg a hyfforddiant; cynyddu cyfleoedd gwaith; darparu gwasanaethau i wella perthynas deuluol; cefnogi pobl sydd, yn draddodiadol,yn wynebu'r perygl mwyaf o gysgu allan (e.e. rhai a fu yng ngofal awdurdod lleol, rhai yn gadael carchar, rhai sy'n wynebu anawsterau ynglŷn â chyffuriau neu alcohol); cydweithio rhwng gwahanol gyrff i ddarparu gwasanaethau; newidiadau deddfwriaethol ynglŷn â chyfrifoldebau awdurdodau lleol i'r digartref sengl; a chyflenwad digonol o lety fforddiadwy sicr i bobl sengl yn yr ardaloedd priodol.

**9.8** Mae'r ymchwil hwn yn awgrymu bod angen gwasanaethau ychwanegol i ymateb yn fwy effeithiol i ddigartrefedd sengl ac i gysgu allan yng Nghymru.

**9.9** Gallai datblygu strategaethau amlddisgyblaeth, amlasiantaeth, goleuedig i ymdrin â digartrefedd sengl chwarae rhan bwysig iawn, i sicrhau y defnyddir yr adnoddau yn effeithiol, ac y darperir gwasanaethau priodol.

# Argymhellion

## I Gynulliad Cenedlaethol Cymru

**1. Dylid cael grŵp amlddisgyblaeth, amlasiantaeth i ysgrifennu a datblygu strategaeth ddigartrefedd genedlaethol, ar gyfer pob un sydd yn ddigartref.** Dylai'r strategaeth gwmpasu pawb sy'n ddigartref, ac ni ddylid ei chyfyngu i'r rhai sydd o fewn darpariaethau statudol Deddf Tai 1996. Dylai'r strategaeth gysylltu â strategaethau eraill, yn lleol ac yn genedlaethol. Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddylai ysgogi datblygiad y strategaeth genedlaethol (gallai'r Fforwm Ymgynghorol Cenedlaethol ar Dai yng Nghymru arwain y gwaith). Dylai unigolion a chyrff priodol gymryd rhan yn y gwaith o'r dechrau. Gellir cynnwys cynrychiolwyr gwasanaethau megis adrannau tai a gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, cyrff gwirfoddol sy'n cynorthwyo'r digartref, cyrff iechyd, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, a chyrff priodol eraill. Y pwrpas fyddai sicrhau y datblygir llety priodol, cymorth a gwasanaethau eraill i bobl ddigartref ym mhob rhan o Gymru. Mae ardaloedd ar hyn o bryd lle mae'r gwasanaethau i bobl ddigartref, megis tai gyda chymorth, yn brin neu'n absennol. Mae rhai o'r digartref yn symud allan o'u cynefin i gael llety a gwasanaethau eraill. Yn ôl tystiolaeth anecdotaidd, nid yw pobl yn aml yn dymuno symud o'u hardaloedd eu hunain, a thrwy wneud hynny gallant wynebu anawsterau ychwanegol, fel unigrwydd a dieithrwch.

**2. Dylid adolygu natur amser-gyfyngedig y cyllid a roddir i gyrff gwirfoddol dan Adran 180 Deddf Tai 1996.** Mae'r drefn bresennol o gyllido cynlluniau, am dair blynedd fel arfer, yn ei gwneud yn anodd iawn i gyrff gwirfoddol benderfynu ar y gwasanaethau mwyaf effeithiol i'w trefnu ar gyfer yr hirdymor. Os na all y mudiadau sicrhau cyllid o'r ffynhonnell hon neu o rywle arall ar ôl tair blynedd, bydd yn rhaid cau'r gwasanaethau. Dylid ystyried cyllido parhaol, yn amodol ar ganlyniad boddhaol i'r monitro, ac ar ddangos bod yr angen am y gwasanaeth yn parhau. Yn ystod yr adolygiad hwnnw, fodd bynnag, dylid ystyried y gallu i ganiatáu datblygu gwasanaethau newydd.

**3. Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru wahodd nifer mwy o'r cyrff gwirfoddol sy'n ymwneud â digartrefedd i wneud cais am gyllid dan Adran 180 Deddf Tai 1996.** Ni roddir gwybod i lawer o'r cyrff gwirfoddol am y cyfle i gael cyllid o'r ffynhonnell hon. Mae hyn yn rhannol oherwydd y rhestr ddosbarthu gyfyngedig o gyrff gwirfoddol sydd gan y Cynulliad. Dylai'r Cynulliad gynyddu ei restr o'r cyrff gwirfoddol yr anfonir gwybodaeth atynt ynglŷn â chyllid, a'i diweddaru yn rheolaidd. Er bod nifer o awdurdodau lleol yn cysylltu â chyrff gwirfoddol yn eu hardaloedd ynglŷn â'r cyfle am gyllid Adran 180, nid yw'r nifer a hysbysir gan rai ohonynt yn fawr, ac y mae'n ymddangos nad yw eraill yn rhoi gwybod i neb o gwbl.

**4. Dylid ystyried yr oblygiadau cyllidol sy'n deillio o'r cynigion "Cynorthwyo Pobl", o safbwynt cynlluniau yn ymwneud â digartrefedd sengl.** Mae rhai o'r mudiadau gwirfoddol yn pryderu y bydd cyllid rhai o'r gwasanaethau i'r digartref sengl yn gostwng neu'n peidio, os rhoddir y cyfan o'r mecanwaith cyllido hwn yn nwylo'r awdurdodau lleol i'w ddyrannu.

**5. Dylai fod grant, sy'n cyfateb i'r Grant Refeniw Tai Gyda Chymorth (SHRG), ar gael i helpu tenantiaid awdurdodau lleol a landlordiaid preifat, y mae arnynt angen cymorth i gynnal eu llety.** Credir yn gyffredinol bod y grant SHRG yn un defnyddiol er mwyn atal digartrefedd, ond anfantais yw ei gyfyngu i

gynorthwyo tenantiaid cymdeithasau tai yn unig. Byddai mecanwaith cyllido o'r math hwn yn fuddiol iawn pe estynnid ef i gynnwys tenantiaid yr awdurdodau lleol a'r landlordiaid preifat.

**6. Trwy ymgynghori gyda'r cyrff priodol, dylid sefydlu fformat a dull cyson o gadw cofnod o'r rai sy'n cysgu allan ac o'r digartref sengl.** Mewn rhai ardaloedd, ychydig o wybodaeth sydd ar gael am amlder y cysgu allan; ac nid yw ardaloedd yn diweddaru'r wybodaeth. Ni ddylid cyfyngu'r wybodaeth i gofnodi niferoedd yn unig. Dylai'r pwyslais yn hytrach fod ar anghenion y bobl, er mwyn goleuo'r penderfyniadau polisi. Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ymgynghori â'r cyrff priodol cyn penderfynu, er enghraifft, ar ddiffiniad o ddigartrefedd sengl a chysgu allan; pa wybodaeth sydd ei hangen; a sut y dylid casglu'r wybodaeth honno. Byddai hynny yn sicrhau gwell cysondeb yn y wybodaeth a ddefnyddir i oleuo'r penderfyniadau polisi, yn genedlaethol ac yn lleol.

**7. Yn unol ag Adran 189 Deddf Tai 1996, dylid ehangu'r categorïau o bobl ddigartref yr ystyrir bod eu hangen am lety yn angen blaenoriaeth, i gynnwys y rhai sy'n cysgu allan.** Mae'r pwerau i newid neu ddiddymu'r diffiniad o angen blaenoriaeth yn y ddeddfwriaeth sylfaenol o fewn awdurdod Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## I Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac i'r Llywodraeth Ganol

**8. Dylid newid y ddeddfwriaeth ynglŷn â hawl rhai 16 - 25 oed i dderbyn budd-dâl tai, gan godi'r taliadau i'r lefel i rai dros 25 oed.**

**9. Dylid ystyried newidiadau deddfwriaethol i fynnu bod yr awdurdodau lleol yn sicrhau y cynhelir asesiadau cymorth o'r holl ymgeiswyr digartref, ac y darperir cymorth priodol i bobl mewn achosion cymwys.** Gallai'r asesiad fod yn fodd i ganfod mathau o gymorth a fyddai, o'u darparu, yn atal nifer sylweddol rhag mynd yn ddigartref eto.

## I Awdurdodau Lleol, Cymdeithasau Tai a chyrff gwirfoddol eraill

**10. Dylai pob awdurdod lleol ddatblygu strategaeth ddigartrefedd ysgrifenedig mewn cydweithrediad â'r asiantaethau priodol, a dylai fod 'lladmerydd' ym mhob awdurdod i sicrhau datblygu, gweithredu a monitro'r strategaeth.** Dylai fod grŵp amlasiantaeth, amlddisgyblaeth yn datblygu'r strategaethau, gan ganfod barn pobl ddigartref sengl gasglu a chymryd hynny i ystyriaeth yn y broses. Dylai'r strategaeth gwmpasu pawb sy'n ddigartref (gan gynnwys cysgwyr allan a'r digartref anstatudol) a dylai fod yn ddogfen waith sy'n destun monitro ac adolygu cyson. Dylai'r strategaeth nodi yn eglur lefel yr angen ym mhob ardal; y gwasanaethau sydd ar gael eisoes; pa wasanaethau a fydd eu hangen ym mhob ardal; a phennu cynlluniau gweithredu gan ddangos sut y darperir y gwasanaethau. Dylid adolygu'r strategaeth yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau yn dal yn briodol. Dylai'r strategaethau hyn gyfannu strategaeth ddigartrefedd genedlaethol. Dylai fod 'lladmerydd' ym mhob awdurdod, sydd yn sicrhau bod y strategaeth yn cael ei datblygu, ei gweithredu a'i monitro.

**11. Dylid adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer y digartref sengl yn rheolaidd, i sicrhau y darperir y gwasanaethau mwyaf priodol.** Dylai'r cyrff sy'n gweithio i helpu'r digartref sengl sicrhau bod eu gwasanaethau yn unol â'r modelau ymarfer da cyfredol. O bryd i'w gilydd dylent gynnal adolygiad gwrthrychol, i weld a ydynt yn darparu eu gwasanaeth yn y modd mwyaf effeithiol o ran helpu'r digartref sengl. Darparu gwasanaeth sy'n ymateb yn fwyaf priodol i anghenion y digartref sengl ddylai fod yn nod cyffredinol adolygiadau o'r fath. Os credir nad y gwasanaethau a ddarperir yw'r math

mwyaf effeithiol, dylid ymchwilio ymhellach a gwneud newidiadau priodol. Yn ddelfrydol, dylid ymgymryd ag unrhyw newid sylweddol yng nghyd-destun y strategaeth ddigartrefedd sengl leol.

**12. Dylid gwneud rhagor o waith cenhadol mewn rhai ardaloedd, er mwyn cysylltu â phobl sy'n cysgu allan.** Byddai hyn hefyd yn gymorth i fonitro'r nifer sy'n cysgu allan yn fwy manwl. Mae gwaith cenhadol yn ddull effeithiol iawn o sefydlu a chynnal cysylltiad gyda phobl sy'n cysgu allan, yn enwedig rhai heb fynediad at y gwasanaethau presennol. Gall ddarparu gwybodaeth hefyd am y math o gymorth priodol sydd ei angen ar y rhai sy'n cysgu allan, yn seiliedig ar eu hamgylchiadau unigol. Nodwyd bod angen gwasanaethau cenhadol newydd yng Nghaerffili, Sir Ddinbych, Ynys Môn, Casnewydd a Sir Benfro; ond dylai pob ardal ystyried yr angen am waith cenhadol yn fwy manwl, yn enwedig mewn trefi mawr a mannau eraill lle y gwyddys bod pobl yn cysgu allan. Hwyrach na ellir cyfiawnhau gwasanaeth cenhadol amser llawn, mewn ardaloedd lle y gwyddys bod lefel isel o gysgu allan yn digwydd. Dan amgylchiadau o'r fath, fodd bynnag, dylid ymgymryd â rhywfaint o waith cenhadol fel rhan o wasanaeth arall (e.e. gan staff yr awdurdod lleol neu gymdeithas dai, neu fudiadau gwirfoddol perthnasol).

**13. Dylid darparu rhagor o wahanol fathau o lety argyfwng hygyrch 24-awr, i wrywod a benywod 'digartref anstatudol' ym mhob rhan o Gymru.** Mewn llawer ardal, mae angen i'r ddarpariaeth hon fod ar raddfa fechan (e.e. 3 neu 4 gwely) ac ar gael mewn nifer o'r trefi yn ardal yr awdurdod lleol. Byddai'r ddarpariaeth yn helpu llawer o bobl i oresgyn trafferthion sydyn ynglŷn â llety, ac fel mesur argyfwng, dylai leihau'r angen i neb gysgu allan. Fodd bynnag, rhaid edrych ar ddarpariaeth o'r fath fel rhan fechan o'r ddarpariaeth lawer ehangach i'r digartref sengl, a nodir mewn llawer o'r argymhellion eraill.

**14. Dylid darparu gwasanaethau cymorth priodol ochr yn ochr â'r llety argyfwng, er mwyn helpu pobl i baratoi ar gyfer llety cyfnod hwy, ac i ymsefydlu ynddo.** Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys argaeledd cymorth i bobl mewn llety argyfwng; gwaith adsefydlu i helpu rhai pobl i gael ac i setlo mewn llety; a chymorth hirdymor yn eu llety i rai pobl. Dylid bod yn ofalus rhan creu gorddibyniaeth y tenantiaid ar y staff. Fodd bynnag, dylai'r cymorth a roddir fod yn addas i anghenion yr unigolyn, a gallai cymorth priodol i rai tenantiaid olygu cymorth am gyfnod hwy nag a ganiateir gan y mecanweithiau cyllido presennol (e.e. Grant Refeniw Tai Gyda Chymorth [SHRG]).

**15. Dylid darparu canolfannau dydd mewn rhai ardaloedd.** Gall canolfannau o'r fath wneud cyfraniad gwerthfawr i atal digartrefedd (e.e. trwy eu gwasanaethau cynghori) a hefyd trwy roi cyfle i bob gael cymorth ymarferol, i ddysgu sgiliau newydd ac i sefydlu cysylltiadau cymdeithasol. Rhaid penderfynu ar gyfer pwy y darperir y canolfannau dydd, ac ymhle i'w lleoli. Mewn ambell ardal hwyrach y byddai'n fwy priodol i sefydlu cyfleuster bach tu allan i ganol y dref, a fyddai hefyd yn helpu gyda mesurau i atal digartrefedd ymysg rhai sydd eisoes mewn llety. Mewn ardaloedd eraill, byddai cyfleuster yng nghanol y dref yn briodol, i rai sy'n cysgu allan neu'n aros mewn llety ansicr. Mae ymarfer da yn awgrymu y dylai canolfannau dydd ystyried darparu cymorth sylfaenol (megis bwyd, cyfleusterau ymolchi a golchi dillad), a gwasanaethau sy'n cynnig cyngor, cyfle i ddysgu sgiliau, i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, ac i ddod yn rhan o'r gymuned ehangach.

**16. Dylai'r awdurdodau lleol sicrhau y gwneir asesiad o anghenion cymorth pawb a ganfyddir yn ddigartref, ac y gwneir trefniadau priodol ar gyfer gwasanaethau cymorth.** Lle bynnag y mae angen cymorth, a pharodrwydd i'w dderbyn, dylai fod trefniadau wedi eu sefydlu gan yr awdurdod lleol i'w ddarparu. Fodd bynnag,

rhaid cymryd pob gofal i beidio â chyfyngu'r mynediad at dai i rai ag arnynt angen cymorth. Dylai'r pwyslais fod ar ddarparu cymorth priodol ynghyd â llety priodol. Dylid cynnwys unrhyw anghenion am wasanaethau newydd, neu gynnydd yn y gwasanaethau presennol, a nodir yn yr ardal, yn rhan o'r strategaeth ddigartrefedd sengl leol.

**17. Dylid darparu rhagor o lety fforddiadwy, sicr, o ansawdd da i unigolion sengl trwy'r rhan fwyaf o Gymru, yn yr ardaloedd lle y mae pobl yn dymuno byw.** nodwyd yr angen hwn mewn deunaw o'r ardaloedd awdurdod lleol. Gellid ymateb i'r angen trwy, er enghraifft, adeiladu rhagor o dai un-person, addasu'r stoc tai presennol, neu adnewyddu'r stoc bresennol; ond gallai hefyd gynnwys ehangu hawl pobl sengl i dai cymdeithasol gyda dwy neu dair ystafell wely. Dylai fod cyfleusterau a gwasanaethau priodol ar gael mewn ardaloedd o'r fath, neu o fewn cyrraedd iddynt yn hawdd.

**18. Dylid darparu rhagor o wasanaethau cyngor tai mewn rhai ardaloedd.** Nodwyd yr angen hwn, fel mesur ataliol sy'n helpu i leihau digartrefedd, gan dair ar ddeg o'r ardaloedd. Mae angen darparu'r gwasanaeth, yn aml, trwy ffynonellau hygyrch yn y trefi bach.

**19. Dylid datblygu rhai cynlluniau bond newydd, ac ehangu rhai o'r cynlluniau presennol, er mwyn helpu pobl i gael mynediad at lety preifat ar rent.** Gall cynlluniau bond chwarae rhan ddefnyddiol mewn galluogi pobl i symud i lety preifat ar rent, trwy warantu'r bond a'r rhent sy'n daladwy o flaen llaw, na all llawer o'r bobl ei fforddio.

**20. Dylai'r cynlluniau bond ystyried darparu cymorth i rai o'u cleientiaid i symud i mewn i'w llety ac i'w gynnal, neu drefnu gydag asiantaethau eraill i'w ddarparu.** Mae'r math hwn o ddarpariaeth eisoes ar gael gan rai cynlluniau bond (e.e. Caerdydd), ond nid gan eraill. Gall y cymorth hwn fod yn ffordd effeithiol o atal digartrefedd yn y dyfodol ymysg rhai cleientiaid.

**21. Dylid darparu rhagor o wasanaethau i bobl sy'n wynebu anawsterau mewn perthynas â chyffuriau a/neu alcohol.** Gallai'r gwasanaethau hyn gynnwys, er enghraifft, rhagor o wasanaethau adferiad a llety gyda chymorth. Yn achos rhai pobl ddigartref dylid darparu gwasanaethau newydd sy'n diwallu eu hanghenion a'u dymuniadau yn uniongyrchol. Mewn rhai ardaloedd (e.e. Casnewydd ac Abertawe) mae'n ymddangos y gellir adnabod grŵp penodol o bobl gydag anawsterau mewn perthynas â chyffuriau a/neu alcohol, sydd wedi treulio amser hir yn cysgu allan (neu a fu'n ddigartref am gyfnod sylweddol). Mae'n ymddangos eu bod yn cael trafferth i ddefnyddio'r gwasanaethau sydd ar gael, neu wedi eu gwahardd rhag eu defnyddio. Dylai'r ddarpariaeth ar gyfer pobl dan y fath amgylchiadau gael ei theilwra yn benodol ac yn realistig i'w hanghenion a'u dymuniadau.

**22. Dylid ymgymryd â gwella'r paratoad, a'r gwaith cymorth dilynol, i rai sy'n symud allan o ofal yr awdurdod lleol.** Gallai hyn olygu hyfforddiant mewn sgiliau byw sylfaenol, darganfod llety priodol, adsefydlu a chymorth ar ôl symud, y cwbl gyda golwg ar leihau'r tebygolrwydd o ddigartrefedd (ac anawsterau eraill).

**23. Dylid gwella'r cymorth a roddir i rai sy'n cael anhawster oherwydd dau neu ragor o'r canlynol: problem iechyd meddwl, camddefnyddio cyffuriau, camddefnyddio alcohol.** Dylai'r gwasanaethau i bobl sy'n wynebu problemau iechyd meddwl, cyffuriau, neu alcohol sicrhau na chaeir allan y bobl sydd â rhagor nag un o'r anawsterau hyn, rhag cael y cymorth priodol. Gall hyn olygu cydweithredu agosach rhwng yr asiantaethau presennol, er mwyn sicrhau bod y cymorth priodol ar gael, neu sefydlu

gwasanaethau amlddisgyblaeth newydd i ddarparu cymorth arbenigol i bobl yn y sefyllfa hon.

**24. Dylid darparu rhagor o gymorth i rai sy'n amlygu problemau ymddygiad neu anhwylderau personoliaeth.** Gall hyn olygu bod y gwasanaethau seiciatrig yn derbyn rhagor o'r cyfrifoldeb dros bobl sy'n arddangos problemau o'r fath, gan fod eu hymddygiad weithiau yn cynrychioli risg ddifrifol iddynt hwy eu hunain ac i eraill. Hwyrach hefyd y bydd galw am gydweithio agosach rhwng asiantaethau, er mwyn darparu cymorth priodol i bobl sy'n arddangos y math hwn o ymddygiad.

**25. Dylid cyflymu'r mynediad at wasanaethau adsefydlu cyffuriau.** Yn aml iawn, mae ar bobl angen mynediad ar frys at y gwasanaethau, pan gyrhaeddant y pwynt o ddymuno cael eu hadfer o ddibyniaeth ar gyffur. Rhaid gweithredu cyn iddynt golli'r cymhelliad i geisio cymorth. Mewn rhai ardaloedd mae'n anodd cael mynediad o'r fath yn ddigon buan.

**26. Dylai'r gwasanaethau cymdeithasol roi blaenoriaeth uwch nag a wneir ar hyn o bryd i helpu'r digartref sengl.** Daw'r angen hwn yn arbennig o eglur yn yr oedi cyn asesu anghenion cymorth rhai pobl ddigartref, ac yn lefel y cymorth a rodd ir gan rai adrannau gwasanaethau cymdeithasol.

**27. Dylai pob awdurdod lleol a chymdeithas dai sicrhau nad ydynt, yn ddigyfiawnhad, yn cyfyngu mynediad pobl nad oes ganddynt gyfeiriad, i'w cofrestrau tai neu restrau aros.** Mae'n eironig y gall fod yn anodd, ac yn amhosibl mewn rhai achosion, i bobl nad oes ganddynt gyfeiriad sefydlog gofrestru ar restrau tai rhai awdurdodau lleol a chymdeithasau tai.

**28. Dylid darparu rhagor o wasanaethau cyfryngu, i geisio lleihau nifer y toriadau perthynas, sy'n un o achosion pwysicaf digartrefedd.**

**29. Dylid darparu rhagor o wybodaeth am dai a digartrefedd i blant ysgol.** Dylid gwneud hyn mewn ffordd hawdd i'w deall, heb gymell neb i arbrofi trwy fyw'n ddigartref. Dylid cyflwyno'r wybodaeth i'r plant i gyd, ond gellid ystyried rhoi sylw arbennig i blant sydd hwyrach yn fwy agored na'i gilydd i ddigartrefedd yn y dyfodol (e.e. plant sydd eisoes mewn llety ansicr, a phlant mewn gofal).

**30. Dylai darparwyr hostelau a llochesau nos adolygu eu trefniadau yn rheolaidd, er mwyn sicrhau nad ydynt yn gwahardd neb o'u cynlluniau heb reswm cyfiawn, nac am gyfnod o amser na ellir ei gyfiawnhau.** Mae rhai o'r bobl sy'n cysgu allan wedi eu gwahardd o lety argyfwng. Dylai'r pwyslais fod ar wneud pob peth posibl i osgoi gwahardd pobl tra'n cynnal, yr un pryd, y safonau diogelwch a ystyrir yn ymarfer da, ar gyfer y cleientiaid a'r staff.

**31. Dylid sefydlu corff cynrychioliadol i'r cyrff gwirfoddol sy'n gweithio gyda'r digartref yng Nghymru, gyda chynrychiolaeth arno i bob corff aelodol.** Gellid ymgynghori gyda chorff o'r fath, a chodi cwestiynau, ynglŷn â materion fel newidiadau polisi a mecanweithiau cyllido. Gallai hefyd ledaenu gwybodaeth am yr ymarfer gorau, cyfleoedd hyfforddiant etc. Mae sefydliadau fel Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn datgan safbwynt eu haelodau yn eglur, ond nid oes corff cynrychioliadol o'r fath i'r mudiadau gwirfoddol sy'n gweithio gyda phobl ddigartref.

## I'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol (NHS)

**32. Dylid ymchwilio ymhellach i'r anhawster o gael mynediad at Feddygon Teulu, i rai o'r digartref sengl a'r cysgwyr allan yng Nghymru.** Mae'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr ymchwil hwn yn awgrymu bod rhai o'r digartref sengl yn cael trafferth i gofrestru gyda Meddygon Teulu, ac oherwydd hynny, yn methu â chael mynediad at ofal iechyd sylfaenol ac arall.

**33. Dylai'r mynediad at ofal iechyd deintyddol fod yn haws i bobl ddigartref.** Gall mynediad at ofal deintyddol fod yn anodd i bobl ddigartref. Rhan o'r rheswm am hyn, hwyrach, yw'r gostyngiad dros y blynyddoedd diwethaf yn nifer y deintyddion sy'n ymgymryd â gwaith NHS. Er mwyn gwella'r mynediad, gall fod yn briodol i ddarparu gwasanaethau deintyddol rheolaidd yn yr hostelau mewn rhai ardaloedd.

**34. Dylid ystyried trefnu clinigau sefydlog neu symudol i'r digartref sengl yng Nghaerdydd ac Abertawe.** Gallai'r ddarpariaeth honno gynnwys mynediad at wasanaeth nyrs, meddyg, deintydd a chiropodydd, ynghyd â gwasanaethau priodol eraill, a chyngor iechyd.

**35. Dylid gwella'r paratoad a'r gwasanaeth cymorth dilynol i bobl ddigartref a ryddheir o'r ysbytai.**

## I'r Adran Nawdd Cymdeithasol

**36. Dylai fod mwy o gysondeb yn y mathau o daliadau a'r symiau a delir i bobl ddigartref o Gronfa Gymdeithasol yr Adran Nawdd Cymdeithasol, ar gyfer dodrefnu eu llety pan symudant allan o gynlluniau tai gyda chymorth.** Mewn rhai ardaloedd, clywir adroddiadau am daliadau sy'n sylweddol uwch na'r rhai a delir mewn ardaloedd eraill. Yn yr un modd, mae'n ymddangos eu bod yn llawer haws i'w cael mewn rhai ardaloedd. Credir hefyd bod pobl, sydd â'u hamgylchiadau yn ymddangos yn debyg iawn i'w gilydd, yn cael dyfarniadau gwahanol (h.y. gwahaniaeth sylweddol yn swm eu grant neu fenthyciad).

## I'r Swyddfa Gartref

**37. Dylid gweithredu i wella'r paratoad, ar gyfer llety a chymorth dilynol, i bobl a ryddheir o garchar.** Mae rhai pobl yn gadael y carchar heb unman i aros a heb ddim cymorth wedi ei drefnu i leihau'r posibilrwydd o ddigartrefedd yn y dyfodol. Weithiau, er enghraifft, gall trefniadau cymharol syml ar fynediad i'r carchar osgoi'r digartrefedd pan ryddheir y carcharor (er enghraifft, parhau i hawlio taliadau budd-dâl tai tra yn y carchar).

# Cyfeiriadau

Adran Tai a Gofal Uniongyrchol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Shelter Cymru (1997) "Rough Sleepers Winter Count Caerphilly County Borough Council Area November 1997", Caerffili

Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau (1999) "Annual Report on Rough Sleeping", Gwasg ei Mawrhydi

Alexander, K., London Research Centre (1998) "Homelessness Fact File 1998/99", CRISIS

Canolfan Gymorth Tai, Cyngor Caerdydd (1998) "Streetwise. An Advisor's Guide to Services for Homeless People in Cardiff", Cardiff

Cyngor Bro Morgannwg (1999) "Housing Strategy and Operational Plan 1999/2000 to 2001/2002", Y Barri

Cyngor Gwynedd a Chywaith Joseff (1998) "Cysgu Allan 1998 - Diweddariad", Gwynedd

Cyngor Gwynedd a Shelter Cymru (1997) "Cysgu Allan: Pwnc Perthnasol i Gefn Gwlad?", Gwynedd

Cyngor Sir Caerdydd (1999) "Housing for Single Homeless People in Cardiff, A Strategy (Drafft)", Caerdydd

Cyngor Sir Caerdydd - Tîm Canol y Ddinas (1997) "A Snap-Shot Survey of the Non-Residential Area of Cardiff City Centre", Caerdydd

Cymdeithas Caer Las (1997) "Access: A Street Outreach Feasibility Study Conducted in Swansea July 1996 - May 1997", Abertawe

Cymdeithas Caer Las (1999) "Bridgend Outreach January - March 1999", Abertawe

Cymdeithas Tai Gogledd Cymru (1999) "St. Mary's Night Shelter, Bangor", Eitem 3.3: Pwyllgor Gweithrediadau 29 Ebrill 1999, Bangor

Cymuned Wallich Clifford (1998) "Dawn Winterwatch Project December 1997 - March 1998", Caerdydd

Cymuned Wallich Clifford (1999) "Dawn Breakfast Run December 1998 - March 1999", Caerdydd

Cymuned Wallich Clifford (1999) "Winterwatch Night Shelter December 1 1998 - 31 March 1999", Caerdydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (1999) "Fframwaith ar gyfer Strategaeth Dai Genedlaethol i Gymru", Caerdydd ISBN 0750423560

Cyreniaid Cymru (1999) "Outreach Report Winter 1998/99", Abertawe

Dinas a Sir Abertawe (1999) "A Single Homelessness Strategy for the City and County of Swansea (Fersiwn drafft)", Abertawe

Dinas a Sir Abertawe (1998) "The City and County of Swansea Youth Homelessness Strategy August 1998 to August 2001", Abertawe

Dinas a Sir Abertawe (1999) "Housing Strategy and Operational Plan 1999/2000", Abertawe

Fforwm Tai Pobl Sengl Merthyr (1997) "Single Persons Homeless Strategy 1998/2000", Merthyr Tudful

Fforwm Tai Pobl Sengl Rhondda Cynon Taf (1998) "Single Person Housing Strategy 1999-2002", Rhondda Cynon Taf

Gwasanaeth Ymgynghorol Tai Anghenion Arbennig yng Nghymru a Shelter Cymru (1996) "A Survey of Rough Sleepers in Wales March 1996", Caerdydd

Gwasanaethau NACRO Gogledd Cymru (1998) "Report on the Rhyl Night Shelter Project 1st December 1997 to 22nd March 1998", Y Rhyl

Gweithredu Dros Ddigartref Sengl Sir Benfro (1998) "Study to Establish the Extent and Nature of Rooflessness in the Local Authority Area and the Provision of Advice, Resettlement and Support Services for Rough Sleepers 1st July 1997 - 30th June 1998", Sir Benfro

Hutson, S. and Jones, S. (1997) "Rough Sleeping and Homelessness in Rhondda Cynon Taf", Ysgol y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Morgannwg

NACRO Cymru (1999) "Report on the Operation of the Rhyl Night Shelter 1st December 1998 to 29th March 1999", Y Rhyl

Newport Action for the Single Homeless (1998) "A Survey of People Sleeping Rough in the County Boroughs of Newport and Caerphilly August 1998", Casnewydd

Newport Action for the Single Homeless (1999) "Single Homelessness and Rough Sleeping in the Counties of Newport, Caerphilly, Monmouthshire, Blaenau Gwent and Torfaen Snapshot Surveys: Summer 1998 and Winter 1998/99", Casnewydd

O'Kelly W., (1997) "Single Homeless Research: Rough Sleepers Count", Abertawe

O'Kelly W., (1999) "Report on Direct Access Accommodation in R.C.T. for ADREF", Abertawe

Opinion Research Services Cyf., Prifysgol Cymru, Abertawe (1997) "Housing Needs in Merthyr Tydfil Homelessness and Rooflessness", Abertawe

Shelter Cymru (1999) "Concern Over Homelessness Gains Assembly Majority" Datganiad i'r Wasg 28 Mehefin 1999, Abertawe

Shelter Cymru (1999) "New Approaches to Homelessness in Wales", Abertawe

Shelter Cymru "City and County of Swansea Single Homeless Resource Directory", Abertawe

Tîm Canol y Ddinas, Catherine Dimopoulos (1998) "A Snap-Shot Survey of Vulnerability in Cardiff City Centre September 24th 1998", Caerdydd

Uned Eithrio Cymdeithasol (1998) "Rough Sleeping Report by the Social Exclusion Unit", Cmd 4008

# Atodiad A: Y sefyllfa ym mhob ardal awdurdod lleol

Mae'r wybodaeth yn yr Atodiad hwn yn seiliedig ar ymweliadau â'r adrannau tai ym mhob un o'r awdurdodau lleol, ac â chyrff gwirfoddol sy'n gweithio gyda'r digartref sengl.

Mae'r awdurdodau yn ymddangos yma yn nhrefn yr wyddor Saesneg yn ôl eu henwau yn Saesneg. Rhannwyd y wybodaeth am bob awdurdod fel a ganlyn: gwybodaeth am amlder cysgu allan; achosion cysgu allan; enghreifftiau o'r gwasanaethau presennol; strategaethau i'r digartref neu'r di-do sengl; pa wasanaethau sy'n absennol i'r bobl sy'n cysgu allan yn yr ardal; a materion eraill.

## BLAENAU GWENT

### 1. Amlder cysgu allan

Ni chynhaliwyd arolwg.

Fodd bynnag, yn ystod Tachwedd a Rhagfyr 1998 anfonodd CBS Blaenau Gwent tua 350 o holiaduron allan at gyrff ac unigolion yn holi ynghylch safleoedd cysgu allan adnabyddus neu debygol, gyda'r bwriad hwyrach o gynnal ciparolwg 3 noson. Cafwyd gwybod am ychydig o safleoedd posibl (e.e. yr adeilad Semtex adfeiliedig ym Mrynmawr, maes parcio aml-lawr, ac mewn ceir), ond ni chynhaliwyd arolwg.

Yr oedd Ymddiriedolaeth Ddatblygu Ebwy Fach yn ymwybodol o bobl ifainc yn cysgu allan mewn eiddo yn perthyn i'r cyngor, wedi ei gau â byrddau ym Mrynmawr ym Mawrth 1999.

Yn yr arolwg gan Gweithredu Dros Ddigartref Sengl Casnewydd, Single Homelessness and Rough Sleeping in the Counties of Newport, Caerphilly, Monmouthshire, Blaenau Gwent and Torfaen Snapshot Surveys: Summer 1998 and Winter 1998/99, cafwyd bod 9 allan o'r 12 person sengl digartref a ddaeth i sylw 3 asiantaeth rhwng 1 Awst 1998 a 31 Hydref 1998 yn dweud eu bod wedi cysgu allan rhywdro.

Mynegodd CBS Blaenau Gwent eu barn y gellir canfod un neu ddau o bobl yn achlysurol yh cysgu allan yn y fwrdeistref. Yr oedd un dyn, er enghraifft, yn adnabyddus i'r awdurdod lleol fel un a oedd yn cysgu allan ar ddiwedd Mawrth 1999.

### 2. Achosion cysgu allan

Y prif achosion a nodwyd oedd:

- Anallu pobl ifainc i ddal i fyw gartref oherwydd tor-perthynas;
- Anghydfod teuluol;
- Afiechyd meddwl;
- Anallu i fforddio llety, yn enwedig pobl ifainc dan 25 sy'n cael budd-dâl tai, oherwydd cyfyngu ar y swm taladwy i'r grŵp hwn.

Canfu'r arolwg gan Gweithredu Dros Ddigartref Sengl Casnewydd mai prif achosion digartrefedd, mewn trefn ddisgynnol, yw; tor-perthynas; anallu i ddod o hyd i lety addas; cais i adael gan deulu neu gyfeillion; ac anallu i ymdopi.

### 3. Enghreifftiau o'r gwasanaethau presennol

- Cynllun bond (15 awr yr wythnos) a weinyddir gan Ymddiriedolaeth Ddatblygu Ebwy Fach;
- Gwasanaethau cenhadol i ieuenctid;
- Gwasanaeth cyffuriau yn darparu cyngor, gwybodaeth, cwnsela a chymorth a weinyddir gan Drug Aid;
- Siop wybodaeth, cawod a chyfleusterau golchi dillad i bobl ifainc ym Mrynmawr, a ddarperir gan NCH Gweithredu dros Blant Cymru;
- Tai gyda chymorth dros dro, a chynllun llety gyda chymorth i bobl ifainc, a weinyddir gan NCH Gweithredu dros Blant Cymru;

- Cynllun ailgylchu dodrefn.

### 4. Strategaethau i'r digartref neu'r di-do sengl

Nid oes strategaeth ysgrifenedig, na fforwm digartrefedd. Dywed yr awdurdod lleol ei fod yn delio ag unrhyw achosion achlysurol o gysgu allan pan ddigwyddant.

### 5. Pa wasanaethau sy'n absennol i'r bobl sy'n cysgu allan yn yr ardal?

- Llety argyfwng (graddfa fechan, e.e. 3-4 gwely, neu trwy gynllun megis Nightstop gan Barnardo's, lle mae gwirfoddolwyr hyfforddedig yn lletya pobl ifainc am un noson neu ychydig o nosweithiau yn eu cartrefi eu hunain);
- Cynllun bond amser llawn;
- Siop un alwad mewn amryw o drefi ar gyfer pob grŵp oedran, lle y gall pobl gael gwybodaeth, cyngor a chymorth ynglŷn â materion llety;
- Canolfan alw-heibio i bobl ifainc, yn darparu bwyd, gwybodaeth, cyngor, cymorth a chwmni;
- Rhagor o lety fforddiadwy o ansawdd da i bobl ifainc yn agos at ganol y trefi;
- Gwasanaeth cyfryngu i leihau nifer y toriadau teuluol;
- Gwasanaethau cymorth i bobl yn eu llety eu hunain.

### 6. Materion eraill

- Mynegwyd y farn, mewn un grŵp gwirfoddol, bod angen cyd-drefnu strategaeth ddigartrefedd unigol, a sefydlu protocolau gwaith da rhwng y gwahanol asiantaethau;
- Mae'r bobl ym Mlaenau Gwent weithiau yn amharod i symud o un dref i'r llall, ac yn aml y mae gan y bobl eu rhwydweithiau cymdeithasol hirsefydlog.

## PEN-Y-BONT AR OGWR

### 1. Amlder cysgu allan

Ymgymerodd nifer o eglwysi ag arolwg o gysgu allan ym Mhorth-cawl, trwy gynnal gwiriadau wythnosol yng Ngorffennaf, Awst a Medi 1998, a gwiriadau dyddiol gydag adroddiadau wythnosol o 1 Tachwedd 1998 tan 6 Rhagfyr 1998. Cafwyd mai 5 neu 6 oedd y nifer mwyaf cyffredin o gysgwyr allan yn ystod Gorffennaf, Awst a Medi, a 3 neu 4 rhwng 1 Tachwedd a 6 Rhagfyr. "Ymwelwyr tymhorol" yn bennaf oedd y bobl a gafwyd yn cysgu allan yn yr haf, ond yr oedd y bobl a oedd yn cysgu allan rhwng Tachwedd a Rhagfyr yn bennaf yn bobl leol rhwng 50 a 60 oed, ac yn arddangos problemau cysylltiedig ag alcohol.

Cynhaliodd Cymdeithas Caer Las arolwg cenhadol ym Mhen-y-bont a Phorth-cawl rhwng 22 Ionawr 1999 a 31 Mawrth 1999. Yr oedd yr arolwg yn cynnwys 49 'taith stryd' ar droed mewn gwahanol fannau trwy'r fwrdeistref, a 22 o sesiynau galw-heibio. Ni welwyd neb yn cysgu allan yn ystod yr arolwg, er bod tystiolaeth o gysgu allan tebygol wedi ei ganfod ar bedwar safle ym Mhen-y-bont a phedwar ym Mhorth-cawl. Saith o'r 46 o bobl y cysylltwyd â hwy yn yr arolwg a ddywedodd mai'r rheswm am eu digartrefedd oedd eu bod yn "gysgwyr allan hirdymor". Mae Cymdeithas Caer Las wedi comisiynu prosiect ymchwil i anghenion tai a chymorth pobl sydd wedi bod, neu sydd ar hyn o bryd, yn ddigartref yn y fwrdeistref. Dylai'r ymchwil fod wedi ei gwblhau erbyn yr hydref 2000, gan ddarparu gwybodaeth feintiol ac ansoddol am ddigartrefedd a chysgu allan yn y fwrdeistref.

### 2. Achosion cysgu allan

Yn yr arolwg uchod gan Gymdeithas Caer Las, y niferoedd o bobl a roddodd y rhesymau canlynol dros fod yn ddigartref oedd:

| | |
|---|---|
| - Troi allan o lety | 9 |
| - Cysgwyr allan hirdymor | 7 |
| - Cais i adael gan y teulu | 7 |
| - Anhysbys | 5 |
| - Gadael gofal / carchar / ysbyty | 5 |
| - Gadael o ddewis | 5 |
| - Llety anaddas | 2 |
| - Trais domestig | 2 |
| - Taflwyd allan o'r cartref | 2 |
| - Aflonyddu | 2 |
| - Ni roddwyd rheswm | 1 |

## 3. Enghreifftiau o'r gwasanaethau presennol

- Tai i'w rhannu gyda chymorth i bobl ifainc sengl, gwasanaeth cymorth ôl-ofal, a gwasanaeth gwybodaeth / cyngor (Barnardo's);
- Cymorthfeydd i gynghori ynghylch tai ym Maesteg, Pen-y-bont a Phorth-cawl ar wahanol ddyddiau o'r wythnos (Shelter Cymru);
- Cynllun tai i'w rhannu gyda chymorth (Cymdeithas Caer Las);
- Gwasanaeth cymorth symudol i bobl ifainc sy'n gadael gofal (Cymdeithas Caer Las);
- Cynlluniau tai gyda chymorth i bobl â phroblemau iechyd meddwl (Ymddiriedolaeth Tai Gofal);
- Mae rhai o'r eglwysi ym Mhorth-cawl yn darparu bwyd i bobl ddigartref.

## 4. Strategaethau i'r digartref neu'r di-do sengl

Nid oes strategaeth ysgrifenedig. Fodd bynnag, mae yna Fforwm Tai i'r Sengl hirsefydlog sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o gyrff a mudiadau. Mae'n debyg y byddai'r fforwm hwn yn grŵp addas i ddatblygu strategaeth

## 5. Pa wasanaethau a nodwyd sy'n absennol o'r ardal?

- Llety argyfwng i'r digartref sengl anstatudol ym Mhorth-cawl (tua 6 gwely), Pen-y-bont (4-6 gwely), a hwyrach ym Maesteg;
- Gwasanaethau adsefydlu a chymorth;
- Llety symud-ymlaen. Mae llety un-person yn enbyd o brin ym mhob rhan o'r fwrdeistref (h.y. llety cyngor, cymdeithas dai a phreifat);
- Siop un alwad, a allai ddarparu gwasanaethau tai, gwasanaethau cymdeithasol ac eraill ar un safle.

## 6. Materion eraill

- Ar ôl cau uned adsefydlu mynediad uniongyrchol yr Adran Nawdd Cymdeithasol, Stormy Down, ni sefydlwyd dim i gymryd ei le yn y fwrdeistref;
- Yn gyffredinol mae pobl yn amharod i symud o un dref i'r llall yn y fwrdeistref, nac i symud allan o'r ardal yn gyfan gwbl. Oherwydd hynny, mae angen llety argyfwng a rhagor o lety ar rent mewn nifer o drefi (fel a nodir uchod);
- Mae'n anodd i bobl sy'n cysgu allan gel mynediad at feddyg;
- Mae'n anodd iawn i bobl sy'n cysgu allan gael eu cynnwys ar gofrestr tai y cyngor oherwydd nad oes ganddynt gyfeiriad. Hefyd, bydd rhai o'r digartref sengl, wrth symud o un cyfeiriad i'r nesaf, yn esgeuluso newid eu cyfeiriad ar restr y cyngor, ac felly yn ychwanegu at eu hanhawster i gael llety sicr.

## CAERFFILI

### 1. Amlder cysgu allan

Dywed yr adroddiad gan CBS Caerffili a Shelter Cymru ym 1997, Rough Sleepers Winter Count Caerphilly County Borough Council Area November 1997, y canfuwyd 8 o bobl yn cysgu allan ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, mewn arolwg 3 noson ar 27, 28 a 29 Tachwedd 1997.

Yn adroddiad Gweithredu Dros Ddigartref Sengl Casnewydd ym 1998/1999, Single Homelessness and Rough Sleeping in the Counties of Newport, Caerphilly, Monmouthshire, Blaenau Gwent and Torfaen Snapshot Surveys: Summer 1998 and Winter 1998/99, canfuwyd:

- Un ar ddeg o bob yn cysgu allan ar y nosweithiau 27, 28 a 29 Awst 1998;
- Ni chanfuwyd neb yn cysgu allan mewn arolwg 3 noson ar 24, 28 Ionawr a 2 Chwefror 1999, er cael gwybodaeth a oedd yn arwyddo bod o leiaf 7 o bobl yn cysgu allan ar un noson neu ragor yn ystod yr arolwg hwn.

### 2. Achosion cysgu allan

Y rhesymau a roddwyd gan 4 a gyfwelwyd yn arolwg 1998 oedd:

- Tor-perthynas;
- Cais i adael gan deulu/cyfeillion a methiant i ddod o hyd i lety addas;
- Gorfod gadael llety cyfaill yn dilyn ffrae;
- Dewis gwneud hynny (yr oedd y dyn hwn wedi cysgu allan er 15 mlynedd).

Rhesymau eraill a nodwyd yn yr ardal dros ddigartrefedd ymysg pobl ifainc oedd tlodi, a thor-perthynas mewn llety gyda chymorth, heb unman arall i bobl symud iddo wedyn

### 3. Enghreifftiau o'r gwasanaethau presennol

- Llety a chymorth i'r digartref sengl mewn 6 ystafell byw a chysgu yn yr un tŷ yn Llanbradach a 5 fflat hunangynhwysol mewn un tŷ yn Senghennydd (a reolir gan Gweithredu ar Dai Cwm Rhymni [CRAG]). Ceir mynediad i'r llety trwy system atgyfeirio, a bwriedir ef ar gyfer pobl ddigartref sengl 16 i 25 oed;
- Gwasanaeth café a chyngor i bobl ifainc yn nhref Caerffili (a reolir gan Brosiect Ieuenctid Caerffili);
- Llety a gwasanaethau cymorth i'r digartref sengl sydd â phroblem iechyd meddwl (a reolir gan Ymddiriedolaeth Tai Gofal). Mae'n cynnwys 4 fflat hunangynhwysol gyda swyddfa yn gysylltiedig yn Llanbradach; ystafelloedd byw a chysgu gyda chymorth ym Margoed; a gwasanaeth cymorth, cyngor ac eiriolaeth yng Nghaerffili i rai gyda phroblemau iechyd meddwl, sydd mewn angen neu anhawster ynglŷn â thai;
- Cynllun bond i bobl ifainc a atgyfeirir, yn bennaf gan y gwasanaethau cymdeithasol neu'r gwasanaeth prawf (rheolir gan Barnardo's);
- Gwasanaethau cynghori ynghylch tai mewn gwahanol leoedd yn y fwrdeistref (rhai gan Shelter Cymru ac eraill gan Barnardo's);
- Gwasanaeth cymorth symudol a weithredir gan Barnardo's i bobl ifainc mewn 3 fflat hunangynhwysol;
- Gwasanaeth cymorth symudol a weithredir gan Symud Ymlaen Cwm Rhymni;
- Gwasanaeth cyffuriau yn darparu cyngor, gwybodaeth, cwnsela a chymorth (darperir gan Drug Aid);
- Llochesau Cymorth i Fenywod, ar gyfer benywod sy'n dianc rhag trais neu'r bygythiad o drais domestig;

### 4. Strategaethau i'r digartref neu'r di-do sengl

Nid oes strategaeth ysgrifenedig. Fodd bynnag, mae yna Fforwm Tai Pobl Sengl sydd ar ganol datblygu strategaeth dai i bobl sengl, strategaeth symud-ymlaen a chyfeiriadur gwasanaethau i'r digartref sengl.

### 5. Pa wasanaethau a nodwyd sy'n absennol o'r ardal?

- Llety argyfwng i bobl ifainc (hwyrach un cynllun mewn un dref);
- Gwasanaethau cenhadol (e.e. rownd gawl, gweithwyr cenhadol), yn rhannol er mwyn canfod bylchau eraill yn y sefyllfa bresennol;
- Cynllun bond gydag amodau cymhwyso ehangach na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd;
- Rhagor o wasanaethau cymorth symudol;
- Rhagor o dai cymdeithasol i bobl ifainc, yn yr ardaloedd priodol;
- Llety gyda lefel uchel o gymorth i bobl gyda anghenion penodol (e.e. mewn perthynas â defnyddio cyffuriau);
- Gwasanaethau cynghori ar gael yn ehangach trwy'r fwrdeistref.

### 6. Materion eraill

- Credai'r awdurdod lleol fod angen gwneud rhagor o waith i astudio'r ffyrdd mwyaf priodol o ymdrin â materion cysgu allan a digartrefedd sengl yn y fwrdeistref;
- Gall fod yn anodd cael asesiad i bobl ifainc gan y gwasanaethau cymdeithasol;
- Mae'n anodd cael cymorth i bobl sy'n wynebu problem iechyd meddwl yn ogystal â phroblem gyffuriau a/neu alcohol;
- Mae'r rhestr aros yn hir am y gwasanaeth adsefydlu cyffuriau yn yr ardal, ac yn achosi anawsterau i rai pobl;
- Mae rhai o'r bobl ifainc sengl digartref heb gyfeiriad sefydlog yn profi trafferthion wrth geisio cael budd-daliadau.

## CAERDYDD

### 1. Amlder cysgu allan

Yn yr arolwg gan Dîm Canol y Ddinas,Cyngor Sir Caerdydd, A Snap-Shot Survey of the Non-Residential Area of Cardiff City Centre, canfuwyd bod 12 o bobl yn cysgu allan yng nghanol y ddinas yn ystod y cyfnod 24 awr, 25 Medi 1997.

Amcangyfrifwyd yn A Snap-Shot Survey of Vulnerability in Cardiff City Centre September 24th 1998, a drefnwyd hefyd gan Dîm Canol y Ddinas, Caerdydd, eu bod wedi arsylwi ar 20 o bobl yng nghanol y ddinas yn ystod y cyfnod 24 awr, ac wedi barnu eu bod yn cysgu allan.

Mae rhai o'r hostelau yng Nghaerdydd yn caniatáu i bobl gysgu yn eu lolfeydd os yw'r hostelau'n llawn. Caniataodd Gweithredu dros Ddigartref Sengl Caerdydd, er enghraifft, i 59 o bobl aros yn lolfa'r llety dros nos yn eu huned argyfwng, rhwng Rhagfyr 1998 a Mawrth 1999, oherwydd bod y llety yn llawn. Heb y caniatâd hwnnw, credid y byddai rhai o'r bobl hynny wedi bod yn cysgu allan.

Yn y 4 mis o Ragfyr 1997 i Fawrth 1998, cysylltwyd â 60 o bobl a oedd yn cysgu allan, trwy gyfrwng gwaith Cymuned Wallich Clifford, gyda'u rownd frecwast ddyddiol i bobl ddigartref yng nghanol, neu o amgylch canol, dinas Caerdydd. Dynion oedd 50 ohonynt, ac yr oedd 26 o'r 60 dan 26 oed.

Rhwng 1 Rhagfyr 1998 a 31 Mawrth 1999, cyfarfu rownd frecwast ddyddiol Cymuned Wallich Clifford â 75 o bobl stryd-ddigartref (h.y. pobl a oedd neu a ddywedodd eu bod yn ddigartref) yng nghanol, neu o amgylch canol, dinas Caerdydd. Dynion oedd 67 ohonynt, ac yr oedd 39 o'r 75 dan 26 oed.

Rhwng 7 Rhagfyr 1998 a 31 Mawrth 1999 arhosodd 127 o bobl yn lloches nos y gaeaf, a ddarperir gan Gymuned Wallich Clifford. Yr oedd 113 o'r bobl hynny wedi cysgu allan rhywdro neu'i gilydd.

Bu Andy Webb a gwirfoddolwyr eraill yn dosbarthu cawl, bwyd etc i tua 25 - 30 o bobl bob nos Iau o 3 Mehefin 1999 i 29 Gorffennaf 1999. Yr oedd rhwng 8 a 10 o'r rhain yn cysgu allan, a'r gweddill yn aros mewn hostelau, sgwatiau, fflatiau neu ystafelloedd byw a chysgu. Un nos Iau, canfu'r rownd gawl 14 o bobl yn cysgu allan, rhai ohonynt yn deithwyr, ac yn newydd i Gaerdydd. Trwy gydol y cyfnod 1 Mawrth 1999 i 29 Gorffennaf 1999, yr oedd grŵp cnewyllyn o tua 6 o bobl a oedd yn cysgu allan.

## 2. Achosion cysgu allan

Yn arolwg 1998 gan Dîm Canol y Ddinas, dywedir "mae pobl yn cysgu allan am lawer o resymau, ac fel arfer y mae cymysgedd o ffactorau yn cronni nes ymddangos yn amhosibl eu goresgyn. Sylwir yn gyffredin bod cysgwyr allan wedi dioddef tor-perthynas, yn gaeth i ryw sylwedd, neu'n dioddef o anhwylder neu broblem iechyd meddwl. Mae'r rhesymau nad yw cysgwyr allan yn aml yn derbyn gwasanaethau hefyd yn amrywiol: er bod yr achosion weithiau'n gymhleth, mae'n deg dweud bod llawer o bobl ar y strydoedd oherwydd na wyddent am y gwasanaethau, neu nad oeddent yn teimlo'n alluog i gael mynediad atynt."

Mae'r rhesymau eraill dros gysgu allan a nodwyd yng Nghaerdydd yn cynnwys:

- Gwahardd pobl o'r hostelau (e.e. oherwydd ymddygiad treisiol, torri rheolau ynglŷn â chyffuriau, alcohol, camymddwyn rhywiol - er enghraifft benyw yn cyfathrachu gyda nifer o ddynion, sy'n arwain at broblemau yn yr hostel ac at wahardd y fenyw);

- Gall rhai bobl anghofio bod ganddynt rywle i fyw, neu sut i gyrraedd eu llety. Mae hyn yn arbennig o wir am bobl gyda phroblem alcohol, a rhai a fu gynt yn cysgu allan am flynyddoedd;

- Mae nifer fach a fu yn y lluoedd arfog, ac a ddaeth i arfer â'r diwylliant o yfed yn drwm ar benwythnosau. O ganlyniad, gallent fod yn cysgu allan dros dro. Gall hyn hefyd eu harwain i drybini pellach, a hwyrach gysgu allan am gyfnodau hwy;

- Ceir nifer fach o bob ifainc sy'n cysgu allan oherwydd eu bod wedi colli'r trên neu'r bws olaf gartref, ar ôl bod mewn tafarn neu glwb;

- Mae nifer fach o bobl ifainc yn dianc o'u cartrefi neu o ofal, heb unman arall i aros. Oherwydd eu bod dan 16 oed, hwyrach y bydd arnynt ofn cysylltu ag unrhyw swyddog neu gorff gwirfoddol, rhag gorfod dychwelyd adref (neu i ofal), ac felly maent yn cysgu allan er mwyn cadw o'r golwg. Hwyrach hefyd na wyddant at bwy i droi am gymorth, ac na allant, neu na ddymunant aros gyda chyfeillion neu deulu;

- Mae rhai'n dewis eithrio allan o'r system, oherwydd eu bod yn gwybod y byddant yn yfed gormod os cânt ormod o arian, ac y byddant farw hwyrach, o ganlyniad. Mae rhai o'r bobl yn y sefyllfa hon yn gwrthod hawlio budd-daliadau'r wladwriaeth, gan ddibynnu ar gardota, a/neu werthu un neu ddau o "The Big Issue" i'w cynnal;

- Bu nifer fach o ymgeiswyr lloches wleidyddol yn cysgu allan yng Nghaerdydd (e.e. o Kosovo) oherwydd na wyddent at

bwy i droi, ac na allent siarad Saesneg i ofyn am gymorth priodol;

- Mae nifer fach o "ryfelwyr ecolegol" wedi gwneud penderfyniad bwriadus i fabwysiadu dull o fyw a allai olygu cysgu allan;
- Mae rhai sydd wedi cyflawni troseddau difrifol ac ar ffo rhag yr heddlu yn dewis symud i ardal ddieithr a chysgu allan rhag cael eu dal;
- Nid yw rhai pobl yn gwybod ym mhle i gael gafael ar lety argyfwng, yn enwedig os na fuont yn ddigartref o'r blaen;
- Gall y rheolau yn yr hostelau gau allan rhai pobl, e.e. ychydig iawn o'r hostelau sy'n caniatáu i gŵn aros yn yr adeilad. Oherwydd nad yw rhai o'r digartref sy'n berchnogion cŵn yn barod i'w gadael yn unman arall, gall hyn achosi iddynt gysgu allan;
- Mae rhai hostelau yn gwrthod derbyn cyplau, a gall hynny achosi i rai cyplau gysgu allan, os na ddônt o hyd i lety argyfwng arall;
- Nid yw rhai pobl yn dymuno defnyddio'r llety sydd ar gael mewn hostelau, oherwydd nad yw'r drefn a'r rheolau at eu chwaeth;
- Mae eraill yn coleddu syniad afrealistig am fywyd mewn hostelau, ac oherwydd hynny nid ydynt yn gofyn am fynediad;
- Nid yw ambell un am ddefnyddio hostel oherwydd balchder.

Yn fwy cyffredinol, gellir rhestru nifer o'r prif resymau dros ddigartrefedd:

- Tor-perthynas, e.e. dan rai amgylchiadau gall ailbriodi neu bartner newydd arwain at orchymyn person ifanc i adael cartref. Ar y llaw arall, gall y person ifanc ei hunan deimlo na all ddygymod â'r 'llys-riant' newydd, a gadael cartref o'r herwydd. Gallai hynny achosi digartrefedd, a allai gynnwys cysgu allan rhywdro neu'i gilydd, mewn rhai achosion. Gall ymddygiad y person ifanc gartref hefyd fod yn annerbyniol, ac achosi iddo ef neu hi gael gorchymyn i adael;
- Tlodi;
- Diweithdra;
- Problemau tenantiaeth (e.e.ôl-ddyled rhent, anallu i ymdopi);
- Anallu i ganfod llety addas a fforddiadwy (yn enwedig yn achos pobl ifainc);
- Ailfeddiannu eiddo ar forgais;
- Trais domestig (yn enwedig yn erbyn benywod, ond yn digwydd yn erbyn gwrywod hefyd);
- Problemau iechyd meddwl;
- Rhyddhau o ysbytai seiciatrig heb lety priodol na threfniadau cymorth dilynol;
- Anawsterau sy'n gysylltiedig â'r modd y mae unigolyn yn defnyddio alcohol neu gyffuriau (e.e. nid yw rhai pobl yn talu'r rhent nac yn ymdopi'n ariannol yn eu llety, oherwydd eu bod yn bwydo'u harferiad cyffuriau; hwyrach y bydd eraill, megis aelodau'r teulu, yn methu â dygymod â ffordd fyw'r defnyddiwr cyffuriau ac yn ei orchymyn i adael y cartref);
- Gadael carchar heb lety i symud i mewn iddo;
- pobl ifainc (rhai ohonynt wedi bod yng ngofal awdurdod lleol) yn methu ag ymdopi yn eu llety eu hunain, a heb gymorth priodol;
- Marwolaeth partner yn achosi i unigolyn ddigalonni a cholli'r ewyllys i ddal ati yn eu sefyllfa;
- Mae rhai pobl mewn cylch o ddigartrefedd, yn symud o un hostel i un arall, i mewn ac allan o dai gwely a brecwast, a mathau eraill o lety dros dro.

## 3. Enghreifftiau o'r gwasanaethau presennol

Cyhoeddir Steetwise yng Nghaerdydd, sef cyfeiriadur cynhwysfawr o'r gwasanaethau i'r digartref sengl, gan gynnwys rhai sy'n cysgu allan; mae'r cyhoeddiad yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd.

Rhai enghreifftiau o'r gwasanaethau yw'r canlynol:

- Rownd frecwast a drefnir gan Gymuned Wallich Clifford, a nifer o rowndiau cawl eraill yn ystod yr wythnos (a drefnir, er enghraifft gan Fyddin yr Iachawdwriaeth, Paradise Run, Eglwys Glenwood, Eglwys Fethodistaidd Cyncoed, Andy Webb);
- Llochesau nos - Canolfan Huggard (20 gwely) a reolir gan Gweithredu dros Ddigartref Sengl Caerdydd, a lloches nos Cymuned Wallich Clifford (5 gwely);
- Cynlluniau mynediad uniongyrchol, e.e. Cymuned Wallich Clifford (20 gwely); Tŷ Tresillian (20 gwely) a reolir gan Gyngor Sir Caerdydd; Cymdeithas Tai YMCA Caerdydd (73 gwely); Ambassador YMCA (16 ystafell deuluol ac 20 ystafell sengl, un ohonynt wedi ei chadw at ddibenion argyfwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg); a Byddin yr Iachawdwriaeth (sy'n cael ei adnewyddu ar hyn o bryd, ond a ddylai fod yn barod erbyn Ebrill 2000. Yr oedd 88 gwely yng Ngorffennaf 1998, ond bydd y nifer yn gostwng i 61 gwely yn Ebrill 2000, 9 ohonynt wedi eu cynllunio fel gwelyau argyfwng mynediad uniongyrchol am gyfnod byr iawn. Bydd y gwelyau eraill ar gael i bob digartref gyda gwahanol anghenion);
- Tîm cenhadol - Tîm Canol y Ddinas (sy'n cynnwys staff tai, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg);
- Cynllun bond a reolir gan Fwrdd Bond Caerdydd;
- Canolfan gyngor tai (y Ganolfan Gymorth Tai);
- Llety arbenigol i bobl ddigartref gydag anghenion penodol, e.e. "Prosiect Shoreline" Cymuned Wallich Clifford ar gyfer 18 o bobl ddigartref sy'n yfed ar y stryd;
- Hostel sych i 18 o bobl ddigartref sydd am ddod i delerau â materion alcohol neu gyffuriau, a reolir gan Gyswllt Tai Caerdydd;
- Gwasanaethu cymorth i bobl sy'n symud i mewn i lety annibynnol e.e. Symud Ymlaen Caerdydd, a'r gweithwyr adsefydlu sy'n perthyn i wahanol gyrff;
- Canolfan ddydd i bobl ddigartref a reolir gan Gweithredu dros Ddigartref Sengl Caerdydd;
- Tîm gofal iechyd sylfaenol yn gweithredu yn bennaf o Dŷ Tresillian. Mae'r tîm yn cynnwys ymarferydd nyrsio, meddyg, ciropodydd a nyrs seiciatrig gymunedol. Maent i gyd yn ymweld â Tŷ Tresillian yn rheolaidd, ac y mae'r ymarferydd nyrsio yn ymweld â chynlluniau eraill hefyd.

## 4. Strategaethau i'r digartref neu'r di-do sengl

Paratowyd strategaeth ar gyfer y digartref sengl gyntaf ym 1993. Fodd bynnag, nid oes gan Gaerdydd ddogfen waith strategol ar hyn o bryd. Cyrhaeddwyd pwynt pan oedd raid adolygu'r strategaeth o leiaf, a'i hailysgrifennu yn ôl pob tebyg. Mae'n rhan o gyfrifoldeb un aelod o staff yr awdurdod lleol i baratoi strategaeth gyfredol i Gaerdydd ar gyfer y digartref sengl, ar y cyd â chyrff eraill. Mae nifer o fforymau tai yng Nghaerdydd, e.e. Fforwm Tai a Digartrefedd Caerdydd, grŵp Darparwyr Mynediad Uniongyrchol, Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd, Streetcarers (fforwm o unigolion ac eglwysi sy'n trefnu rowndiau cawl).

## 5. Pa wasanaethau a nodwyd sy'n absennol o'r ardal?

Mae a wnelo llawer o'r meysydd, a nodwyd gan Gaerdydd fel rhai absennol, â llety priodol ar gyfer symud ymlaen o'r hostelau. Gellid cwtogi'r cyfnodau aros mewn llety argyfwng trwy ddarparu rhagor o lety "ail gam" priodol, gyda chymorth. Byddai hynny yn galluogi rhagor o

bobl i ddefnyddio'r llety argyfwng, heb orfod cynyddu llawer ar nifer y gwelyau yno.

- Rhagor o gynlluniau tai bychain gyda chymorth, lle y gall pobl ddysgu, neu wella, eu sgiliau byw sylfaenol, megis coginio a chadw at gyllideb, cyn symud i lety mwy annibynnol;
- Llety gyda chymorth a gwasanaethau i bobl ddigartref gydag anhwylder personoliaeth neu broblem ymddygiad. Mae rhai pobl yn y sefyllfa hon yn cael eu gwahardd o'r hostelau, ac ni wneir diagnosis o broblem iechyd meddwl gan y gwasanaethau iechyd seiciatrig. Yn aml, o ganlyniad, nid ydynt yn derbyn y cymorth sy'n briodol;
- Llety gyda chymorth a gwasanaethau i bobl sydd â'u dull o fyw yn gwbl ddi-drefn, e.e. pobl sydd bob yn ail i mewn ac allan o garchar, weithiau yn gweithredu yn gwbl amhriodol, hwyrach yn rhoi'r gorau i denantiaeth am reswm dibwys na fyddai byth yn achosi i bobl eraill wneud hynny, i mewn ac allan o hostelau a llety dros dro arall;
- Rhagor o lety gyda chymorth i bobl gyda phroblem gyffuriau;
- Rhagor o lety gyda chymorth i bobl gyda phroblem alcohol;
- Rhagor o lety hirdymor mewn tai i'w rhannu, ar gyfer y bobl hynny nad ydynt yn dymuno byw ar eu pen eu hunain;
- Trefnu bod rhagor o gymorth hirdymor ar gael i rai pobl yn eu llety eu hunain;
- Rhagor o lety symud-ymlaen o ansawdd da, fforddiadwy i bobl sy'n byw ar incwm isel neu fudd-daliadau, yn yr ardaloedd cywir, sef yn agos at y mwynderau;
- Rhagor o gyfleusterau dadwenwyno, y gellir cael mynediad atynt ar frys ar gyfer alcohol a chyffuriau;
- Gwasanaethau i bobl sy'n wynebu problemau mewn cyfuniad o ddau neu ragor o'r meysydd iechyd meddwl, cyffuriau ac alcohol. Bydd pobl weithiau yn derbyn cymorth ynglŷn ag un o'r materion hyn, ond yn gwbl ar wahân i'r mater arall neu faterion eraill. Hwyrach y bydd angen gwasanaethau newydd i ymdrin â hyn, neu ragor o gydweithredu a chydweithio rhwng y gwasanaethau presennol, er mwyn darparu'r cymorth priodol;
- Clinig (gan gynnwys cyngor iechyd) yn benodol ar gyfer y digartref, efallai wedi ei leoli yn agos at un o'r hostelau presennol;
- Dulliau priodol o helpu pobl sy'n dreisgar;
- Llety argyfwng sy'n barod i dderbyn pobl gyda chŵn;
- Baddonau cyhoeddus a chyfleusterau golchi cyhoeddus;
- Cypyrddau diogel yn ddi-dâl neu'n rhad iawn, lle y gall pobl sy'n cysgu allan gadw eiddo megis eitemau personol, blancedi, dillad etc. Mae eitemau o'r fath yn aml yn cael eu colli, eu lladrata, neu eu difrodi (e.e. yn gwlychu ac yn mynd yn ddiwerth) heb le addas i'w cadw;
- Rhagor o leoedd i welyau mewn rhyw lety argyfwng, e.e. lloches nos Canolfan Huggard (Gweithredu dros Ddigartref Sengl Caerdydd) neu'r math a ddarperir yn lloches nos Cymuned Wallich Clifford;
- Rhagor o lety argyfwng yn benodol i rai 16 a 17 oed.

## 6. Materion eraill

- Nid yw'r trefniadau rhyddhau o ysbytai bob amser yn foddhaol. Mae rhai cleifion yn cael eu rhyddhau o ysbytai seiciatrig heb yn gyntaf drefnu llety a chymorth digonol;
- Nid yw'r paratoadau ar gyfer rhyddhau pobl o garchar yn ddigonol i sicrhau bod ganddynt le i fyw. Mewn rhai achosion gellir gweithredu i ddatrys y broblem hon wrth draddodi'r unigolyn i'r carchar yn y lle cyntaf (e.e. llenwi'r ffurflenni budd-dâl tai priodol etc);

- Gall fod yn anodd cael asesiadau gofal cymunedol i rai pobl, ac weithiau mae'n rhaid aros yn hir am asesiad;
- Mae lle i wella ar waith ac ymglymiad y gwasanaethau cymdeithasol gyda phobl sy'n cysgu allan, a hwyrach y gallai hynny ddod yn rhan o ymateb cyfannol i weithio gyda'r bobl hyn;
- Byddai'n ddefnyddiol pe bai'n haws cael mynediad at gymorth y gwasanaethau cymdeithasol tu allan i'r oriau swyddfa arferol;
- Mae mynediad at y gwasanaethau cymdeithasol iechyd meddwl yn anodd i breswylwyr mewn rhai hostelau;
- Gall fod yn anodd iawn i gael cymorth i bobl gyda diagnosis o anhwylder personoliaeth neu broblem ymddygiad;
- Hyd y gellir, dylid darparu gwasanaethau sydd wedi eu teilwra i anghenion unigol y bobl sy'n cysgu allan;
- Gall cofrestru gyda Meddygon Teulu fod yn anodd iawn i bobl sy'n cysgu allan. Diffyg cyfeiriad yw'r rheswm weithiau; ond clywir sôn hefyd am ymarweddiad, hylendid personol ac ymddygiad rhai o'r bobl yn y feddygfa. Mae strategaeth ddrafft Caerdydd ar gyfer y digartref sengl yn nodi hwn fel maes sy'n achosi pryder. Mae yna ddau feddyg, a ddefnyddir yn rheolaidd gan breswylwyr rhai hostelau, sy'n gymwynasgar iawn ac yn barod i gofrestru preswylwyr. Er hynny, clywir adroddiadau am aelodau o'r staff yn gorfod cysylltu ag Awdurdod Iechyd Bro Taf i ddyrannu meddyg i rai o'r preswylwyr;
- Mae'r anhawster i gael mynediad at Feddyg Teulu yn golygu ei bod yn anodd cael mynediad at unrhyw wasanaeth iechyd arall sy'n dibynnu ar atgyfeiriad gan Feddyg Teulu (e.e. gwasanaethau iechyd meddwl);
- Yr anhawster o wybod sut i ymateb yn briodol i letya rhai sy'n adnabyddus fel troseddwyr Atodlen Un;
- Mae gwaith rhai o'r eglwysi yn ddefnyddiol iawn, er enghraifft yn trefnu rowndiau cawl, a rhoddion o fwyd, dillad ac arian i wahanol gyrff;
- Mae rhai pobl yn cysgu yn lolfeydd yr hostelau oherwydd prinder ystafelloedd gwely gwag. Ni all y cyrff sy'n rheoli'r hostelau hawlio budd-dâl tai am y bobl hyn;
- Dylid rhoi sylw i'r angen am gymorth i lawer o'r bobl sy'n cysgu allan. Nid yn aml y gellir datrys eu sefyllfa trwy ddarparu llety yn unig;
- Byddai cyllid hirdymor i waith y mudiadau gwirfoddol yn ei gwneud yn llawer haws i gynllunio ar gyfer yr hirdymor, a byddai argaeledd y gwasanaeth i'r cleientiaid yn llawer sicrach. Byddai angen monitro'r cyllid hwnnw yn foddhaol, a dangos bod y galw am y gwasanaeth yn parhau, fel a wneir er enghraifft yn achos y Grant Refeniw Tai Gyda Chymorth (SHRG);
- Mae angen cyllid sy'n ddigon hyblyg i'w deilwra i anghenion unigolion, yn hytrach na'i seilio ar ffitio unigolion i mewn i grwpiau penodol o gleientiaid;
- Byddai ffurflen gais gyffredin, i'w defnyddio ar gyfer llety awdurdod lleol a chymdeithasau tai yn ddefnyddiol, er enghraifft er mwyn lleihau'r amser a dreulir yn gwneud ceisiadau am dai, a'i gwneud yn haws i gymharu ceisiadau. Trafodir hyn ar hyn o bryd yng Nghaerdydd;
- Yn ôl rhai o'r hostelau mae'n ymddangos bod peth anghysondeb yn y mathau a'r symiau a ddyfernir, o Gronfa Gymdeithasol yr Adran Nawdd Cymdeithasol, i bobl sydd â'u hamgylchiadau yn ymddangos yn hynod o debyg;
- Mae rhai o'r bobl sy'n cysgu allan yng Nghaerdydd wedi eu gwahardd o'r hostelau. Cyfyd cwestiwn ynglŷn â llymder rhai o'r gwaharddiadau, ac a ddylid ystyried atebion gwahanol i rai a waherddir yn rheolaidd.

## SIR GAERFYRDDIN

### 1. Amlder cysgu allan

Yn ôl yr arolwg gan Wasanaeth Ymgynghorol Tai Anghenion Arbennig yng Nghymru a Shelter Cymru ym 1996 A Survey of Rough Sleepers in Wales March 1996, ni chanfuwyd neb yn cysgu allan yn Llanelli ar y nosweithiau 1 a 2 Chwefror 1996. Fodd bynnag, yr oedd tystiolaeth anecdotaidd yr heddlu a gyrwyr tacsi yn y dref yn awgrymu bod rhai yn cysgu allan yn y dref.

Ni wyddys am unrhyw arolwg diweddarach a gynhaliwyd yn Sir Gaerfyrddin. Fodd bynnag, mae Cymdeithas Caer Las yn comisiynu prosiect ymchwil i anghenion tai a chymorth y bobl a fu'n ddigartref yn ddiweddar, neu sy'n ddigartref ar hyn o bryd yn y fwrdeistref. Disgwylir cwblhau'r ymchwil erbyn yr hydref 2000, a dylai ddarparu gwybodaeth feintiol ac ansoddol am ddigartrefedd a chysgu allan yn y fwrdeistref.

Mae gwybodaeth a ddarparwyd gan fudiad gwirfoddol sy'n gweithio gyda'r digartref sengl yn Abertawe yn awgrymu y gallai fod un neu ddau o bobl yn cysgu allan yn Llanelli yn ystod Tachwedd 1998.

Amcangyfrifwyd, gan gynllun rhannu tai i'r digartref sengl yn Llanelli, sydd â chysylltiad â'r gwasanaeth prawf ac a weinyddir gan Gymdeithas Tai Gwalia, bod o leiaf 3 o bobl yn cysgu allan yn Llanelli ar 5 Gorffennaf 1999. Yr oedd dau o'u tri phreswylydd ar 6 Gorffennaf 1999 wedi cysgu allan rhywdro.

O'r 8 preswylydd a oedd yn byw yn Furnace Banc, hostel mynediad uniongyrchol Cymdeithas Tai Gwalia yng Nghaerfyrddin, ar 6 Gorffennaf 1999, yr oedd un wedi bod yn cysgu allan yn union cyn symud i mewn. Amcangyfrifodd yr hostel bod 1 neu 2 o bobl yn cysgu allan yng Nghaerfyrddin ar 5 Gorffennaf 1999.

### 2. Achosion cysgu allan

- Mae tor-perthynas yn gyffredin iawn. I bobl ifainc mae hyn yn aml yn golygu gorchymyn i adael y cartref, neu analluogi i ddygymod â rhieni neu lys-riant a gadael cartref o ganlyniad i hynny. I bobl hŷn mae'n aml yn golygu gwahanu oddi wrth bartner;
- Troi allan o lety yn orfodol, yn bennaf oherwydd anallu i ymdopi â llety annibynnol heb rywfaint o gymorth;
- Trais;
- Tlodi, yn enwedig pan fo plentyn yn cyrraedd 16 oed ac nad yw'n gweithio na mewn addysg amser llawn. Gall rhai rhieni orchymyn person ifanc i adael cartref, gan gyfeirio at y gost o'i gadw ef neu hi gartref;
- Problemau sy'n gysylltiedig â chyffuriau neu alcohol;
- Hanes o fod yng ngofal awdurdod lleol;
- Hanes o fod mewn carchar, heb lety sicr i symud i mewn iddo yn dilyn rhyddhau.

### 3. Enghreifftiau o'r gwasanaethau presennol

- Hostel mynediad uniongyrchol (8 gwely) yng Nghaerfyrddin (a elwir Furnace Banc) i ddynion a benywod rhwng 16 a 65 oed. Rheolir gan y perchnogion, Cymdeithas Ti Gwalia;
- Llety gyda chymorth i fenywod ifainc sy'n gadael gofal yr awdurdod lleol yng Nghaerfyrddin, a reolir gan Gymdeithas Tai Hafan;
- Tŷ i'w rannu, gyda chymorth gan y staff (trwy atgyfeiriad yn unig) yn Rhydaman, ar gyfer 6 o bobl ifainc ddigartref (16 i 24 oed) a reolir gan Gymdeithas Tai Gwalia;
- Llety gyda chymorth (atgyfeiriadau gan y gwasanaethau cymdeithasol yn unig, i rai sy'n gadael gofal) yn Llanelli, a reolir gan Gymdeithas Tai Gwalia (tŷ i'w rannu gyda chymorth, 4 gwely, a dau fflat hunangynhwysol gyda chymorth symudol i rai 16 i 21 oed a fu mewn gofal); a chynllun tŷ i'w rannu 3 gwely ynghyd â dau fflat hunangynhwysol yn Llanelli i gleientiaid y gwasanaeth prawf, oed 16 i 65;

- Gwasanaeth cymorth symudol i rai o denantiaid Cymdeithas Tai Gwalia;
- Cymhorthfa gyngor tai gan Shelter, unwaith yr wythnos yn Llanelli;
- Llety i'w rannu a 2 fflat hunangynhwysol i bobl ddigartref sengl (gyda chymorth ar gael) yn Llanelli, dan reolaeth Cymdeithas Caer Las.

### 4. Strategaethau i'r digartref neu'r di-do sengl

Nid oes strategaeth a ysgrifennwyd yn benodol mewn perthynas â digartrefedd sengl neu gysgu allan. Nid oes fforwm amlasiantaeth tai neu ddigartrefedd yn Sir Gaerfyrddin.

### 5. Pa wasanaethau a nodwyd sy'n absennol o'r ardal?

- Cynllun gwarantu bondiau;
- Llety argyfwng mynediad uniongyrchol yn Llanelli (ar gyfer tua 6 o bobl);
- Canolfan gyngor tai yng Nghaerfyrddin hyd at un diwrnod bob wythnos;
- Siop un alwad yn cynnig cyngor ar amrywiaeth eang o faterion (e.e. tai, hyfforddiant, cyflogaeth, siopa, sgiliau byw sylfaenol) yn Llanelli;
- Cyfeiriadur o'r gwasanaethau i bobl ddigartref, i'w ddefnyddio gan asiantaethau a phobl ddigartref sengl;
- Rhagor o waith cenhadol ieuenctid yn Llanelli;
- Gwasanaeth cwnsela tu allan i oriau swyddfa yn Llanelli;
- Mae yna grŵp o bobl yn Llanelli (Gorffennaf 1999), rhwng 18 a 25 oed yn bennaf, sydd â'u ffordd o fyw yn ddi-drefn ac nad ydynt ar hyn o bryd yn cael cymorth priodol. Hwyrach y byddai llety gyda chymorth yn addas iddynt;
- Cyfleusterau adsefydlu cyffuriau, gan fod amlder camddefnyddio cyffuriau yn uchel, yn enwedig ymysg pobl ifainc (rhai ohonynt hefyd yn ddigartref).

### 6. Materion eraill

- Targedu hyfforddiant yn well, er mwyn helpu rhai pob i ddechrau derbyn hyfforddiant ar gyfer cyflogaeth;
- Byddai fforwm digartrefedd yn ddefnyddiol fel ffordd o rannu gwybodaeth a syniadau am wasanaethau yn y maes, ac i ddatblygu strategaeth i ymosod ar ddigartrefedd sengl a chysgu allan;
- Mae angen arolwg neu ddull arall o gasglu data am gysgu allan, er mwyn ychwanegu at y wybodaeth sydd ar gael am yr anghenion o fewn y fwrdeistref;
- Gall fod yn anodd iawn i breswylwyr y cynllun Gwalia yn Llanelli gofrestru gydag ymgynghorydd cyffredinol neu ddeintydd. Yn aml, mae'n rhaid i aelodau o'r staff gysylltu â'r awdurdod iechyd i drefnu i ddyrannu meddyg i breswylydd. Yng Nghaerfyrddin, fodd bynnag, mae yna Feddygon Teulu sy'n barod i gofrestru preswylwyr yr hostel mynediad uniongyrchol yn Furnace Banc;
- Soniodd rhai pobl ifainc y byddent wedi hoffi aros o fewn gofal maeth tu hwnt i oed 16;
- Mae'r cyfyngiad ar daliadau budd-dâl tai i rai dan 25 yn achosi caledi i rai pobl ifainc.

## CEREDIGION

### 1. Amlder cysgu allan

Cynllunnir ciparolwg o gysgu allan yn y cwbl o Geredigion ar dair noson yn ystod Medi a Hydref 1999. Trefnir hyn gan y mudiad Gobaith i Bobl Ifainc ym Mhobman (HYPE). Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu, yn nechrau Chwefror 1999, y gallai fod un person yn cysgu allan yn Aberteifi, un neu ddau yn Llanbedr, yn neu ddau yn Nhregaron a rhwng un a deg o bobl yn Aberystwyth. Credid bod amlder y cysgu allan yn wahanol

yn yr haf rhagor y gaeaf yn Aberystwyth, oherwydd y mewnlifiad o bobl i'r dref arfordirol hon yn yr haf.

Amcangyfrifodd y rownd gawl, a drefnwyd ddwywaith yr wythnos rhwng 1996 a diwedd 1998 gan Eglwys Mihangel, mai rhwng 0 a 2 o bobl a welwyd yn cysgu allan gan amlaf. Gallai'r nifer gynyddu yn achlysurol os oedd 'teithwyr' yn treulio rhywfaint o amser yn y dref.

### 2. Achosion cysgu allan

- Gadael gofal a gadael carchar heb baratoad a dilyniant digonol;
- Gadael ysbytai seiciatrig heb drefniadau cymorth digonol.

### 3. Enghreifftiau o'r gwasanaethau presennol

- Gwasanaeth cyngor a gwybodaeth i bobl ifainc gan Gobaith i Bobl Ifainc ym Mhobman (HYPE) yn Aberystwyth;
- Mae gan The Big Issue swyddfa yn Aberystwyth;
- Cynllun bond (i ddechrau yn yr hydref 1999) a weinyddir gan Gymdeithas Ofal Ceredigion;
- Gwasanaeth eiriolaeth i bobl gyda phroblem iechyd meddwl yn Aberystwyth, sydd yn achlysurol yn helpu'r digartref i gael llety (Rhwydwaith Eiriolaeth Ceredigion).

### 4. Strategaethau i'r digartref neu'r di-do sengl

Nid oes strategaeth ysgrifenedig.

Mae yna Grŵp Ymgynghorol Tai sydd fel arfer yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i ystyried beth a ddylid ei gynnwys yn Strategaeth Dai a Chynllun Gweithredol Ceredigion, a gyflwynir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Nid oes fforwm digartrefedd penodol.

### 5. Pa wasanaethau a nodwyd sy'n absennol o'r ardal?

- Llety argyfwng yn benodol i bobl ifainc, yn Aberystwyth ond hwyrach hefyd mewn trefi eraill;
- Gwasanaeth cyngor tai;
- Llety gyda chymorth i bobl ifainc (gan gynnwys tai i'w rhannu);
- Llety gyda chymorth i bobl sy'n wynebu problemau alcohol, cyffuriau neu iechyd meddwl;
- Gwasanaethau adsefydlu a chymorth i helpu pobl i symud i mewn i lety annibynnol ac i'w gynnal;
- Canolfan alw-heibio neu ganolfan ddydd;
- Gwasanaethau cwnsela;
- Arolwg o gysgu allan a digartrefedd sengl.

### 6. Materion eraill

Ystyriwyd bod "digartrefedd cudd" megis pobl yn cysgu dros dro ar lawr yn llety eu cyfeillion, ac yn symud o un cyfeiriad dros dro i'r nesaf, yn llawer mwy cyffredin na chysgu allan yng Ngheredigion. Gall fod rhai adegau, pan fo pobl yn y sefyllfa honno, sydd heb le i aros am noson neu ychydig nosweithiau, yn penderfynu cysgu allan.

## CONWY

### 1. Amlder cysgu allan

Ni wyddys am unrhyw arolwg a gynhaliwyd yn y fwrdeistref, er y cynllunnir un ar gyfer 1999, a gomisiynir gan Fforwm Digartrefedd Ieuenctid Conwy.

Trefnir un rownd gawl yr wythnos gan y mudiad Get It While You Can. Rhwng 1 Ebrill 1999 a 30 Mehefin 1999, canfu fod 6 o bobl yn cysgu allan ym Mae Colwyn a 6 yn cysgu allan yn Llandudno. Mae un dyn, sy'n adnabyddus fel cysgwr allan hirdymor, yn

galw heibio i'w canolfan gynghori ym Mae Colwyn tuag unwaith bob tri mis, ac yn cael dillad, bwyd etc.

## 2. Achosion cysgu allan

Dywedodd un corff gwirfoddol (Ymddiriedolaeth Clwyd Cornerstone) mai un achos pwysig a chynyddol digartrefedd, ymysg y bobl ifainc a letywyd yn eu hostel, oedd ymddygiad annerbyniol gartref. Yr oedd perthynas yn aml rhwng hynny a chyffuriau neu alcohol; ac o ganlyniad yr oedd y bobl ifainc un ai'n cael gorchymyn i adael, neu'n dewis gadael, eu cartrefi.

Achos arall digartrefedd, a hwyrach cysgu allan, oedd bod y landlordiaid yn nhrefi glan môr Conwy yn codi rhenti isel yn y gaeaf ac yn eu codi yn ystod yr haf. Mae twristiaeth yn cynyddu'r galw am lety yn yr haf, i'r twristiaid eu hunain a hefyd i weithwyr tymhorol. Gall hyn achosi digartrefedd ymysg rhai na allant fforddio'r rhenti uchel yn yr haf.

Yn yr un modd, mae rhai pobl yn llwyddo i gael gwaith dros dro yn yr haf, ond yn ddi-waith yn ystod y gaeaf. Yn y sefyllfa honno mae rhai yn yfed llawer yn rhagor yn y gaeaf, i basio'r amser. Gall hynny effeithio ar eu sefyllfa mewn perthynas â'u llety, ac arwain at ddigartrefedd mewn rhai achosion.

Mewn ambell achos mae colli llety clwm yn achosi digartrefedd.

Canfu'r grŵp Get It While You Can mai'r ddau brofiad sy'n cyfannu amlaf at bobl yn defnyddio eu hostelau yw dod o gartrefi a chwalwyd; a/neu gael eu cam-drin yn rhywiol.

## 3. Enghreifftiau o'r gwasanaethau presennol

- Gwasanaeth cyngor tai a ddarperir gan Shelter Cymru;
- Canolfan wybodaeth a chyngor ym Mae Colwyn, yn darparu cymorth yn bennaf mewn perthynas ag alcohol, cyffuriau a digartrefedd (rheolir gan Get It While You Can). Nid canolfan dydd yw hon, ond y mae cyfleusterau cawod ar gael, dillad a chyflenwadau o fwyd ar gael, y gall pob sy'n cysgu allan eu defnyddio;
- Rownd gawl unwaith yr wythnos, yn cwmpasu Bae Colwyn a Llandudno (gweinyddir gan Get It While You Can);
- Gwasanaeth cwnsela ynglŷn ag alcohol a chyffuriau (darperir gan Get It While You Can);
- Tŷ wyth gwely gyda staff yng Nghyffordd Llandudno i ddynion digartref sydd am ddod i delerau â materion alcohol neu gyffuriau (a reolir gan Get It While You Can). Mae'r mynediad trwy atgyfeirio yn unig;
- Hostel yn darparu llety dros dro i 13 o ddynion digartref ym Mae Cinmel. Mynediad trwy atgyfeirio yn unig (yn bennaf oddi wrth y Gwasanaeth Prawf). Rheolir y cynllun gan Ymddiriedolaeth Clwyd Cornerstone).

## 4. Strategaethau i'r digartref neu'r di-do sengl

Nid oes strategaeth ysgrifenedig, na fforwm digartrefedd. Cynllunnir arolwg o'r digartref sengl, gan gynnwys y di-do, ar gyfer 1999, a ddylai ddarparu gwybodaeth y gellir ei defnyddio i ddatblygu strategaeth. Mae yna Fforwm Digartrefedd Ieuenctid Conwy, a allai fod yn grŵp priodol i ddatblygu strategaeth.

Mae yn a hefyd Fforwm Llety Gogledd Cymru, sy'n cwmpasu ardal ehangach na Chonwy yn unig.

## 5. Pa wasanaethau a nodwyd sy'n absennol o'r ardal?

- Darpariaeth argyfwng mynediad uniongyrchol (hwyrach ar raddfa fechan mewn nifer o wahanol drefi);
- Cynllun bond;
- Rhagor o lety symud-ymlaen i bobl sengl yn yr ardaloedd priodol;
- Gwasanaeth adsefydlu;

- Gwasanaethau cymorth i rai pobl yn eu llety eu hunain, i'w helpu i gynnal eu tenantiaeth;
- Canolfan alw-heibio lle y gall pobl gyfarfod eraill i gael cwmni, ac am fwyd a diod;
- Arolwg o ddigartrefedd a chysgu allan (i fod i ddechrau yn yr hydref 1999).

### 6. Materion eraill

Mae rhai pobl ddigartref yn wynebu anawsterau wrth geisio cael:

- Mynediad at Feddyg Teulu;
- Mynediad at wybodaeth;
- Cymorth os oes ganddynt broblem ymddygiad neu broblem personoliaeth;
- Sylw gan y gwasanaethau cymdeithasol;
- Cymorth i rai sydd â phroblem iechyd meddwl yn ogystal â phroblem gyffuriau neu alcohol. Mae'r gwasanaethau iechyd meddwl yn mynnu na allant drin unigolyn o'r fath cyn datrys y broblem gyffuriau/alcohol. Mae'r gwasanaethau cyffuriau/alcohol yn ystyried bod y broblem iechyd meddwl yn cyfrannu at y broblem gyffuriau/alcohol. O ganlyniad, mae'n anodd i'r unigolyn ddelio a'r problemau hynny cyn cael cymorth gyda'i broblem iechyd meddwl.

## SIR DDINBYCH

### 1. Amlder cysgu allan

Yn ôl yr adroddiad gan y Gwasanaeth Ymgynghorol Tai Anghenion Arbennig yng Nghymru a Shelter Cymru ym 1996 A Survey of Rough Sleepers in Wales March 1996, canfuwyd 17 o wahanol bobl yn cysgu allan yn y Rhyl ar 2, 3 a 4 Chwefror 1996. Yr oedd pob un o'r bobl hyn dan 25 oed.

Lletyodd lloches nos y Rhyl 80 o bobl ddigartref o 1 Rhagfyr 1997 hyd 22 Mawrth 1998. O'r rhain, dywedodd 70 eu bod wedi cysgu allan rhywdro yn ystod eu bywydau, ac yr oedd 58 wedi cysgu allan yn ystod y 12 mis blaenorol.

Lletyodd y lloches nos 76 o bobl o 1 Rhagfyr 1998 hyd 29 Mawrth 1999. Arhosodd rhai o'r bobl ar nifer o wahanol achlysuron, ac yr oedd adroddiad ar waith y lloches yn cynnwys ystadegau am ailymweliadau o'r fath. Golygai hynny fod 95 o arosiadau yn y lloches i'w dadansoddi, a chafwyd bod 21 o bobl yn dweud mai'r prif fath o 'lety' a fu ganddynt yn ystod y mis blaenorol oedd cysgu allan.

Trefnir rownd gawl ddwywaith yr wythnos gan Get it while you Can yn y Rhyl. Rhwng 1 Ebrill 1999 a 30 Mehefin 1999 daeth o hyd i 13 o bobl yn cysgu allan yn y Rhyl.

### 2. Achosion cysgu allan

Gan yr 17 y cyfeiriwyd atynt yn arolwg 1996 (gweler uchod), rhoddwyd y rhesymau canlynol dros gysgu allan:

- Analluj i fforddio llety (10 o bobl - 59%);
- Dim llety (4 o bobl - 24%);
- Problemau alcohol (1 person - 6%);
- Ddim yn gwybod pa lety sydd ar gael (1 person - 6%);
- Gwell ganddo gysgu allan (1 person - 6%).

Gan yr 80 o bobl a fu'n aros yn lloches nos y Rhyl o 1 Rhagfyr 1997 hyd 22 Mawrth 1998, rhoddwyd y rhesymau canlynol dros eu digartrefedd:

- Chwilio am waith (16 o bobl - 20%). dywedir mewn adroddiad ar waith y lloches nos: "nid yw hyn yn syndod oherwydd natur dymhorol prif fasnach y dref, sef twristiaeth. Sefydlwyd ers tro byd bod pobl yn teithio i'r ardal i chwilio am waith. Yr oedd hyn yn fwyaf amlwg yn y misoedd diweddaraf, Chwefror a Mawrth;"
- Anghydfod teuluol (12 o bobl - 15%);
- Problemau perthynas (11 o bobl - 14%);

- Troi allan o'u llety (11 o bobl - 14%). Dywedir yn yr adroddiad: "cafwyd yr argraff y gallai ffraeo ynghylch arian a defnyddio neu ddelio mewn cyffuriau, fod yn rheswm arwyddocaol dros droi pobl allan o'u llety, a thros ansefydlogrwydd byrdymor wrth geisio canfod a chynnal llety;"

- Rhyddhau o garchar (10 o bobl - 12.5%), sydd "yn tanlinellu'r anawsterau a'r diffyg cymorth i rai sy'n gadael carchar ac yn ceisio ailymuno ym mywyd y gymuned." Am gyfnod cyfyngedig yn unig y telir budd-dâl tai am lety unigolyn sydd yn y carchar. Gall hyn olygu y bydd wedi colli ei lety erbyn y daw allan, a hwyrach na fydd ganddo le i aros;

- Camddefnyddio cyffuriau;

- Ar eu ffordd trwodd;

- Erledigaeth;

- Trosglwyddo o hostel arall;

- Rhyddhau o'r ysbyty.

Y prif resymau dros ddigartrefedd y bobl a oedd yn aros yn lloches nos y Rhyl o 1 Rhagfyr 1998 i 29 Mawrth 1999, yn nhrefn ddisgynnol eu nifer, oedd:

- Problemau iechyd meddwl (weithiau ynghyd â phroblem alcohol, cyffuriau neu iechyd corfforol);

- Tor-perthynas;

- Teulu yn gwahanu;

- Rhyddhau o garchar;

- Problemau tenantiaeth;

- Gadael gofal seiciatrig;

- Trais domestig;

- Colli llety clwm;

- Gadael uned ddadwenwyno;

- Gamblo/tor-perthynas;

- Anghydfod gyda landlordes;

- Dull o fyw di-drefn;

- Dewis y dull hwn o fyw.

## 3. Enghreifftiau o'r gwasanaethau presennol

- Lloches nos y Rhyl sy'n darparu 8 gwely, gan gynnwys gwasanaeth adsefydlu. Yn ystod misoedd y gaeaf yn unig y mae'r lloches nos ar agor, ac fe'i rheolir gan y Gymdeithas Genedlaethol er Adsefydlu Troseddwyr (NACRO Cymru);

- Rownd gawl ddwywaith yr wythnos yn y Rhyl (rheolir gan Get It While You Can);

- Gwasanaeth Cymorth ac Adsefydlu Digartref y Rhyl a weinyddir gan y Gymdeithas Genedlaethol er Adsefydlu Troseddwyr (NACRO Cymru), o Ebrill tan Ragfyr, tra bo'r lloches nos ar gau;

- Cynllun bond (Bwrdd Bond Sir Ddinbych a weinyddir gan yr eglwysi lleol);

- Gwasanaeth cyngor ac eiriolaeth a reolir gan Shelter Cymru mewn nifer o drefi trwy Sir Ddinbych;

- Llochesau Cymorth i Fenywod;

- Gwasanaeth cymorth symudol i 5 o denantiaid Cymdeithas Tai Clwyd (16 i 25 oed).

## 4. Strategaethau i'r digartref neu'r di-do sengl

Nid oes strategaeth ysgrifenedig. Fodd bynnag, bwriedir datblygu Strategaeth Sir Ddinbych i'r Di-do, yn seiliedig ar waith lloches nos y Rhyl a'r gwasanaeth adsefydlu. Mae gan Sir Ddinbych ei Fforwm Tai, gyda chadeirydd o Adran Dai Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Ddinbych.

### 5. Pa wasanaethau a nodwyd sy'n absennol o'r ardal?

- Darpariaeth argyfwng mynediad uniongyrchol 24 awr sydd ar gael trwy gydol y flwyddyn;
- Rhagor o wasanaethau adsefydlu;
- Gwasanaeth cymorth i helpu pobl i gynnal eu tenantiaeth;
- Gwasanaeth cenhadol i rai sy'n cysgu allan, a allai ei helpu i gael mynediad at y gwasanaethau;
- Gwasanaeth yn ystod y dydd (e.e.canolfan ddydd / galw-heibio);
- Rhagor o lety symud-ymlaen i bobl sengl (llety cymdeithasau tai, yn benodol) mewn ardaloedd priodol ym mhob rhan o'r fwrdeistref;
- Darpariaeth i rai cysgwyr allan hirdymor sydd â dibyniaeth ar alcohol;
- Rhagor o wasanaethau cyngor;
- Rhagor o wybodaeth ar gysgu allan (e.e. trwy arolwg).

### 6. Materion eraill

- Mae'n anodd i bobl sydd â phroblem iechyd meddwl yn ogystal â phroblem gyffuriau / alcohol gael unrhyw gymorth gan y gwasanaethau iechyd meddwl na'r gwasanaethau cyffuriau / alcohol. Mae'r gwasanaethau iechyd meddwl, er enghraifft, yn dweud bod gan yr unigolyn broblem alcohol / cyffuriau a bod rhaid ei datrys gyntaf, tra bo darparwyr y gwasanaeth cyffuriau / alcohol yn dweud mai'r broblem iechyd meddwl ddylid ei datrys gyntaf. O ganlyniad, nid yw'r unigolyn yn derbyn fawr ddim cymorth gan y naill wasanaeth na'r llall;
- Gall mynediad at y gwasanaethau adsefydlu cyffuriau olygu aros rhwng 6 ac 8 wythnos. Yn ystod y cyfnod hwnnw, gall ambell un benderfynu nad yw amser bellach yn addas iddo fynd i'r afael â'i broblem, ac y mae'r cyfle i fanteisio ar yr union adeg wedi ei golli oherwydd yr oedi;
- Mae pobl gydag "anhwylder personoliaeth" yn wynebu anawsterau wrth geisio cymorth gan y gwasanaethau seiciatrig, gan nad yw eu cyflwr yn afiechyd meddwl a gydnabyddir;
- Yr oedd yn anodd i neb a oedd yn berchen ci gael mynediad i loches nos y gaeaf yn y Rhyl, yn ystod gaeaf 1998/99;
- Gall mynediad at dai cymdeithasol yn Sir Ddinbych fod yn anodd iawn, gan nad yw'r ffurflenni cais am dai yn caniatáu prosesu ymgeiswyr heb gyfeiriad;
- Byddai datblygu a gweithredu strategaeth gyd-drefnedig ar gyfer digartrefedd yn ddefnyddiol iawn;
- Gallai datblygu trefniadau cydweithio ffurfiol rhwng yr asiantaethau wella'r cysylltiadau rhyngddynt, a gwella'r gwasanaeth a gyflwynir i'r cleientiaid.

## SIR Y FFLINT

### 1. Amlder cysgu allan

Ni chynhaliwyd arolwg o amlder cysgu allan yn Sir y Fflint. Fodd bynnag, mae Shelter Cymru a'r awdurdod lleol ar y cyd yn bwriadu cynnal cipgyfrifiad ar ddwy noson tua diwedd 1999.

### 2. Achosion cysgu allan

Nid oedd gwybodaeth ar gael am achosion cysgu allan yn Sir y Fflint, gan na wyddys yn bendant a oes neb yn cysgu allan yn y fwrdeistref. Hwyrach y bydd yr arolwg y cyfeirir ato uchod yn datgelu rhywfaint o wybodaeth ansoddol am achosion cysgu allan.

### 3. Enghreifftiau o'r gwasanaethau presennol

- Cyngor tai a darperir gan shelter Cymru yn Nhreffynnon, Bwcle a Chei Connah;

- Hostel i 17 o bobl sengl ddigartref 16 i 25 oed yn Nhreffynnon. Mae'r mynediad trwy atgyfeirio yn unig. Darperir cymorth a gwasanaeth adsefydlu i bobl sy'n symud allan o'r hostel. Rheolir yr hostel (Llys Emlyn Williams) gan Gymdeithas Tai Clwyd Alyn;
- Cynllun tai pedwar gwely gyda chymorth i bobl ifainc sengl ddigartref ym Maes-glas ger Treffynnon, a reolir gan Gymdeithas Tai Clwyd Alyn;
- Llety dros dro, cymorth a chyngor i fenywod, a ddarperir gan Cymorth i Fenywod ac yng Nghei Connah a Threffynnon gan Gymdeithas Tai Hafan.

### 4. Strategaethau i'r digartref neu'r di-do sengl

Nid oes strategaeth ysgrifenedig. Fodd bynnag, gellir defnyddio'r wybodaeth o'r arolwg (gweler uchod) i ddatblygu strategaeth. Nid oes fforwm digartrefedd penodol i Sir y Fflint, ond mae yna gorff mwy cyffredinol, sef Fforwm Llety Gogledd Cymru, a fynychir gan gynrychiolydd o'r adran dai.

### 5. Pa wasanaethau a nodwyd sy'n absennol o'r ardal?

- Rhagor o dai cymdeithasol i unigolion sengl;
- Cynllun bond;
- Ymchwil i gysgu allan yn yr ardal;
- Llety argyfwng cyfnod-byr i bobl ifainc (cyffelyb i gynllun Nightstop Barnardo's);
- Llety argyfwng mynediad uniongyrchol i'r digartref sengl (o ddewis, mewn dwy dref) gydag oddeutu 6 gwely ym mhob cynllun;
- Rhagor o gymorth i bobl yn eu llety eu hunain;
- Paratoi plant ysgol yn well ar gyfer ymdopi yn eu llety eu hunain (gan drafod, er enghraifft, coginio, sgiliau cyllidebu, materion tenantiaeth).

### 6. Materion eraill

- Mae'n anodd i rai pobl gael asesiad gofal cymunedol gan y gwasanaethau cymdeithasol;
- Mae'n debyg y byddai angen newidiadau i Ddeddf Tai 1996, pe gwnaed ymdrech o ddifrif i ymosod ar ddigartrefedd sengl, er enghraifft trwy ehangu'r grŵp anghenion blaenoriaeth ymysg y rhai sy'n ddigartref yn ddifwriad;
- Mae pobl sydd 'heb gyfeiriad sefydlog' yn ei chael yn anodd i gofrestru, ar rai o'r rhestrau aros am dai (e.e. ni all pobl gofrestru eu henwau ar restr Cymdeithas Tai Clwyd Alyn heb fod ganddynt gyfeiriad);
- Byddai talu budd-daliadau yn wythnosol yn hytrach na phob pythefnos yn fuddiol iawn, yn enwedig i rai pobl ifainc, er mwyn eu helpu i gyllidebu yn fwy effeithiol;
- Mae peth amharodrwydd ymysg pobl yr ardal i symud o'u trefi eu hunain i ardaloedd eraill;
- Dylid cynllunio a pharatoi rhagor ar gyfer pobl ifainc sy'n gadael gofal, er mwyn gostwng y nifer sy'n ddigartref.

## GWYNEDD

### 1. Amlder cysgu allan

Yn ôl yr adroddiad gan y Gwasanaeth Ymgynghorol Tai Anghenion Arbennig yng Nghymru a Shelter Cymru ym 1996 A Survey of Rough Sleepers in Wales March 1996, ar 2, 3 a 4 Chwefror 1996 yr oedd 14 o bobl yn cysgu allan ym Mangor; ac ar 2, 3 a 5 Chwefror 1996 yr oedd 2 yn cysgu allan ym Mlaenau Ffestiniog.

Yr oedd yr adroddiad gan Shelter Cymru a Chyngor Gwynedd ym 1997, Cysgu Allan: Pwnc Perthnasol i Gefn Gwlad? yn ymdrin â chyfrif pennau yn ystod y nos unwaith yr

wythnos dros ddeng wythnos. Canfuwyd 38 o wahanol bobl yn cysgu allan yng Ngwynedd. Yr oedd 44 digwyddiad positif o bobl yn cysgu allan, ond dyblygiadau oedd 6 o'r rheini. Y trefi lle y cafwyd pobl yn cysgu allan oedd Bangor (30 digwyddiad), Caernarfon (10 digwyddiad) a Phwllheli (4 digwyddiad). Chwiliwyd mewn pum tref arall, heb ganfod neb.

Yr oedd yr adroddiad gan Cywaith Joseff a Chyngor Gwynedd ym 1998, Cysgu Allan 1998 - Diweddariad yn ymdrin â chyfrif pennau yn ystod y nos unwaith neu ddwywaith yr wythnos dros ddeng wythnos. Canfu'r arolwg fod 34 o bobl yn cysgu allan (23 ym Mangor ac 11 yng Nghaernarfon). Yn ychwanegol, lletywyd 12 o bobl gan gynllun peilot galw-heibio, a oedd yn rhedeg ochr yn ochr â'r cyfrifiad.

Yn ystod y cyfnod 21 Rhagfyr 1998 i 4 Ebrill 1999, lletywyd 50 o wahanol bobl yn lloches nos y Santes Fair ym Mangor, 29 ohonynt wedi bod yn cysgu allan gynt.

Trefnir rownd gawl ddwywaith yr wythnos ym Mangor gan Get It While You Can. Rhwng 1 Ebrill 1999 a 30 Mehefin 1999 daeth o hyd i 12 o bobl yn cysgu allan ym Mangor.

## 2. Achosion cysgu allan

- Tor-perthynas;
- Colli llety oherwydd analluu i ymdopi;
- Gorchymyn pobl ifainc i adael cartref oherwydd tlodi yn y teulu;
- Problemau iechyd meddwl yn arwain at anallu i ymdopi;
- Rhai pobl ifainc yn gadael gofal y gwasanaethau cymdeithasol heb baratoad a chynllunio digonol;
- Rhai pobl yn gadael carchar heb lety i fynd iddo;
- Prinder llety;
- Anallu i fforddio llety.

## 3. Enghreifftiau o'r gwasanaethau presennol

- Rownd gawl yng Nghaernarfon a weinyddir gan yr Eglwys Bentecostaidd;
- Rownd gawl ym Mangor ddwywaith yr wythnos, gan Get It While You Can;
- Mae Grŵp Ieuenctid Sengl Arfon (GISDA) yn gweithio gyda rhai 16-25 oed, gan ddarparu: cynllun mynediad uniongyrchol i'r grŵp oedran hwn yng Nghaernarfon; un cynllun mynediad uniongyrchol 4 gwely a 4 gwely symud-ymlaen i bobl ifainc ym Mlaenau Ffestiniog; cymorth i bobl ar ôl symud i lety mwy annibynnol; gwasanaeth galw-heibio i bobl ifainc ym Meirionnydd a Dwyfor; a llinell gymorth 24 awr;
- Mae Cymdeithas Tai Gogledd Cymru yn darparu lloches nos 5 gwely ym Mangor, hostel 7 gwely (Pendinas) yn bennaf i bobl ifainc ym Mangor (mynediad trwy atgyfeirio) a nifer o dai a fflatiau lle y darperir cymorth gan staff;
- Mae gan Gymdeithas Tai Eryri hostel (atgyfeirio yn unig) gyda 6 gwely ym Mhwllheli, sydd yn bennaf ar gyfer pobl gyda phroblemau iechyd meddwl, a 6 gwely symud-ymlaen allan o'r cynllun hwn. Ym Mangor mae gan y Gymdeithas hostel adfer dros dro i rai sydd â phroblemau alcohol, a reolir mewn partneriaeth gyda Gwasanaethau Gwybodaeth y Cyngor Alcohol, a hostel i gyn-droseddwyr a reolir mewn partneriaeth gyda'r Gymdeithas Genedlaethol er Adsefydlu Troseddwyr (NACRO Cymru);
- Cynllun Cymorth i Fenywod ym Mlaenau Ffestiniog i fenywod sy'n dianc rhag trais domestig;
- Mae Sylfaen (Cymdeithas y Plant) yng Nghaernarfon yn gweithio gyda phobl ifainc i'w helpu gyda mynediad at wasanaethau, yn cefnogi pobl ifainc yn eu llety, a gallant eiriol ar ran pobl ifainc;

- Gwasanaeth cenhadol i bobl sy'n cysgu allan, yn bennaf ym Mangor a Chaernarfon, a weinyddir gan Cywaith Joseff;
- Cynllun gwarantu rhent/bond a elwir "Agorfa" a reolir gan Cywaith Joseff.

## 4. Strategaethau i'r digartref neu'r di-do sengl

Nid oes strategaeth ysgrifenedig. Fodd bynnag, mae yna grŵp amlasiantaeth sy'n cyfarfod i drafod y ffordd ymlaen mewn perthynas â digartrefedd yng Ngwynedd. Mae'n cwmpasu'r awdurdod lleol a llawer o'r mudiadau y cyfeirir atynt uchod; ac y mae'n ymddangos yn gorff priodol i ddyfeisio strategaeth. Hwyrach y byddai'n briodol cael cynrychiolaeth i gyrff eraill hefyd yn y grŵp hwn, e.e. yr awdurdod iechyd. Gall arolygon 1997 a 1998, a'r cyrff sy'n cynnal y gwasanaethau ar hyn o bryd, ddarparu gwybodaeth werthfawr y gellid ei defnyddio i ddatblygu strategaeth.

## 5. Pa wasanaethau a nodwyd sy'n absennol o'r ardal?

Mae Cysgu Allan 1998 - Diweddariad yn argymell y canlynol:

- "Darparu hostel mynediad uniongyrchol gyda lle i o leiaf 6 neu 8 gwely;
- Darparu rhagor o lety symud-ymlaen, a allai fod ar gael i bobl sy'n gadael y ddarpariaeth yn Pendinas, GISDA a'r hostelau uniongyrchol;
- Sefydlu cynllun llety argyfwng i bobl ifainc, wedi ei fodelu hwyrach ar 'Nightstop' " (llety a ddarperir dros dro yng nghartrefi gwirfoddolwyr). "Byddai hyn yn diddymu'r angen i bobl ifainc gysgu allan tra'n ceisio cael llety gydag asiantaethau eraill fel GISDA neu Pendinas;
- Datblygu canolfan ddydd gyda chyfleusterau i gynnig help ymarferol gyda golchi, bwyd, dillad etc, cyngor un wrth un, a chymorth, yn ogystal â bod yn fan canolog i gyd-drefnu atgyfeiriadau a gweithdrefnau;
- Darparu cymorth rhyngasiantaethol a gweithwyr adsefydlu a all baratoi cynlluniau adsefydlu cyfannol, gan gymryd i ystyriaeth anghenion cymorth yr unigolyn yn ogystal â'i ddymuniadau;"
- Cymorth i bobl sy'n denantiaid i'r cyngor ac i landlordiaid preifat;
- Rhagor o lety fforddiadwy o ansawdd da i bobl sengl yn yr ardaloedd priodol.

## 6. Materion eraill

- Mae'n anodd i bobl ddigartref gael mynediad at Feddygon Teulu, deintyddion a gwasanaethau iechyd eraill;
- Gellid gwella'r trefniadau dilyniant gofal i bobl sy'n gadael ysbytai seiciatrig;
- Mae'n anodd iawn i neb sy'n defnyddio cyffuriau anghyfreithlon gael mynediad at y gwasanaethau iechyd meddwl;
- Mae angen gwell cymorth ar bobl ifainc sy'n paratoi i adael gofal yr awdurdod lleol, a dilyniant cymorth mwy effeithiol ar ôl gadael;
- Nid yw'r paratoad yn ddigonol ar gyfer rhyddhau pobl o garchar, ac o ganlyniad mae rhai yn wynebu digartrefedd yn fuan iawn ar ôl eu rhyddhau;
- Byddai'n fuddiol, fel ffordd o atal digartrefedd, asesu tenantiaid yn well ar ddechrau'r denantiaeth er mwyn adnabod eu hanghenion o ran cymorth;
- Gallai'r adran dai sicrhau bod staff hyfforddedig ar gael ym mhob swyddfa dai i gymryd ceisiadau digartrefedd, a'u hasesu i weld a oes gofyn eu hatgyfeirio i gyrff priodol eraill;
- Dylid ymdrin â chwestiwn unigrwydd yn achos rhai pobl ifainc sy'n byw ar eu pen eu hunain;

- Mae cyllido gyda chyfyngiad amser o dair blynedd yn ei gwneud yn anodd i drefnu gwasanaethau dros dymor hir;
- Byddai'n fuddiol pe bai modd i gleient ymweld ag unrhyw un o asiantaethau'r sector gwirfoddol a chael mynediad at wasanaethau unrhyw asiantaeth arall, trwy'r pwynt cyswllt cyntaf hwnnw;
- Gallai'r awdurdod lleol sefydlu partneriaethau gyda'r sector gwirfoddol er mwyn hwyluso trefniadau atgyfeirio cywir a safonedig, rhwng y darpariaethau i'r digartref yn y sector gwirfoddol a'r statudol.

## YNYS MÔN

### 1. Amlder cysgu allan

Yn ôl yr adroddiad gan y Gwasanaeth Ymgynghorol Tai Anghenion Arbennig yng Nghymru a Shelter Cymru ym 1996 A Survey of Rough Sleepers in Wales March 1996, yr oedd 6 o bobl yn cysgu allan yng Nghaergybi ar nosweithiau 1, 3 a 5 Ionawr 1996, sef 5 o ddynion ac 1 fenyw. Yr oedd un yn y grŵp oedran 16-17, dau ohonynt yn 18-25, un yn 25-34, un yn 35-54 ac un dros 55.

Ni chynhaliwyd unrhyw arolwg pellach er hynny

Yr oedd yr adran dai yn ymwybodol bod nifer fach o bobl ifainc yn cysgu allan yn Llangefni yn Ionawr 1999. Credid bod gan rai o'r bobl hynny broblemau yn gysylltiedig â defnyddio cyffuriau

### 2. Achosion cysgu allan

Enwyd 8 o wahanol resymau yn arolwg 1996 (gweler uchod). Yr oedd 4 wedi enwi prinder llety; nid oedd 3 yn hoff o'r llety a oedd ar gael; yr oedd 2 wedi enwi problemau seiciatrig; 1 yn methu â fforddio llety; 1 yn cyfeirio at broblemau iechyd; 1 yn sôn am broblemau gyda chyffuriau; 1 yn sôn am ei anhawster i setlo i lawr; ac 1 yn cyfeirio at anawsterau ynglŷn â budd-dâl tai.

Ystyrir mai'r prif broblemau ar hyn o bryd yw:

- Chwalfa deuluol (yn enwedig ymysg pobl ifainc);
- Tlodi (e.e. oherwydd diweithdra hirdymor, a'r cyfyngu presennol ar fudd-dâl tai at rent ystafelloedd i rai sengl dan 25 oed);
- Anhawster i ddod o hyd i'r arian bond er mwyn symud i mewn i lety preifat ar rent.

### 3. Enghreifftiau o'r gwasanaethau presennol

- Cynllun tai gyda chymorth, dau wely, i bobl ifainc sengl ddigartref (oed 16-25) yng Nghaergybi, a reolir gan Digartref Ynys Môn. Mae'r mynediad trwy atgyfeirio. Cynllunnir i gynyddu'r ddarpariaeth hon i 8 gwely erbyn 2000, gyda'r posibilrwydd o ychwanegu pedwar byngalo gyda dwy ystafell wely, y gellid eu defnyddio fel llety symud-ymlaen;
- Fflatiau hunangynhwysol dros dro gyda chymorth i gyn-droseddwyr yng Nghaergybi, a reolir gan y Gymdeithas Genedlaethol er Adsefydlu Troseddwyr (NACRO Cymru), a fflatiau gyda chymorth ar gyfer symud ymlaen o'r cynllun hwn;
- Canolfannau cynghori a weinyddir gan y Ganolfan Gynghori, Gwasanaeth Ymgynghorol digartrefedd yr Ifanc, a Chanolfan Gweithwyr Di-waith Caergybi;
- Mae'r Ganolfan Gynghori a Phrosiect Lydia yng Nghaergybi yn ymweld ag ysgolion i annerch ar dai a digartrefedd.

### 4. Strategaethau i'r digartref neu'r di-do sengl

Nid oes strategaeth ysgrifenedig benodol. Mae Fforwm Tai a Gofal Cymdeithasol Ynys Môn yn cyfarfod tuag unwaith bob 6 mis i drafod anghenion tai'r presennol a'r dyfodol. Y Fforwm yw'r prif gorff ymgynghorol ynglŷn â'r Strategaeth a Chynllun Gweithredol Tai.

5. Pa wasanaethau a nodwyd sy'n absennol o'r ardal?

- Llety argyfwng i rai 16-25 oed (e.e. a fodelir ar gynllun 'Nightstop' Barnardo's, sy'n lletya pobl ifainc dros nos gyda theuluoedd gwirfoddolwyr);
- Llety argyfwng i bobl ddigartref dros 25 oed;
- Gwaith cenhadol, i helpu pobl i gael mynediad at wasanaethau;
- Cynllun bond (hwyrach bod angen, er bod un cynllun bond a oedd ar gael wedi cau ym 1998);
- Rhagor o ddarpariaeth i rai sy'n wynebu problemau cyffuriau (a ystyrid yn faes lle yr oedd yr angen yn cynyddu);
- Cymorth ymarferol, megis bwyd, dillad etc.;
- Llyfryn gwybodaeth neu gyfeiriadur gwasanaethau (y gallai'r digartref a'r asiantaethau ei ddefnyddio) sy'n amlinellu'r cymorth a'r gwasanaethau ar gael i'r digartref.

6. Materion eraill

- Gallai newid y cyfyngiadau presennol ar daliadau budd-dâl tai i bobl ifainc helpu i ostwng digartrefedd.

## MERTHYR TUDFUL

### 1. Amlder cysgu allan

Yn ôl yr adroddiad gan y Gwasanaeth Ymgynghorol Tai Anghenion Arbennig yng Nghymru a Shelter Cymru ym 1996 A Survey of Rough Sleepers in Wales March 1996, ar 1, 2, 3 a 4 Chwefror 1996 cafwyd bob 16 o wahanol bobl yn cysgu allan ym Merthyr Tudful. Dynion oedd pob un, ac yr oedd 12 ohonynt yn y grŵp oedran 16 - 24.

Yn ôl adroddiad Opinion Research Services Cyf (Prifysgol Cymru Abertawe) ym 1997 Housing Needs in Merthyr Tydfil Homelessness and Rooflessness, ar y nosweithiau 23, 24 a 25 Hydref 1997:

- cafwyd 1 person yn cysgu allan;
- cafwyd adroddiad am 1 person a oedd yn cysgu allan; a
- dywedodd 1 person a gyfwelwyd ar gyfer rhan arall o'r ymchwil ei fod wedi cysgu allan yn ystod y cyfnod dan sylw.

Yn ystod yr ymchwil hwn hefyd, bu pob un o'r asiantaethau yn Fforwm Digartrefedd sengl Merthyr yn llenwi holiaduron gyda'r bobl a ddaeth gerbron fel rhai digartref neu'n cysgu allan ym Medi 1997. Allan o'r 43 holiadur a lanwyd, dywedodd 10 o bobl eu bod wedi cysgu allan rhywdro neu'i gilydd pan nad oedd dewis arall; ac allan o 1500 o atebwyr yr arolwg anghenion tai, yr oedd 5 ohonynt lle yr oedd un o'r preswylwyr yn y tŷ wedi cysgu allan rhywdro.

Rhwng 1 Ebrill 1998 ac 1 Mawrth 1999, derbyniodd y mudiad gwirfoddol ADREF 77 o atgyfeiriadau gan swyddogion prawf, i'w gymhorthfa cyngor tai a gynhelir unwaith yr wythnos ym Merthyr Tudful. Yr oedd pump o'r atgyfeiriadau hyn ar gyfer rhai a oedd yn cysgu allan. Dynion oedd pob un, yn y grŵp oedran 18-25. Yr oeddynt i gyd wedi bod yn ddigartref am lai na phythefnos pan ddaethant at ADREF, a'r cyfnod cyfartalog oedd 4 diwrnod.

### 2. Achosion cysgu allan

Yn yr arolwg 1996, nodwyd y canlynol fel achosion cysgu allan:

- Anallu i fforddio llety (nodwyd 13 gwaith);
- Anawsterau oherwydd problemau alcohol (nodwyd 8 gwaith);
- Anawsterau oherwydd problemau cyffuriau (nodwyd 8 gwaith);
- Chwalfa deuluol/ tor-perthynas (nodwyd ddwywaith).

Canfu arolwg 1997 mai prif achosion digartrefedd oedd tor-perthynas; gadael cartref y rhieni; gorfodi i adael / troi allan / prinder lle; ac aflonyddu. Cafwyd bod cysgu allan yn digwydd "o ganlyniad i argyfwng pan fo unigolyn yn cael ei hunan yn ddigartref yn sydyn ac yn annisgwyl. Pan ddigwydd hyn, ac na ellir dod o hyd i lety dros dro gyda pherthynas neu gyfaill, canfu'r arolwg fod pobl yn cysgu allan tra'n chwilio am gymorth. Mae peth tystiolaeth o gysgu allan hirdymor neu barhaus yn ardal Merthyr, sy'n cyd-ddigwydd â chaethiwed i alcohol neu gyffuriau, er na wyddys a yw'r caethiwed hwnnw yn achos neu'n ganlyniad y math hwn o gysgu allan parhaus. Mewn un achos mae'n ymddangos bod yr unigolyn a oedd yn cysgu allan wedi dioddef oherwydd methiant ei rieni dros gyfnod hir, a methiant nifer o asiantaethau i roi iddo'r cyngor a'r cymorth a oedd yn ofynnol."

Yng Nghymhorthfa tai ADREF, rhwng 1 Ebrill 1998 ac 1 Mawrth 1999, canfuwyd bod gan 4 o'r 5 a oedd yn cysgu allan un ai broblem iechyd meddwl neu anhawster dysgu / anfantais feddyliol

### 3. Enghreifftiau o'r gwasanaethau presennol

- Cynllun bond a weinyddir gan Barnardo's;
- Gwasanaethau cyngor tai rhan amser a weinyddir gan ADREF (i gleientiaid y gwasanaeth prawf) a Shelter Cymru;
- Gwasanaeth cymorth symudol i denantiaid y gwasanaeth prawf, a reolir gan ADREF ynghyd â Chymdeithas Tai Merthyr Tudful a'r gwasanaeth prawf;
- Gwasanaeth cymorth symudol a llety i'w rannu gyda chymorth, i bobl gyda phroblemau iechyd meddwl, a reolir gan Ymddiriedolaeth Tai Gofal;
- Tai gyda chymorth i bobl ddigartref sengl, mewn tri thŷ gyda dwy ystafell wely. Gweinyddir y rhain fel cynllun peilot ar hyn o bryd, gan letya a rhoi cymorth un person ym mhob tŷ.

### 4. Strategaethau i'r digartref neu'r di-do sengl

Mae gan Merthyr Tudful ei Single Persons Homeless Strategy 1998/2000, a ysgrifennwyd gan Fforwm Tai Pobl Sengl Merthyr. Mae'r corff hwnnw yn cynnwys cynrychiolwyr 15 o gyrff (gan gynnwys cymdeithasau tai, ymddiriedolaethau iechyd, yr awdurdod lleol ac amrywiaeth o gyrff gwirfoddol sy'n gweithio gyda phobl ifainc).

### 5. Pa wasanaethau a nodwyd sy'n absennol o'r ardal?

Mae'r Strategaeth Ddigartrefedd Pobl Sengl wedi nodi nifer o fylchau yn y ddarpariaeth, ac ar hyn o bryd, gweithredir i ddiwallu'r canlynol:

- Llety argyfwng mynediad uniongyrchol;
- Ehangu prosiect y tri thŷ dwy ystafell wely gyda chymorth (a nodir uchod) i ddarparu llety gyda chymorth ar gyfer 8-10 o bobl;
- Cynllun llety gyda chymorth;
- Rhagor o lety addas ar gyfer symud ymlaen o'r cynlluniau llety gyda chymorth;
- Trawsnewid llety arbenigol, pan fo'r galw amdano yn brin, i ddarparu llety i bobl ifainc ddigartref sengl;
- Prosiectau cymunedol ym mhen isaf dyffryn Merthyr (megis grwpiau ieuenctid).

Nodwyd hefyd bod angen y gwasanaethau hyn:

- Canolfan gyngor tai annibynnol;
- Gwasanaethau adsefydlu a chymorth;
- Rhagor o gymorth i bobl gyda phroblem gyffuriau neu alcohol;

- Ehangu cynllun bond Barnardo's gan gynnig gwarantau ychwanegol, a fydd yn helpu pobl i gael mynediad i lety preifat ar rent.

### 6. Materion eraill

- Mynegwyd pryder a yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau llawn yn unol â Deddf Plant 1989.

## SIR FYNWY

### 1. Amlder cysgu allan

Ym 1999 cynhaliodd yr awdurdod lleol arolwg, a gofnodir yn adroddiad Gweithredu Dros Ddigartref Sengl Casnewydd, Single Homelessness and Rough Sleeping in the Counties of Newport, Caerphilly, Monmouthshire, Blaenau Gwent and Torfaen Snapshot Surveys: Summer 1998 and Winter 1998/99. Yr oedd yn cynnwys ciparolwg 3 noson o'r bobl oedd yn cysgu allan yng Nghas-gwent, Caldicot, Y Fenni a Threfynwy. Ni ddaethpwyd o hyd i neb yn cysgu allan, er bod tystiolaeth ddibynadwy yn honni bod tri o bobl o leiaf yn debyg o fod yn cysgu allan yn ystod un neu ragor o nosweithiau'r arolwg.

Lletywyd 15 o wahanol bobl mewn lloches nos a oedd yn agored yn y Fenni rhwng 25 Rhagfyr 1998 a 31 Mawrth 1999. Arhosodd dau, a fu'n cysgu allan am flynyddoedd lawer yn yr ardal, yn y lloches bron drwy gydol y cyfnod hwn.

### 2. Achosion cysgu allan

- Tor-perthynas;
- Problemau iechyd meddwl;
- Problemau alcohol;
- Anallu i ganfod llety addas.

### 3. Enghreifftiau o'r gwasanaethau presennol

- Cynllun bond a elwir RightMove ac a weinyddir gan yr awdurdod lleol;
- Llety argyfwng dros nos (am ddim rhagor na 3 wythnos fel arfer) yn Nhrefynwy i rai 16 - 25 oed mewn tŷ 3 ystafell wely, ac yn achlysurol yng nghartrefi gwirfoddolwyr. Mynediad trwy atgyfeirio. Enw'r cynllun yw StopOver, ac fe'i gweinyddir ar sail wirfoddol gan y mudiad Churches Together yn Nhrefynwy;
- Cyngor ynghylch tai a ddarperir gan yr awdurdod lleol yn ei swyddfeydd tai yn y Fenni, Trefynwy, Cas-gwent a Caldicot;
- Llety i'w rannu gyda chymorth i bobl gyda phroblemau iechyd meddwl yn y Fenni, a reolir gan MIND;
- Yr oedd lloches nos yn agored yn y Fenni o 25 Rhagfyr hyd 31 Mawrth 1999.

### 4. Strategaethau i'r digartref neu'r di-do sengl

Nid oes strategaeth ysgrifenedig. Fodd bynnag, mae'r awdurdod lleol yn bwriadu datblygu strategaeth a fydd yn cymryd i ystyriaeth y wybodaeth a ddarparwyd gan y lloches nos yn y Fenni.

### 5. Pa wasanaethau a nodwyd sy'n absennol o'r ardal?

- Hwyrach rhyw fath o lety argyfwng ar raddfa fechan mewn ychydig o drefi yn yr ardal;
- Hwyrach darparu lloches nos yn y Fenni, gyda'r posibilrwydd yn y tymor hir y gellir cael darpariaeth mynediad uniongyrchol 24 awr;
- Gwasanaeth adsefydlu a chymorth;
- Rhagor o dai fforddiadwy, o ansawdd da, i bobl sengl yn yr ardaloedd priodol.

### 6. Materion eraill

- Hoffai'r awdurdod lleol gael mwy o wybodaeth am niferoedd ac anghenion y digartref sengl a'r rhai sy'n cysgu allan, er mwyn pennu pa wasanaethau yw'r mwyaf addas i'w darparu;

- Cryfhawyd yr achos dros ryw fath o lety argyfwng yn y Fenni, gan y canfyddiadau o'r lloches nos yn y dref yn ystod gaeaf 1998/99;

- Nododd y lloches nos y gall fod yn anodd iawn i rai sy'n cysgu allan gael mynediad at Feddyg Teulu, a gofal iechyd yn gyffredinol. Hwyrach na all ambell un drefnu i weld Meddyg Teulu, heb gymorth eiriolwr.

## CASTELL-NEDD A PHORT TALBOT

### 1. Amlder cysgu allan

Ni wnaed unrhyw arolwg penodol o gysgu allan yn y fwrdeistref, a phrin yw'r wybodaeth sydd ar gael am amlder cysgu allan. Rhwng 1 Ebrill 1998 a 22 Tachwedd 1998, yr oedd Dewis, y gwasanaeth cynghori ym Mhort Talbot, yn gwybod am un cleient a fu'n cysgu allan, a phedwar arall y credent oedd yn cysgu allan.

Mae Cymdeithas Caer Las yn comisiynu prosiect ymchwil i anghenion tai a chymorth pobl a fu'n ddigartref yn ddiweddar, neu sy'n ddigartref ar hyn o bryd, ym mwrdeistref Castell-nedd a Phort Talbot. Disgwylir y bydd yr ymchwil hwn wedi ei gwblhau erbyn yr hydref 2000, ac y byd yn cyfleu gwybodaeth feintiol ac ansoddol am ddigartrefedd a chysgu allan yn y fwrdeistref

### 2. Achosion cysgu allan

- Tor-perthynas teuluol, yn gysylltiedig yn aml â chwestiwn cyffuriau yn achos pobl ifainc;

- Gall rhai pobl ifainc, a ryddheir o garchar heb unman i fyw, aros dros dro gyda chyfeillion, ond daw amser pan na chânt aros yno yn hwy, ac ni fydd ganddynt ddewis wedyn ond cysgu allan;

- Troi allan o lety;

- Ôl-ddyled o rent yn achosi i unigolyn gael ei droi allan, neu adael ei lety yn wirfoddol;

- Gorchmynnir rhai pobl ifainc i adael eu cartref oherwydd na all eu rhieni fforddio i ofalu amdanynt.

### 3. Enghreifftiau o'r gwasanaethau presennol

- Hostel 13 gwely yr YMCA i ddynion oed 16-25 ym Mhort Talbot;

- Cynllun bond ym Mhort Talbot a reolir gan Dewis;

- Gwasanaeth cynghori (gan gynnwys cyngor tai) ym Mhort Talbot, a weinyddir gan Dewis;

- Tri thŷ i'w rhannu gyda chymorth, ar gael i'r digartref sengl, a reolir gan Gymdeithas Caer Las;

- Llety dros dro mewn fflatiau ac ystafelloedd byw a chysgu a reolir gan Dewis;

- Gwasanaethau Cymorth i Fenywod ym Mhort Talbot, Castell-nedd a Phontardawe.

### 4. Strategaethau i'r digartref neu'r di-do sengl

Nid oes strategaeth ysgrifenedig. Fodd bynnag, dylai'r wybodaeth a ddarperir gan brosiect ymchwil Cymdeithas Caer Las gyfrannu at ddatblygu strategaeth briodol.

### 5. Pa wasanaethau a nodwyd sy'n absennol o'r ardal?

- Llety argyfwng mynediad uniongyrchol 24 awr;

- Tŷ gwlyb i rai gyda phroblemau alcohol;

- Gwasanaethau adsefydlu a chymorth i rai sy'n symud i mewn i lety annibynnol;

- Cymorth i rai sy'n byw mewn llety o eiddo'r awdurdod lleol ac mewn llety preifat;
- Llety gyda lefel uchel o gymorth i bobl gyda phroblem cyffuriau;
- Cynllun cofrestru i landlordiaid preifat ym Mhort Talbot;
- Rhagor o lety fforddiadwy o ansawdd da i bobl sengl yn yr ardaloedd priodol.

### 6. Materion eraill

- Mae'n anodd i bobl gydag anhwylderau personoliaeth neu broblemau ymddygiad gael cymorth. Ni wneir diagnosis o broblem iechyd meddwl, ac felly nid ydynt o fewn maes y gwasanaethau iechyd meddwl nac unrhyw wasanaethau eraill;
- Gall fod yn anodd cael cymorth i rai 16/17 oed, sydd tu allan i gyfrifoldeb y gwasanaethau cymdeithasol;
- Mae'n anodd yn aml i rai sydd ag anawsterau mewn dau neu ragor o'r meysydd iechyd meddwl, alcohol a chyffuriau gael cymorth gan yr asiantaethau iechyd meddwl, cyffuriau nac alcohol;
- Gall cymorth gweithiwr cymdeithasol fod yn anodd i'w gael i bobl sydd â'u hanghenion yn cwmpasu mwy nag un maes (e.e. gall person gyda gweithiwr cymdeithasol 'plentyn a theulu' ei chael yn anodd i gael gweithiwr cymdeithasol o'r tîm iechyd meddwl yr un pryd);
- Gall fod yn anodd i'r digartref gofrestru gyda Meddyg Teulu;
- Ni all unigolyn sy'n cysgu allan (ac felly heb gyfeiriad sefydlog) gael ei enw ar restr aros adran tai yr awdurdod lleol, ac felly ni all ddefnyddio'r llwybr hwnnw i'w ailgartrefu gan yr awdurdod;
- Os yw unigolyn, sydd heb gyfeiriad sefydlog, yn symud oddi ar lawr un cyfaill i gysgu ar lawr un arall, gall hynny ei gwneud yn anos i'w ailgartrefu, gan fod rhaid llenwi ffurflen newydd bob tro y mae'n symud, a bydd hefyd yn anodd cysylltu ag ef, etc.

Credid bod angen y dogfennau canlynol yn yr ardal hon:

- Strategaeth i'r digartref sengl;
- Strategaeth symud-ymlaen;
- Strategaeth i'r ifanc digartref.

## CASNEWYDD

### 1. Amlder cysgu allan

Yn ôl yr adroddiad gan y Gwasanaeth Ymgynghorol Tai Anghenion Arbennig yng Nghymru a Shelter Cymru ym 1996 A Survey of Rough Sleepers in Wales March 1996, canfuwyd 6 o wahanol bobl yn cysgu allan yng Nghasnewydd ar 1, 2 a 4 Chwefror 1996.

Yn yr adroddiad gan Gweithredu Dros Ddigartref Sengl Casnewydd, Single Homelessness and Rough Sleeping in the Counties of Newport, Caerphilly, Monmouthshire, Blaenau Gwent and Torfaen Snapshot Surveys: Summer 1998 and Winter 1998/99, canfuwyd:

- 13 o wahanol bobl yn cysgu allan yng Nghasnewydd ar 27, 28 a 29 Awst 1998;
- 5 o wahanol bobl yn cysgu allan yng Nghasnewydd ar 24, 28 Ionawr a 2 Chwefror 1999. Canfuwyd un person yn cysgu allan yn y ddau arolwg, ym mis Awst ac yn Ionawr/Chwefror.

Gall cynllun mynediad uniongyrchol Gweithredu Dros Ddigartref Sengl Casnewydd letya 12 o bobl sengl ddigartref. Allan o'r 133 a letywyd rhwng 1 Ebrill 1998 a 31 Mawrth 1999, yr oedd 29 wedi cysgu allan neu wedi aros mewn sgwat y noson cyn iddynt symud i mewn i'r cynllun.

## 2. Achosion cysgu allan

Yn yr arolygon a nodir uchod a'r wybodaeth a gasglwyd mewn perthynas â chynllun mynediad uniongyrchol Gweithredu Dros Ddigartref Sengl Casnewydd, canfuwyd yr achosion canlynol dros gysgu allan:

- Diffyg gwybodaeth am y llety sydd ar gael;
- Ddim yn hoff o'r llety sydd ar gael;
- Analluí i fforddio llety;
- Troi allan o lety;
- Methu ag ymdopi yn y llety blaenorol (e.e. ôl-ddyled o rent wedi cronni oherwydd problemau ynglŷn â hawliad budd-dâl tai);
- Gwaharddwyd o hostelau;
- Tor-perthynas (e.e. gwahanu oddi wrth bartner yn achos pobl hŷn; neu adael cartref yn dilyn trafferthion gyda rhiant neu lys-riant yn achos pobl ifainc);
- Cais i adael llety perthnasau neu gyfeillion;
- Rhyddhau o garchar;
- Dewis cysgu allan;
- Wedi dianc o ofal;
- Cam-drin yn rhywiol neu'n gorfforol.

## 3. Enghreifftiau o'r gwasanaethau presennol

Mae Gweithredu Dros Ddigartref Sengl Casnewydd yn darparu'r gwasanaethau canlynol yng Nghasnewydd:

- Cynllun mynediad uniongyrchol (12 gwely);
- Gwasanaeth adsefydlu;
- Hostel 7 gwely i ddarparu llety symud-ymlaen dros dro, i'r bobl a fu'n byw yn y cynllun mynediad uniongyrchol;
- Hostel 26 gwely i'r digartref sengl sydd ag anghenion arbennig (pobl gyda phroblem iechyd meddwl yn bennaf);
- 2 dŷ i'w rhannu gyda staff, yn darparu llety dros dro (4 gwely bob un);
- 1 tŷ i'w rannu yn darparu llety parhaol (4 gwely);
- Cynllun bond.

Mae'r gwasanaethau eraill yng Nghasnewydd yn cynnwys:

- Cymorth a llety i blant digartref sydd wedi 'dianc', a weinyddir gan Brosiect y Porth;
- Gwasanaeth galw-heibio sy'n darparu, er enghraifft, prydau bwyd a dillad gan Caring Hands (sy'n gysylltiedig ag Eglwys King's, Casnewydd);
- Rownd gawl yn ystod y dydd unwaith yr wythnos (Caring Hands);
- Cynllun bond i gleientiaid y gwasanaeth prawf, a reolir gan Gymdeithas Tai Trothwy;
- Cyngor tai, a ddarperir gan yr awdurdod lleol;
- Hostel a gwasanaeth cymorth symudol i gleientiaid y gwasanaeth prawf a chyn-droseddwyr, a reolir gan Gymdeithas Tai Trothwy;
- Prosiect tai gyda chymorth dwys i ddefnyddwyr alcohol a chyffuriau, a elwir y prosiect "In2change", a reolir gan Gymdeithas Tai Trothwy.

## 4. Strategaethau i'r digartref neu'r di-do sengl

Nid oes strategaeth ysgrifenedig. Mae yna Grŵp Tai Anghenion Arbennig amlasiantaeth, a allai fod yn gorff priodol i ddatblygu strategaeth.

## 5. Pa wasanaethau a nodwyd sy'n absennol o'r ardal?

- Gwaith cenhadol er mwyn dod i gysylltiad â phobl sy'n cysgu allan a'u helpu i gael mynediad at wasanaethau, os yn briodol;
- Canolfan ddydd;

- Cymorth symudol i rai pobl sy'n byw mewn llety preifat neu lety sy'n eiddo i'r cyngor;
- Amrywiaeth ehangach o ddarpariaeth i bobl gyda phroblemau alcohol, gan gynnwys 'tŷ gwlyb' (hwyrach ar yr un telerau â'r prosiect Shoreline a weinyddir gan Gymuned Wallich Clifford);
- Rhagor o welyau mynediad uniongyrchol;
- Tîm amlddisgyblaeth gyda chyllideb sy'n torri ar draws ffiniau'r adrannau traddodiadol, er mwyn ei gwneud yn haws i ddiwallu anghenion.

### 6. Materion eraill

- Mae rhai pobl ddigartref yn cael anhawster i gofrestru gyda Meddyg Teulu, ac i gael mynediad, felly, at wasanaethau meddygol eraill;
- Gall mynediad at fudd-daliadau fod yn anodd i unigolyn heb ddogfennau adnabod. Nid oes gan rai pobl sy'n cysgu allan unrhyw dystiolaeth adnabod, a gall fod yn anodd iddynt ddod o hyd i ddim;
- Gall fod yn anodd cael asesiad manwl o anghenion gan y gwasanaethau cymdeithasol;
- Rhai ffyrdd o atal cysgu allan fyddai: rhagor o baratoad a chymorth i bobl ifainc sy'n gadael gofal, mewn perthynas â byw yn annibynnol; rhagor o gymorth i bobl a ryddheir o garchar; rhagor o sylw i'r amgylchiadau sy'n peri i bobl roi'r gorau i'w tenantiaeth;
- Byddai datblygu strategaeth waith ar gyfer y digartref sengl yn helpu i bennu'r anghenion, a thargedu'r adnoddau a'r ceisiadau am gyllid yn briodol.

## SIR BENFRO

### 1. Amlder cysgu allan

Yn ôl yr adroddiad gan y Gwasanaeth Ymgynghorol Tai Anghenion Arbennig yng Nghymru a Shelter Cymru ym 1996 A Survey of Rough Sleepers in Wales March 1996, canfuwyd 8 o wahanol bobl yn cysgu allan yn sir Benfro ar 31 Ionawr a 2 Chwefror 1996. Yr oedd saith o'r bobl hynny yn y grŵp oedran 18-24.

O 1 Gorffennaf 1997 hyd 30 Mehefin 1998, bu'r grŵp Gweithredu Dros Ddigartref Sengl Sir Benfro yn cynnal arolwg 12 mis yn y sir, a oedd yn dwyn y teitl Study to Establish the Extent and Nature of Rooflessness in the Local Authority Area and the Provision of Advice, Resettlement and Support Services for Rough Sleepers, a chanfuwyd 75 o wahanol bobl yn cysgu allan. Cwmpaswyd yn yr arolwg 39 o'r asiantaethau yn Sir Benfro, a gytunodd i lenwi holiadur gyda'r bobl a ddaeth atynt, a oedd yn dweud eu bod yn cysgu allan. Yr oedd y 75 yn cysgu yn yr ardaloedd canlynol:

| | |
|---|---|
| - Hwlffordd | 33 |
| - Doc Penfro | 22 |
| - Aberdaugleddau | 5 |
| - Ar wasgar trwy'r ardaloedd gwledig | 15 |

Yr oedd 51 o'r 75 dan 30 oed.

O 1 Gorffennaf 1998 hyd 31 Rhagfyr 1998 yr oedd 10 o'r bobl a alwodd am wasanaeth Gweithredu Dros Ddigartref Sengl Sir Benfro yn cysgu allan, a 21 ohonynt 'heb gyfeiriad sefydlog' (a dichon fod rhai o'r rheini wedi bod yn cysgu allan).

Er 1993, yn ystod y gaeafau, rhag bod neb yn gorfod cysgu allan, gellir atgyfeirio pobl i lety argyfwng mewn un o ddwy hostel yr awdurdod lleol ar gyfer pobl ddigartref. Gelwir y cynllun hwn yn Winterwatch.

- Rhwng 1 Rhagfyr 1997 a 31 Mawrth 1998, arhosodd 11 o bobl yn yr hostelau, a fyddai fel arall wedi bod yn cysgu allan;
- Rhwng 1 Rhagfyr 1998 a 31 Mawrth 1999, arhosodd 15 o bobl yn yr hostelau, a fyddai

fel arall wedi bod yn cysgu allan. Dynion oedd pob un, a'r grwpiau oedran oedd: 16-25 (3); 25-34 (3); 35-44 (7); a 45-60 (2).

## 2. Achosion cysgu allan

Nodwyd yn yr arolwg gan Gweithredu Dros Ddigartref Sengl Sir Benfro bod nifer o ffactorau, fel arfer, yn cyfrannu at achosi i unigolyn gysgu allan. Gallai'r atebwyr eu hunain ddyfynnu rhagor nag un rheswm dros wneud hynny. Y rhesymau (a'r niferoedd o weithiau y'u rhoddwyd) oedd y canlynol

| | |
|---|---|
| - Tor-perthynas | 30 |
| - Anghydfod | 30 |
| - Troi allan o lety | 19 |
| - Cyn-droseddwyr | 14 |
| - Dim arian | 19 |
| - Trais | 8 |
| - Cyffuriau, alcohol, problemau meddygol | 6 |
| - Chwilio am waith, addysg bellach | 9 |

Dywed yr arolwg: "yr oedd gan y bobl a fu'n cysgu allan am ragor na 6 mis un o ddau beth yn gyffredin: maent un ai'n gyn-droseddwyr neu wedi cael eu troi allan o'u llety."

Y rhesymau a roddwyd dros ddigartrefedd gan y pymtheg o bobl a ddefnyddiodd hostelau Sir Benfro o dan y cynllun Winterwatch rhwng 1 Rhagfyr 1998 a 31 Mawrth 1999 oedd:

| | |
|---|---|
| - Tor-perthynas | 6 |
| - Cais gan rieni/teulu i adael | 3 |
| - Rhyddhau o garchar | 2 |
| - Bwrgleriaeth mewn llety landlord preifat | 1 |
| - Rhybudd i adael gan landlord preifat | 1 |
| - Ailfeddiannu (busnes) | 1 |
| - Nid yn ddigartref (yn dilyn ymchwiliad) | 1 |

## 3. Enghreifftiau o'r gwasanaethau presennol

Mae Gweithredu Dros Ddigartref Sengl Sir Benfro yn darparu'r gwasanaethau canlynol yn Sir Benfro:

- Gwasanaethau cynghori mewn gwahanol leoedd (e.e. Hwlffordd, Aberdaugleddau, Doc Penfro, a chyfweliadau ar gael yn Abergwaun, Aberth a Dinbych-y-pysgod);
- Cynllun bond sy'n cwmpasu: cynllun cyffredinol i'r digartref sengl; partneriaeth gyda'r gwasanaeth prawf i ddarparu bondiau a chymorth cyfyngedig i gleientiaid y gwasanaeth prawf; a phartneriaeth gyda'r gwasanaethau cymdeithasol i ddarparu bondiau a chymorth byrdymor i rai 16 a 17 oed;
- Gwasanaeth cymorth symudol i 4 o denantiaid cymdeithas dai;
- Gwasanaeth i roi cymorth i rai dan 18 oed gyda materion tai a budd-daliadau;
- Pecynnau dechreuol (e.e. bwyd ac eitemau hylendid personol) i rai a fu'n cysgu allan neu denantiaid newydd sy'n brin o arian;
- Llinell gymorth teleffon yn ddi-dâl (dwy awr bob dydd o ddydd Llun tan ddydd Gwener).

Yr awdurdod lleol sy'n gweinyddu'r cynllun hostelau 'Winterwatch'. Mae'n lletya rhai sydd heb le i aros ac a fyddai fel arall yn cysgu allan, un ai yn un o'r ddwy hostel sydd gan yr awdurdod ar gyfer y digartref 'statudol', neu mewn tŷ gwely a brecwast yn ystod y cyfnod 1 Rhagfyr i 31 Mawrth. Nid oes raid i bobl fod yn 'statudol' ddigartref, na mewn 'angen blaenoriaeth' yn unol â Deddf Tai 1996, i gael mynediad. Nid oes mynediad uniongyrchol i'r cynllun, er y gall pobl symud i mewn ar unwaith, a atgyfeirir gan wahanol gyrff (er enghraifft Gweithredu Dros Ddigartref Sengl Sir Benfro, yr heddlu, y gweithiwr cymdeithasol ar ddyletswydd, y gwasanaeth prawf, swyddogion tai, y gwasanaethau cymdeithasol).

### 4. Strategaethau i'r digartref neu'r di-do sengl

Nid oes strategaeth ysgrifenedig. Fodd bynnag, gellid defnyddio rhan o waith Gweithredu Dros Ddigartref Sengl Sir Benfro (gan gynnwys yr arolwg a nodir uchod) yn gyfraniad tuag at strategaeth. Mae yna 'Dîm Cyd-gomisiynu ar gyfer Tai' gyda chynrychiolwyr o wahanol gyrff, a allai fod yn grŵp priodol i ddatblygu strategaeth.

### 5. Pa wasanaethau a nodwyd sy'n absennol o'r ardal?

- Gwasanaeth cenhadol er mwyn dod i gysylltiad â rhai sy'n cysgu allan, i'w helpu i gael mynediad at wasanaethau;
- Llety argyfwng, y byddai angen ei ddarparu, mae'n debyg, ar wahanol safleoedd trwy sir Benfro (e.e. Doc Penfro, Abergwaun a Hwlffordd) yn hytrach na mewn un prif dref yn unig. Mae llawer o bobl yn amharod iawn i symud o un dref i'r llall, gan fod eu rhwydweithiau cymdeithasol sefydlog yn aml yn perthyn i un dref yn unig. Hefyd, mae doc Penfro ac Abergwaun yn borthladdoedd a ddefnyddir gan y llongau fferi, gyda phobl yn cyrraedd o Iwerddon. Gallai hynny gynyddu'r galw am lety argyfwng yn y trefi hyn;
- 'Llety hanner-ffordd' a chymorth i bobl a fydd yn ddigartref os nad oes llety ar gael gan landlordiaid preifat. Gellir asesu eu sefyllfa a sicrhau llety hirdymor addas;
- Rhagor o lety fforddiadwy, sicr, addas a diogel i bobl sengl;
- Rhagor o gymorth i rai pobl i ddal eu gafael yn eu llety, yn enwedig tenantiaethau gan awdurdodau lleol neu landlordiaid preifat;
- Rhagor o wasanaethau cynghori lleol a hysbysebir yn amlwg;
- Rhagor o wasanaethau cynghori a chymorth ynglŷn â chyffuriau;
- Cyfleusterau ymolchi cyhoeddus (e.e. baddonau cyhoeddus).

### 6. Materion eraill

- Mae'n anodd iawn i bobl heb gyfeiriad gofrestru gyda Meddyg Teulu;
- Mae'n anodd iawn cael grant o Gronfa Gymdeithasol yr Adran Nawdd Cymdeithasol er mwyn prynu dodrefn neu gyfarpar i ddodrefnu llety. Hwyrach y gellir cael Benthyciad Cyllidebu neu Argyfwng, ond mae hynny yn taflu pobl i ddyled, sydd eisoes yn byw ar incwm isel iawn;
- Mae talu rhent o flaen llaw, am lety a osodir gan landlord preifat, yn anodd iawn i rai sy'n byw ar fudd-dâl neu incwm isel; ac y mae hynny yn cyfyngu ar eu mynediad at lawer o'r llety preifat;
- Gall fod yn anodd i rai pobl gael cymorth, os cawsant ddiagnosis deuol mewn rhai agweddau ar eu hiechyd (e.e. pobl gyda phroblem iechyd meddwl a phroblem gyffuriau neu alcohol, neu anabledd dysgu). Mae'r asiantaethau yn Sir Benfro yn ceisio datrys hyn trwy symud at gael yr asiantaeth gyntaf y cysylltir â hi i dderbyn y cyfrifoldeb o weithio gyda'r cleient;
- Mae'r cyfyngiadau ar fudd-dâl tai i rai dan 25 oed yn ei gwneud yn anodd iawn i'r grŵp oedran hwn gael llety a dal gafael ar denantiaeth yn y sector preifat.

## POWYS

### 1. Amlder cysgu allan

Yn ôl yr adroddiad gan y Gwasanaeth Ymgynghorol Tai Anghenion Arbennig yng Nghymru a Shelter Cymru ym 1996 A Survey of Rough Sleepers in Wales, canfuwyd 5 o bobl yn cysgu allan mewn dwy dref ym Mhowys (4 yn y Trallwng ar 3, 5, a 6 Chwefror 1996 ac 1 yn y Drenewydd ar 2, 3 a 4 Chwefror 1996).

Ni chafwyd gwybod am unrhyw arolwg arall ym Mhowys er yr adeg honno.

Fodd bynnag, yn ei waith cyffredinol, daeth Cyngor Cyffuriau ac Alcohol Powys i gysylltiad â 56 o bobl yn cysgu allan ym Mhowys rhwng 7 Medi 1996 a 2 Awst 1999. Sefydlodd wasanaeth cenhadol i ieuenctid yn ddiweddar, sy'n ymgymryd â gwaith cenhadol gyda'r nosau ymysg pobl ifainc sy'n wynebu risg. Arweiniodd hyn at gynnydd arwyddocaol yn y cyswllt rhwng y Cyngor a phobl ifainc sy'n cysgu allan. Amcangyfrifodd fod 15 o bobl yn cysgu allan ym Mhowys ar 2 Awst 1999. Amcangyfrifwyd bod pump ohonynt yn cysgu allan yn Aberhonddu, dau yn Llanfair-ym-Muallt, dau yn Llandrindod, dau yn Llanwrtyd, dau yn y Trallwng, un yn y Drenewydd ac un yn y Gelli Gandryll. Yr oedd y 15 hyn yn y grŵp oedran 16-23.

Mae'n wybyddus bod un fenyw (65 oed) a fu'n aros yn lloches nos y Fenni yn Sir Fynwy dros y gaeaf 1998/99 wedi bod yn cysgu allan am gyfnodau ar ôl i'r lloches gau, gan gynnwys cysgu allan yng Nghrucywel.

Rhwng 1 Ebrill 1998 ac 1 Ebrill 1999, o'r rhai a ddaeth i gysylltiad â swyddfeydd tai awdurdod lleol Powys, a gyfrifwyd yn sengl ac yn ddigartref ond nid mewn angen blaenoriaeth, yr oedd 66 o bobl ddi-do. Diffinnir pobl ddi-do fel rhai sy'n cysgu allan, mewn ceir, neu'n gallu aros gyda chyfeillion am ddim rhagor na 2 noson.

## 2. Achosion cysgu allan

Yn adroddiad y Gwasanaeth Ymgynghorol Tai Anghenion Arbennig yng Nghymru a Shelter Cymru ym 1996, nodwyd y rhesymau canlynol dros gysgu allan:

- Ddim yn hoff o'r llety sydd ar gael;
- Dim llety ar gael;
- Analluedd i fforddio llety;
- Problemau iechyd;
- Problemau alcohol.

Rhesymau eraill a nodwyd gan y cyrff sy'n gweithio ym Mhowys ar hyn o bryd yw:

- Tor-perthynas (a nodir fel yr achos mwyaf cyffredin) sydd yn aml yn gysylltiedig â chyfathrebu gwael rhwng pobl ifainc a'u rhieni neu lys-rieni;
- Hwyrach na all person ifanc gyd-dynnu â phartner newydd ei fam, a symudodd i mewn i'r cartref, a'i fod wedi gadael o'r herwydd;
- Cam-drin person ifanc gan riant neu lys-riant;
- Gall diffyg sicrwydd a sefydlogrwydd ym magwraeth unigolyn (e.e. oherwydd byw mewn nifer o wahanol leoliadau yng ngofal awdurdod lleol) arwain at ddull o fyw sy'n gwbl ddi-drefn wrth i'r unigolyn gyrraedd oedran gadael gofal, gan ei gwneud yn anodd iddo gynnal ei lety;
- Troi allan o lety;
- Pobl a symudodd allan o'u hardal i osgoi trais a fygythiwyd yn eu herbyn.

## 3. Enghreifftiau o'r gwasanaethau presennol

- Llety argyfwng i'r 'digartref statudol' (yn y Drenewydd, y Trallwng, Ystradgynlais a Llandrindod). O bryd i'w gilydd gellir gosod pobl ddigartref, nad ydynt mewn grŵp blaenoriaeth, yn y llety argyfwng hwn;
- Cynllun bond a weithredir gan yr awdurdod lleol, sydd yn gyfyngedig i'r digartref statudol;
- Llety dros dro gyda chymorth i'r digartref sengl, a ddarperir gan Gymdeithas Tai Trothwy yn Llandrindod, Aberhonddu, Ystradgynlais, y Drenewydd a'r Trallwng. Ceir mynediad trwy atgyfeirio gan asiantaethau fel y gwasanaeth prawf, y gwasanaethau cymdeithasol, y tîm iechyd meddwl cymunedol, cyrff gwirfoddol ac adran dai'r awdurdod lleol. Gellir derbyn hunanatgyfeiriad hefyd;

- Gwasanaeth cymorth symudol i'r bobl sengl ddigartref a atgyfeiriwyd i Gymdeithas Tai Trothwy mewn gwahanol rannau o Bowys;

- Gwasanaeth cenhadol ieuenctid a ddarperir gan Gyngor Cyffuriau ac Alcohol Powys. Rhan o'r gwaith hwn yw cysylltu â phobl sy'n cysgu allan. Mae'r cysylltiad yn golygu ennill ymddiriedaeth yr unigolyn dan sylw, ei gynghori ar sut i leihau'r niwed iddo'i hun a'i helpu i gael cymorth priodol. Mae cylch gwaith y gwasanaeth yn llawer ehangach na'r gwaith a wna gyda chysgwyr allan yn unig, ond gall brynu prydau bwyd i rai sy'n cysgu allan a'u helpu i gael dillad.

Gall rhai o'r cyrff eraill ddod ar draws pobl ddigartref sengl (a hwyrach ambell un sy'n cysgu allan, neu a fu'n cysgu allan ) yng nghwrs eu gwaith. Maent yn cynnwys:

- Canolfan alw-heibio i'r di-waith yn Aberhonddu;

- Mae Cymdeithas Tai Hafan a'r gwasanaeth prawf yn darparu gwasanaeth adsefydlu i'w cleientiaid (h.y. benywod digartref a chyn-droseddwyr);

- Gwasanaethau Cymorth i Fenywod (e.e. llety i fenywod sy'n dianc rhag trais domestig, a gwasanaethau cymorth a chynghori);

- Powys Challenge (gwasanaeth ymgyfeillio ar gyfer troseddwyr ifainc);

- Bare Necessities (gwasanaeth ailgylchu dodrefn yn Aberhonddu).

## 4. Strategaethau i'r digartref neu'r di-do sengl

Nid oes strategaeth ysgrifenedig, na fforwm rheolaidd o'r asiantaethau, i drafod materion tai/digartrefedd ym Mhowys. Mae yna Grŵp Menter Tai sy'n cyfarfod yn rheolaidd ym mhob rhan o'r sir. Sefydlwyd hwn gan y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, i drafod anghenion cleientiaid unigol, er mwyn ceisio sicrhau na fydd unrhyw gleient sy'n adnabyddus i'r grŵp ym Mhowys yn cael ei esgeuluso nac yn methu â chael cymorth.

## 5. Pa wasanaethau a nodwyd sy'n absennol o'r ardal?

- Llety argyfwng mynediad uniongyrchol 24 awr gyda staff mewn nifer o fannau ym Mhowys, ar gyfer y digartref 'anstatudol' (nodwyd bod angen penodol yn Aberhonddu, ac angen tebygol yn y Drenewydd a Llandrindod). Gallai'r ddarpariaeth hon fod ar raddfa fechan: rhwng 1 a 4 gwely, dyweder, ym mhob un o'r trefi hyn. Hwyrach y byddai'n briodol eu cysylltu â'r cynlluniau presennol lle y mae staff ar gael;

- Gwasanaethau cyngor tai;

- Gallai cynlluniau bond fod yn briodol mewn rhannau o Bowys lle y ceir cyflenwad rhesymol o lety preifat ar rent (e.e. Llandrindod);

- Rhagor o lety fforddiadwy o ansawdd da i bobl sengl mewn rhai ardaloedd (yn enwedig yn Aberhonddu ac i raddau llai yn y Drenewydd);

- Mae angen rhagor o ymchwil a gwybodaeth am ddigartrefedd sengl a chysgu allan.

## 6. Materion eraill

- Gall fod yn anodd i bobl ddigartref gael eu henwau ar gofrestrau aros rhai o'r cymdeithasau tai, oherwydd nad oes ganddynt gyfeiriad sefydlog (e.e. gallent fod yn aros dros dro gyda nifer o wahanol gyfeillion);

- Mae'r cyfyngiadau ar fudd-dâl tai i rai dan 25 oed wedi ei gwneud yn anodd i lawer ohonynt ymdopi yn ariannol;

- Gall fod yn anodd cael cymorth priodol i bobl gyda diagnosis deuol, sy'n cwmpasu iechyd meddwl a phroblem gyffuriau neu

alcohol. Gan gydnabod hyn, mae'r asiantaethau iechyd meddwl, cyffuriau ac alcohol yn cydweithio i wella eu trefniadau gwaith ar gyfer pobl yn y sefyllfa hon;

- Mae mynediad at ddeintyddion yn anodd iawn oherwydd prinder deintyddion sy'n ymgymryd â gwaith NHS;

- Gall unigolion 16 a 17 oed sy'n agored i'w niweidio wynebu anhawster sylweddol wrth geisio cael budd-daliadau;

- Gall fod yn anodd sicrhau ymglymiad y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth prawf weithiau, yn enwedig pan osodir cleient mewn cynllun tai gyda chymorth.

## RHONDDA CYNON TAF

### 1. Amlder cysgu allan

Yn yr adroddiad gan Susan Hutson a Stuart Jones ym 1997, Rough Sleeping and Homelessness in Rhondda Cynon Taf, canfuwyd, trwy gyfweld 131 o bobl a ddaeth at yr asiantaethau fel rhai digartref, yn ystod pythefnos yn Ionawr a Chwefror 1997 bod 64 wedi cysgu allan rhywdro yn y gorffennol, a dywedodd 24 eu bod yn cysgu allan ar y pryd.

Mewn cyfrifiad tair noson ar 21, 22 a 23 Mawrth 1997, daethpwyd o hyd i 2 o bobl yn cysgu allan (un yn y Rhondda a'r llall tu allan i Bontypridd) a chafwyd tystiolaeth am 5 safle cysgu allan arall.

Mewn cyfrifiad o'r cysgwyr allan a gynhaliwyd gan Fforwm Tai Pobl Sengl Rhondda Cynon Taf trwy'r fwrdeistref gyfan ar noson 17 Gorffennaf 1998, canfuwyd:

- 5 o bobl yn cysgu allan (dynion i gyd, un 18-25 oed, tri 26-39 oed ac un nad oedd ei oedran yn wybyddus). Yr oedd tri ohonynt ym Mhontypridd, 1 yn Nhreorci ac 1 yn Nhaf Elái;

- Gwelwyd tystiolaeth o 6 o safleoedd cysgu allan eraill (2 ym Mhontypridd, 2 yn Aberdâr, 1 ym Maerdy/Glyn Rhedynog ac 1 yn Ynys-hir);

- Yr oedd 4 dyn wedi eu gosod mewn llety argyfwng dros dro gan yr awdurdod lleol, dros noson y cyfrif.

### 2. Achosion cysgu allan

Canfu adroddiad 1997 fod 60% o'r bobl a oedd yn ddigartref "yn gadael eu rhieni yn gynnar ac, yn aml, oherwydd anghydfod, ac 20% yn gadael partneriaid. Yn hytrach na symud yn syth i lety sefydlog, mae llawer yn treulio cyfnod mewn llety ansefydlog dros dro, er enghraifft ar lawr cyfeillion neu berthnasau. Os ceir llety preifat ar rent, mae'n aml yn ansicr ac o ansawdd gwael, a ystyrir yn rhywbeth dros dro. Mae cysgu allan yn aml yn ailddigwydd yn hanes lletyol unigolion, ac y mae'n gysylltiedig ag ieuenctid a thlodi'r unigolion dan sylw."

Mae'r adroddiad hefyd yn gwahaniaethu rhwng cysgu allan byrdymor (a allai olygu un neu ddwy noson o bryd i'w gilydd), a chysgu allan hirdymor sy'n estyn dros gyfnod o wythnosau, misoedd neu hyd yn oed blynyddoedd. "Mae cysgu allan byrdymor yn aml yn dilyn argyfwng megis troi allan, gan landlord, partner neu riant. Ar ôl ychydig ddyddiau yn cysgu allan, gellir dod o hyd i lety dros dro, yn nhŷ cyfaill, er enghraifft. Mae cysgu allan hirdymor yn digwydd ar ôl disbyddu'r opsiynau am lety dros dro, neu pan nad oes opsiwn o'r fath ar gael. Disgrifiwyd cysgu allan byr- a hirdymor yn ystod y cyfweliadau, ac y mae ffigurau'r arolwg yn dangos bod:

- 54% wedi cysgu allan am lai nag wythnos;

- 29% wedi cysgu allan am hyd at fis;

- 17% wedi cysgu allan am gyfnod hwy nag un mis.

### 3. Enghreifftiau o'r gwasanaethau presennol

- Mae gan yr YMCA yn Aberpennar 3 gwely argyfwng arhosiad byr (hyd at 7 noson yn

olynol) i rai 16 i 25 oed. Mae'r mynediad iddynt yn uniongyrchol (er yn gyfyngedig i oriau swyddfa yn bennaf);

- Y Prosiect Ieuenctid ar Wahân sy'n cynnwys gwaith cenhadol i gysylltu gyda phobl ifainc ar 3 noson yr wythnos. Cynhwysir cyngor ynglŷn â digartrefedd yn y gwaith hwn;
- Gwasanaethau cyngor tai (e.e. Siop Wybodaeth Barnardo's i rai 16-24 oed ym Mhontypridd, gwasanaeth cyngor tai ADREF yn Aberdâr, cyngor tai gan yr awdurdod lleol ym Mhontypridd);
- Cynllun bond a reolir trwy bartneriaeth rhwng yr awdurdod lleol a Bwrdd bond Rhondda Cynon Taf, chwaer elusen i ADREF;
- Cynllun cymorth symudol i gyn-droseddwyr a weinyddir gan ADREF;
- Cynllun tai 7 gwely gyda chymorth i rai 16-24 oed yn Nhrecynon. Mae'r mynediad trwy atgyfeirio, a rheolir y cynllun gan ADREF;
- Gwasanaethau cymorth i bobl gyda phroblemau iechyd meddwl, a weinyddir gan Gymdeithas Tai Gofal.

## 4. Strategaethau i'r digartref neu'r di-do sengl

Mae Fforwm Tai Pobl Sengl Rhondda Cynon Taf wedi paratoi'r strategaeth Single Person Housing Strategy 1999-2002, sy'n cwmpasu materion yn ymwneud â digartrefedd sengl yn ogystal â chysgu allan. Mae aelodaeth y Fforwm yn cynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdod lleol (adrannau tai, gwasanaethau cymdeithasol, budd-dâl tai), yr asiantaeth fudd-daliadau, addysg, cymdeithasau tai, mudiadau gwirfoddol (e.e. ym meysydd cyffuriau ac alcohol, digartrefedd sengl, materion benywod, iechyd meddwl). Nid oes cynrychiolydd o'r gwasanaeth iechyd.

Mae'r strategaeth yn cynnwys gwybodaeth am yr ymchwil a wnaed yn yr ardal, y gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd, a'r gwasanaethau sy'n absennol ac angen eu cyflenwi yn y fwrdeistref ynglŷn â llety a chymorth i bobl sengl.

## 5. Pa wasanaethau a nodwyd sy'n absennol o'r ardal?

- Hwyrach llety argyfwng mynediad uniongyrchol (hwyrach tai bychain mewn 3 tref wahanol yn hytrach na hostel mwy mewn un dref), er bod angen rhagor o wybodaeth cyn y gellir cyfiawnhau cynlluniau o'r fath;
- Gwasanaethau adsefydlu a chymorth, gan gynnwys gwasanaethau cymorth newydd neu symudol i bobl ddigartref sengl, pobl gyda phroblemau iechyd meddwl, benywod yn dianc rhag trais domestig, pobl ifainc sengl ddigartref, a benywod sengl sy'n agored i'w niweidio;
- Rhagor o lety symud-ymlaen i bobl sengl, yn enwedig yn ardal Taf Elái;
- Cynnydd yn y cyllid cyfalaf i'r cynllun bond;
- Cyllid cyfalaf i ailddatblygu cynllun presennol NCH Gweithredu Dros Blant Cymru;
- Lloches nos yn y gaeaf.

## 6. Materion eraill

- Gall pobl ddigartref ei chael yn anodd iawn i gofrestru gyda Meddyg Teulu, a chael mynediad at rai gwasanaethau iechyd eraill. Cafwyd enghreifftiau o fudiadau yn cysylltu â'r awdurdod iechyd lleol i ddyrannu Meddyg Teulu i berson digartref;
- Mae'n anodd cael diagnosis a chymorth i bobl sy'n wynebu dwy neu ragor o broblemau mewn perthynas ag iechyd meddwl a defnyddio cyffuriau neu alcohol;
- Gall gymryd misoedd lawer i gael asesiad i bobl gyda phroblem gyffuriau, a gellir colli'r cyfle i'w helpu oherwydd yr oedi hir;

- Credir y byddai'n ddefnyddiol iawn pe gellid cyflogi unigolyn a allai neilltuo amser digonol i ddatblygu'r Strategaeth Dai Unigolion Sengl.

## ABERTAWE

### 1. Amlder cysgu allan

Cynhaliwyd nifer o astudiaethau yn Abertawe, a chyhoeddwyd ystadegau ynglŷn ag amlder cysgu allan yn y ddinas. Er mor ddefnyddiol yw hynny, mae'n anodd cymharu'r canfyddiadau mewn rhai achosion, yn bennaf oherwydd y gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd. Rhoddir rhai o'r ystadegau isod; maent yn cyfeirio at ddinas Abertawe, yn hytrach na'r fwrdeistref ehangach.

**1996:** Yn ôl yr adroddiad gan y Gwasanaeth Ymgynghorol Tai Anghenion Arbennig yng Nghymru a Shelter Cymru ym 1996 A Survey of Rough Sleepers in Wales, canfuwyd 7 o bobl yn cysgu allan yn Abertawe ar 3, 4, a 7 Chwefror 1996.

Daeth cynllun cenhadol symudol Cyreniaid Cymru i gysylltiad â 116 o bobl a oedd yn stryd-ddigartref am un neu ragor o nosweithiau yng nghanol y ddinas, yn y cyfnod 12 Chwefror i 21 Ebrill 1996.

Yn ôl yr arolwg Single Homeless Research: Rough Sleepers Count a wnaed gan Will O'Kelly, daethpwyd o hyd i'r niferoedd canlynol o bobl yn cysgu allan yn Abertawe:

- 6 Rhagfyr 1996 11
- 7 Rhagfyr 1996 8
- 8 Rhagfyr 1996 7
- 9 Rhagfyr 1996 6
- 10 Rhagfyr 1996 8

Fodd bynnag, ar bob un o'r nosweithiau canfuwyd tystiolaeth ychwanegol o gysgu allan ar rai safleoedd penodol, yr oedd yn wybyddus bod rhai pobl yn cysgu allan ond ni ddaethpwyd o hyd iddynt, ac yr oedd rai pobl yn sgwatio yn Abertawe. Ni chynhwysir ystadegau o'r ffynonellau hynny yn y ffigurau uchod. Daeth yr adroddiad i'r casgliad y "gallai'r ymchwilwyr dystio ar sail eu harsylwadau eu hunain fod o leiaf 15, a hwyrach hyd at 27 yn cysgu allan yn Abertawe ar unrhyw un noson. Mae'n debygol mai cyfartaledd o'r ffigurau hyn yw'r gwir nifer - oddeutu 21 o bobl."

**1997:** Yn adroddiad Cymdeithas Caer Las, Access: A Street Outreach Feasibility Study Conducted in Swansea July 1996 - May 1997, canfuwyd bod hyd at 30 o bobl, ar unrhyw un adeg yn ystod yr astudiaeth, yn byw ar strydoedd yng nghanol Abertawe. Bu 64 o bobl yn byw ar y strydoedd, rywdro neu'i gilydd yn ystod cyfnod yr astudiaeth.

Daeth cynllun cenhadol symudol Cyreniaid Cymru i gysylltiad â 123 o bobl a oedd yn stryd-ddigartref am un neu ragor o nosweithiau yng nghanol y ddinas, yn y cyfnod 1 Rhagfyr 1996 i 10 Mai 1997.

**1998:** Daeth cynllun cenhadol symudol Cyreniaid Cymru i gysylltiad â 108 o bobl a oedd yn stryd-ddigartref am un neu ragor o nosweithiau yng nghanol y ddinas, yn y cyfnod 13 Rhagfyr 1997 i 7 Ebrill 1998.

**1999:** Bu cynllun cenhadol symudol Cyreniaid Cymru yn cynorthwyo 169 o bobl a oedd yn stryd-ddigartref am un neu ragor o nosweithiau yng nghanol y ddinas, yn y cyfnod 3 Rhagfyr 1998 i 5 Mai 1999 (yr oedd 36 yn fenywod a 133 yn wrywod). Yr amrediadau oedran oedd 16-25 (32), 26-35 (53), 36-45 (34), 46-55 (9), 56-64 (4) a 66-75 (1).

Rhwng 1 Ionawr 1999 a 31 Mawrth 1999 bu tîm cenhadol Cymdeithas Caer Las mewn cysylltiad â 63 o bobl, 37 ohonynt wedi cysgu allan o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod hwnnw, a 6 wedi cysgu allan yn gyson trwy gydol y cyfnod.

Daeth Cymdeithas Caer Las i gysylltiad â 243 o rai stryd-ddigartref yn ystod y flwyddyn 1 Ebrill 1998 i 31 Mawrth 1999.

O Awst 1998 i Fawrth 1999 bu 253 yn aros yn lloches nos Cymdeithas Caer Las, Lodge House. O'r rheini, dywedodd 25 eu bod wedi cysgu allan y noson cyn eu derbyn. Dywedodd 23 o'r rhai a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod eu bod yn gysgwyr allan hirdymor.

Mae'n ymddangos fod yna grŵp o rai sy'n adnabyddus am yfed ar y stryd, sydd hefyd yn cysgu allan neu'n treulio cyfnodau yn cysgu allan. Mae aelodau'r grŵp hwn yn tueddu i gyfathrachu â'i gilydd. At hynny, mae yna nifer fach o gysgwyr allan hirdymor gyda phroblemau iechyd meddwl, sy'n byw bywydau unig iawn.

Ar ddechrau Gorffennaf 1999 yr oedd Café Cyfeillgarwch Eglwys Elim a'r Nyrs Allanol yn amcangyfrif mai rhyw 8 neu 9 o bobl a adwaenent, a oedd yn cysgu allan yr un noson yn Abertawe, ond tua diwedd Mehefin 1999, gallai'r nifer fod wedi amrywio rhwng 12 a 15 ambell noson. Yn achlysurol, meddent, gall y nifer godi i'r 20au ar un noson.

Ganol mis Gorffennaf 1999, yr oedd y rownd gawl a drefnir gan Action of Churches Together in Swansea (ACTS) yn amcangyfrif bod grŵp o tua 6 chysgwr allan hirdymor yn Abertawe, a bod un ohonynt wedi cysgu allan am oddeutu 20 mlynedd yn y ddinas. Gwelir rai eraill gan y rownd gawl sy'n cysgu allan am noson neu ychydig nosweithiau yn unig; ac eraill eto yn cysgu allan yn ysbeidiol, dros gyfnod o ychydig wythnosau, misoedd neu weithiau flwyddyn.

## 2. Achosion cysgu allan

Mae achosion cysgu allan yn amrywiol, ac yn dibynnu ar amgylchiadau penodol yr unigolyn. Fodd bynnag, gellir rhestru nifer o brif resymau, gan gynnwys tor-perthynas; cam-drin; problemau iechyd meddwl; gadael gofal, carchar neu'r lluoedd arfog heb baratoad a chymorth digonol; tlodi; a chyrraedd o Iwerddon heb unman i fyw am ychydig nosweithiau.

Y rhesymau dros ddigartrefedd (yn hytrach na chysgu allan) a roddwyd gan y 253 o bobl a fu'n aros yng nghanolfan dros nos Lodge House Cymdeithas Caer Las yn Abertawe, rhwng Awst 1998 a Mawrth 1999, oedd:

| | |
|---|---|
| - Ni roddwyd rheswm / gwrthod ateb | 30% |
| - Troi allan o denantiaeth | 9% |
| - Cysgwr allan hirdymor | 9% |
| - Gadael o ddewis | 8% |
| - Gadael gofal / dalfa / ysbyty | 8% |
| - Tor-perthynas | 7% |
| - Cais i adael gan deulu / cyfeillion | 5% |
| - Aflonyddu | 5% |
| - Llety anaddas | 3% |
| - Taflwyd allan o gartref | 2% |
| - Ymgeisio am loches wleidyddol | 0.5% |
| - Symudwr (symud yn gyson o un math o lety ansicr i'r nesaf) | 0.5% |
| - Arall | 3% |

## 3. Enghreifftiau o'r gwasanaethau presennol

Mae'r City and County of Swansea Single Homeless Resource Directory yn cynnwys rhestr gynhwysfawr o gyrff sy'n gweithio gyda'r digartref sengl yn Abertawe. Mae'r canlynol yn enghreifftiau:

- Cynlluniau cenhadol: gwaith cenhadol y gaeafa drefnir gan Gyreniaid Cymru; prosiect stryd cenhadol amlddisgyblaeth a drefnir gan Gymdeithas Caer Las (ynghyd â nyrs genhadol, nyrs iechyd meddwl a gweithwyr adsefydlu);
- Rownd gawl a drefnir gan Action of Churches Together in Swansea (ACTS);

- Lloches nos: canolfan dros nos Lodge House a reolir gan Gymdeithas Caer Las (cynllun 12 gwely yn darparu llety argyfwng dros nos);
- Hostelau mynediad uniongyrchol: Dinas Fechan, hostel mynediad uniongyrchol 24 awr a reolir gan Gymdeithas Caer Las (15 gwely); hostel mynediad uniongyrchol 24 awr Stryd Paxton, a reolir gan Gyreniaid Cymru (13 gwely); YMCA (17 o ystafelloedd byw a chysgu i ddynion yn unig, er nad oes modd defnyddio'r llety hwn yn llawn ar hyn o bryd);
- Gwasanaethau adsefydlu: Cymdeithas Caer Las, Cyreniaid Cymru;
- Galw-heibio/café, e.e. prydau wedi eu coginio, cawodydd, dillad, mynediad at ofal iechyd trwy gyfrwng nyrs genhadol (y Café Cyfeillgarwch a reolir gan Eglwys Elim); café gyda'r nos/galw-heibio gyda mynediad at gyfleusterau ymolchi a baddonau, cyngor a chymorth (yn Lodge House, rheolir gan Gymdeithas Caer Las);
- Cynllun bond, a reolir gan Fwrdd bond Abertawe (Tîm Digartrefedd Ieuenctid Barnardo's);
- Gwasanaethau cynghori: mae Housing Options (Dinas a Sir Abertawe) yn darparu cyngor ynghylch tai, ac yn cymryd ceisiadau yn unol â Rhannau III a IV Deddf Tai 1996; mae Shelter Cymru yn darparu cyngor, eiriolaeth a chynrychiolaeth gyfreithiol ynglŷn â phroblemau tai; mae'r Ganolfan Gynghori yn cynnig gwasanaeth cynghori eang a chynhwysfawr; mae Prosiect Cyffuriau Abertawe (SAND) yn darparu gwybodaeth alw-heibio, cyngor, cyfnewidfa nodwyddau, asesiad ar gyfer presgripsiynau a dadwenwyno;
- Gwasanaethau i fenywod, e.e. Cymorth i Fenywod (lloches 5 ystafell wely i fenywod a'u plant sy'n wynebu, neu a fu'n wynebu, trais domestig; cymorth i fenywod yn eu cartrefi eu hunain);
- Gwasanaethau i bobl ifanc ddigartref, e.e. llety gyda chymorth symudol i rai 16-21 oed (Cymdeithas Caer Las); gwasanaeth amlasiantaeth (tai, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaeth iechyd cenhadol, Barnardo's) yn darparu asesiadau statudol Deddf Plant/digartrefedd i rai 16-21 oed, mynediad at lety dros dro/parhaol a chymorth, llety gyda chymorth ac ôl-ofal (Tîm Digartrefedd Ieuenctid Abertawe); Swansea Foyer (cynllun tai 33 gwely, yn darparu cymorth gyda sgiliau byw, hyfforddiant a chyflogaeth); cymorth symudol a llety i rai 16-21 oed a ddarperir gan Brosiect Ieuenctid Sengl Digartref Abertawe;
- Gwasanaethau cymorth, e.e. cymorth symudol a ddarperir gan Gyreniaid Cymru a Chymdeithas Caer Las.

### 4. Strategaethau i'r digartref neu'r di-do sengl

Mae yna Strategaeth y Digartref Sengl yn ogystal â Strategaeth Symud-ymlaen, y ddwy dan adolygiad ar hyn o bryd (Awst 1999). Mae yna hefyd The City and County of Swansea Youth Homelessness Strategy August 1998 to August 2001 a fu'n weithredol er 1996.

Cyflogodd Dinas a Sir Abertawe gydgysylltydd i Strategaeth y Digartref Sengl, a rhan o'i swyddogaeth yw "cyd-drefnu a monitro'r symudiad tuag at gyrraedd nodau ac amcanion Strategaeth y Digartref Sengl trwy Grŵp Polisi'r Digartref Sengl." Grŵp amlddisgyblaeth yw Grŵp Polisi'r Digartref Sengl, sy'n cynnwys cydgysylltydd Strategaeth y Digartref Sengl a chynrychiolwyr o feysydd iechyd, y gwasanaethau cymdeithasol, yr adran dai a'r sector gwirfoddol. Rhoddir y cyfrifoldebau am faterion penodol i wahanol is-grwpiau o'r grŵp llywio hwn.

### 5. Pa wasanaethau a nodwyd sy'n absennol o'r ardal?

Gan fod y ddogfen strategaeth dan adolygiad ar hyn o bryd, hwyrach y bydd safbwynt mwy

cynulliadol yn wybyddus maes o law. Fodd bynnag, nodwyd nifer o fylchau eisoes:

- Bu galw cyson am ddarpariaeth (e.e.tŷ gwlyb) i rai sy'n yfed ar y stryd ac a fu'n cysgu allan am gyfnodau hir. Nid yw'n ymddangos bod y grŵp penodol hwn yn Abertawe yn cael y sylw tymor hir priodol ar hyn o bryd, ac y mae angen pendant am dŷ gwlyb wedi ei dargedu yn benodol at anghenion y cnewyllyn hwn;
- Mae darpariaeth yn ystod y dydd, (e.e.canolfan ddydd) yn fater a nodir yn gyson gan rai cyrff. Mae darpariaeth alw-heibio ar gael am ran o'r dydd, ar rai dyddiau o'r wythnos yn Eglwys Elim (gweinyddir gan wirfoddolwyr) a chyda'r nosau yn Lodge House (gan Gymdeithas Caer Las);
- Pwynt canolog gyda chyngor, gwybodaeth ac eiriolaeth ar gael am amrediad eang o feysydd (megis tai, budd-daliadau, iechyd;
- Cynnydd posibl yn y ddarpariaeth o waith cenhadol yn ystod y gwanwyn, yr haf a'r hydref. Mae Cymdeithas Caer Las yn gwneud gwaith cenhadol ar y strydoedd ar bum diwrnod o'r wythnos yn ystod y cyfnodau hyn;
- Rhagor o welyau mynediad uniongyrchol;
- Rhagor o welyau argyfwng i bobl ifainc (16 ac 17 oed yn benodol) rhag gorfod defnyddio tai Gwely a Brecwast mewn llawer achos;
- Rhagor o lety symud-ymlaen addas a fforddiadwy yn yr ardaloedd priodol (e.e. yn ymyl cyfeillion, cefnogaeth deuluol a chydnabod);
- Gwell ansawdd o lety ar rent nag a geir mewn rhai ardaloedd;
- Llety gyda lefel uchel o gymorth i bobl ifainc sy'n ymddwyn yn heriol neu'n byw'n anhrefnus;
- Cymorth i bobl sy'n byw mewn llety awdurdod lleol neu lety preifat ar rent;
- Clinig yng nghanol y ddinas i bobl ddigartref;
- Gwasanaeth ymgyfeillio;
- Gwasanaeth ymyrraeth argyfwng i bobl sy'n datblygu afiechyd meddwl;
- Gweithiwr/ gweithwyr cymdeithasol, i weithio gyda'r digartref sydd â phroblemau iechyd meddwl ;
- Gwasanaethau sgrinio ar gyfer twbercwlosis;
- Addysg mewn ysgolion gyda'r nod o atal digartrefedd, a gyflwynir gan rai sy'n gwybod am realiti digartrefedd.

## 6. Materion eraill

- Gall fod yn anodd iawn i bobl sy'n cysgu allan, a'r digartref sengl yn gyffredinol, gofrestru gyda Meddyg Teulu, ac i gael mynediad at wasanaethau meddygol eraill (yn aml oherwydd eu bod yn byw mewn llety dros dro);
- Mae llawer o'r bobl sy'n cysgu allan yn cael trafferthion gyda'u traed, sydd yn aml yn wlyb a chwyslyd, weithiau heb sanau, nac esgidiau sy'n ffitio, etc. Mae cael mynediad at wasanaeth ciropodydd yn anodd iawn i'r bobl hyn;
- Mae rhai o'r bobl sy'n cysgu allan yn ei chael yn anodd i ddefnyddio'r ysbytai i gael triniaeth, a gall fod yn ddefnyddiol i fynd â'r gwasanaethau at y rhai sy'n cysgu allan (e.e. trin traed);
- Gall fod yn anodd i gael mynediad at ddeintyddion sy'n barod i wneud gwaith NHS;
- Trwy gynllunio a pharatoi yn well ar gyfer rhai sydd mewn carchar, gellid helpu i leihau digartrefedd; gellir rhoi rhagor o gymorth hefyd i gadw'r llety blaenorol, pan draddodir rhywun i'r carchar yn y lle cyntaf;
- Gall fod yn anodd i rywun gael cymorth os yw'n wynebu rhagor nag un broblem, yn gysylltiedig ag iechyd meddwl, cyffuriau neu alcohol;

- Nid yw'r bobl sydd ag anhwylderau personoliaeth neu broblemau ymddygiad yn ffitio'n dwt i'r categorïau a gydnabyddir yn draddodiadol, gan y gwasanaethau iechyd na'r gwasanaethau cymdeithasol. Gall hynny olygu na fyddant yn derbyn cymorth priodol;
- Byddai mynediad rhwydd a chyflym at ddodrefn yn gwneud y broses o adsefydlu yn llawer haws i lawer o bobl;
- Dylid ystyried ychwanegu 'pobl sydd yn cysgu allan' at y grwpiau blaenoriaeth angen dan y ddeddfwriaeth ddigartrefedd, yn Adran 189 Deddf Tai 1996;
- Mae'r cyfyngiadau ar faint y budd-dâl tai sy'n daladwy i rai dan 25 oed wedi amharu ar eu mynediad at lety preifat ar rent;
- Mae tuedd gynyddol i enethod a benywod ifainc gyfathrachu â phobl ddigartref yn Abertawe. Gall hynny eu harwain i sefyllfa lle y byddant yn agored i'w niweidio, a hwyrach yn ddigartref eu hunain;
- Byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r heddlu chwarae rhan amlycach, mewn penderfynu pa wasanaethau a chymorth sydd eu hangen ar bobl sy'n cysgu allan. Gallai hynny leihau'r amser a dreulir, a'r amhriodoldeb, o draddodi yfwyr hirdymor oddi ar y stryd i gelloedd yr heddlu dros nos am fod yn 'feddw ac afreolus'. Pe bai modd pennu a darparu gwasanaethau addas ac adeiladol, byddai hynny o fudd i'r unigolion, yr asiantaethau ac i'r cyhoedd yn gyffredinol. Enghraifft o'r fath wasanaeth fyddai darparu 'tŷ gwlyb';
- Trwy adsefydlu cleientiaid yn gynt o'r cynlluniau presennol, gellir rhyddhau'r llety argyfwng yn yr ardal, i'w ddefnyddio gan eraill. Dylai'r adsefydlu, fodd bynnag, barhau i wneud yn sicr bod pobl yn symud ymlaen i lety addas;
- Gallai tenantiaethau ar dreial fod yn ddyfais ddefnyddiol, i roi cynnig i bobl fyw mewn llety annibynnol, heb beryglu eu hopsiynau am dai yn y dyfodol, os yw'r denantiaeth arbrofol yn methu;
- Dylai Strategaeth y Digartref Sengl ystyried cynlluniau i ddarparu llety a chymorth i ffoaduriaid;
- Gall y gystadleuaeth am gyllid weithiau achosi trafferthion yn yr ardal. Mewn ambell sefyllfa, mae angen rhagor o gydweithio ac ymddiriedaeth rhwng gwahanol gyrff;
- Gallai trefniadau i rannu gwybodaeth am gleientiaid rhwng y gwahanol gyrff fod yn fuddiol, o ran darparu gwell gwasanaeth i'r cleientiaid, ac er mwyn iechyd a diogelwch y cleientiaid a'r staff. Byddai'n rhaid ystyried materion cyfrinachedd yn ofalus, gan ddyfeisio protocolau addas;
- Byddai rhagor o hyblygrwydd yn y cyllid ar gyfer cymorth yn ddefnyddiol, er mwyn diwallu anghenion yr unigolyn, heb fod raid iddo syrthio'n dwt i gategori a diffiniwyd yn fanwl ;
- Comisiynodd Cymdeithas Caer Las brosiect ymchwil i anghenion tai a chymorth pobl a fu'n ddigartref yn y fwrdeistref yn ddiweddar, neu sy'n ddigartref ar hyn o bryd. Disgwylir y bydd wedi ei gwblhau erbyn yr hydref 2000, ac y bydd yn ychwanegu at y wybodaeth feintiol ac ansoddol am ddigartrefedd a chysgu allan yn y fwrdeistref.

## TORFAEN

### 1. Amlder cysgu allan

Ni chynhaliwyd arolwg diweddar o gysgu allan yn y fwrdeistref.

Fodd bynnag, ym mis Tachwedd 1998, gwnaed rhywfaint o waith paratoadol ar gyfer

arolwg tair noson, gan adran dai'r awdurdod lleol. Yn adroddiad Gweithredu Dros Ddigartref Sengl Casnewydd, Single Homelessness and Rough Sleeping in the Counties of Newport, Caerphilly, Monmouthshire, Blaenau Gwent and Torfaen, Snapshot Surveys: Summer 1998 and Winter 1998/99, cofnodir "anfonwyd tua 50 o holiaduron at wahanol gyrff yn holi ynghylch safleoedd cysgu allan tebygol yn y fwrdeistref. Derbyniwyd nifer fach o atebion yn nodi mannau tebygol, ond gan fod rhai ohonynt yn rhy annelwig (e.e. rhywun y gwyddid ei fod naill ai'n cysgu allan ar ochr bryn neu yn ei gar) penderfynwyd peidio â chynnal yr arolwg tair noson. Mae'n werth cofnodi bod 2 o'r 3 a lanwodd holiaduron digartrefedd sengl rhwng Awst a Hydref 1998 yn dweud eu bod wedi cysgu allan yn ystod y mis blaenorol."

### 2. Achosion cysgu allan

Yn adroddiad Gweithredu Dros Ddigartref Sengl Casnewydd, nodwyd tor-perthynas; cais i adael gan deulu/ cyfeillion; a rhyddhau o garchar, fel ffactorau a oedd yn cyfrannu at gysgu allan.

### 3. Enghreifftiau o'r gwasanaethau presennol

Nid oes corff yn Nhorfaen sy'n gweithio yn benodol gyda phobl sengl ddigartref. Ymysg y cyrff a allai ddod ar draws pobl sengl ddigartref yn rhinwedd eu gwaith y mae:

- Y Ganolfan i bobl Ifainc yng Nghwmbrân (sy'n cynnig cyngor ar wahanol faterion, gan gynnwys tai);
- Y prosiect ieuenctid ac addysg barhaus 'Nightrider', sy'n amcanu i wella cyfleoedd addysg a chyflogaeth i bobl ifainc;
- MIND ym Mhontypŵl a Chwmbrân;
- Mae adran dai'r awdurdod lleol yn darparu cyngor ynghylch tai, ac y mae ganddo ddwy hostel 5 gwely i bobl ddigartref (ond defnyddir y rhain yn unig i letya pobl sy'n ddigartref yn anfwriadol ac mewn angen blaenoriaeth);
- Cymdeithasau tai lleol (e.e. Eastern Valley a Gwerin).

### 4. Strategaethau i'r digartref neu'r di-do sengl

Nid oes strategaeth ysgrifenedig, na fforwm digartrefedd amlddisgyblaeth yn y fwrdeistref.

### 5. Pa wasanaethau a nodwyd sy'n absennol o'r ardal?

- Cynllun bond;
- Llety argyfwng i bobl ddigartref sydd â'u hangen yn ddiflaenoriaeth. Hwyrach na fyddai hostel fawr mewn un dref yn briodol, gan y gall fod mwy o angen unedau llai mewn nifer o drefi (er enghraifft, yng Nghwmbrân a Phont-y-pŵl);
- Gwasanaeth cyngor tai annibynnol;
- Gwaith i atal digartrefedd, e.e. trafod digartrefedd a materion tai mewn ysgolion;
- Rhagor o fflatiau gydag un ystafell wely yn yr ardaloedd priodol. Mae lleoedd gwag ar gael yn rheolaidd mewn ystafelloedd byw a chysgu un-person, gan y cyngor a chymdeithasau tai mewn rhai ardaloedd, ond nid oes galw mawr am y math hwnnw o lety;
- Ymchwil, i gael rhagor o wybodaeth am amlder digartrefedd sengl a chysgu allan.

## BRO MORGANNWG

### 1. Amlder cysgu allan

Cyn 1998 nid oes cofnod am unrhyw arolwg a fu'n edrych ar amlder cysgu allan yn y fwrdeistref.

Fodd bynnag, mae Cymdeithas Tai Llamau ar ganol astudiaeth tair blynedd (Ebrill 1998 tan ddiwedd Mawrth 2001) "er mwyn sefydlu maint a natur y didöedd yn ardal yr awdurdod

lleol a'r ddarpariaeth o lety a chymorth i rai sy'n cysgu allan." Rhwng 1 Ebrill 1998 a 31 Mawrth 1999 dywedodd 15 o'r bobl a ddaeth at eu gwasanaeth yn y Barri eu bod yn gysgwyr allan hirdymor.

## 2. Achosion cysgu allan

Y wybodaeth a gafwyd gan Gymdeithas Tai Llamau, am y rhesymau dros yr ymholiadau a wnaed wrth eu prosiect rhwng 1 Ebrill 1998 a 31 Mawrth 1999 oedd:

| | | |
|---|---|---|
| - Cais gan y teulu i adael cartref | 203 | 40% |
| - Tor-perthynas | 96 | 19% |
| - Llety anffit/anaddas | 36 | 7% |
| - Trais domestig | 24 | 5% |
| - Trowyd allan o denantiaeth | 21 | 4% |
| - Taflwyd allan o'r cartref | 16 | 3% |
| - Aflonyddu | 15 | 3% |
| - Cysgwr allan hirdymor | 15 | 3% |
| - Gadael gofal/ysbyty | 9 | 2% |
| - Anghydfod gartref | 2 | 0.5% |
| - Ceiswyr lloches wleidyddol/ ffoaduriaid | 1 | 0.25% |
| - Ailfeddiannu eiddo ar forgais | 1 | 0.25% |
| - Arall | 65 | 13% |

## 3. Enghreifftiau o'r gwasanaethau presennol

Mae Cymdeithas Tai Llamau yn y Barri yn darparu'r gwasanaethau canlynol:

- Cynllun bond;
- Cynllun cymorth symudol i rai tenantiaid cymdeithas dai;
- Gwaith adsefydlu ac ymgyfeillio gyda nifer cyfyngedig o gleientiaid;
- Hyfforddiant cynalwedigaethol i rai pobl yn eu llety eu hunain, i'w helpu i gyrraedd pwynt lle y gallant gael hyfforddiant pellach neu gyflogaeth;
- cyngor sylfaenol ynghylch tai a budd-daliadau lles.

Mae'r gwasanaethau eraill yn cynnwys:

- Ymddiriedolaeth John Rowley sy'n darparu llety (5 gwely) i rai 16 i 21 oed. Mae'r mynediad trwy atgyfeirio;
- Cynllun bond a chyngor tai, a reolir gan "Home Access", Eglwys y Tabernacl, Penarth. Rhoddir cymorth hefyd i gael dodrefn;
- Gweithiwr cymdeithasol pobl ifainc (Gwasanaethau Plant) gyda chyfrifoldeb penodol dros ddigartrefedd;
- Tai gyda chymorth i gyn-droseddwyr, a reolir gan Gymdeithas Tai Trothwy;
- Gwasanaethau cymorth i bobl gyda phroblemau iechyd meddwl (gan gynnwys rhai digartref), a weinyddir gan Gymdeithas Tai Gofal;
- Gwasanaeth cyngor tai a reolir gan yr awdurdod lleol mewn gwahanol rannau o'r fwrdeistref.

## 4. Strategaethau i'r digartref neu'r di-do sengl

Nid oes strategaeth ysgrifenedig.

Fodd bynnag, mae yn Fforwm Tai a Digartrefedd y Fro, sy'n cwmpasu nifer o grwpiau gwirfoddol (e.e. Llamau, Shelter Cymru, Home Access, Cymorth i Fenywod, ymddiriedolaeth John Rowley, Black Association of Women Step Out, a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro), cymdeithasau tai (e.e. Trothwy, United Welsh), Gwasanaethau Plant (gwasanaethau cymdeithasol) a chynghorwyr yr awdurdod lleol.

Bwriedir datblygu strategaeth i'r digartref sengl, a gallai'r fforwm hwn fod yn grŵp addas i gynghori ar strategaeth o'r fath

### 5. Pa wasanaethau a nodwyd sy'n absennol o'r ardal?

- Llety argyfwng mynediad uniongyrchol, ond nid o anghenraid un cynllun mawr ar un safle. Hwyrach y byddai'n fwy priodol datblygu darpariaeth ar raddfa fach mewn nifer o drefi (e.e. Y Barri, Penarth a'r Bont-faen);
- Cynllun 'Nightstop', lle y gellir atgyfeirio pobl ifainc i aros mewn argyfwng gyda theuluoedd gwirfoddolwyr, am un noson neu ychydig o nosweithiau hyd nes bydd llety mwy addas ar gael;
- Rhagor o lety symud-ymlaen i bobl sengl, sydd yn fforddiadwy, o ansawdd da, ac yn y lle cywir;
- Rhagor o wasanaethau cymorth, i helpu pobl i gynnal eu tenantiaeth, yn enwedig mewn llety sy'n eiddo i awdurdod lleol neu landlord preifat;
- Gwasanaethau cyffuriau ac alcohol;
- Rhagor o wasanaethau i rai 16 a 17 oed (e.e. llety a allai ddarparu rhai gwelyau argyfwng a rhai ar gyfer arhosiad byr, gyda darpariaeth i symud ymlaen iddo o'r llety hwnnw);
- Gwasanaeth adsefydlu, i helpu pobl i symud i mewn i lety;
- Cynnydd yn y gwasanaeth cyngor tai ac eiriolaeth sydd ar gael (e.e. mewn perthynas â materion hawliau tenantiaid ac aflonyddu);
- Estyn rhaglen ysgolion Isadran Cyngor Tai yr awdurdod lleol, er mwyn codi'r ymwybyddiaeth o ddigartrefedd ymysg rhai 14 i 18 oed, a rhoi gwybod iddynt am y gwahanol opsiynau ynglŷn â thai.

### 6. Materion eraill

- Mae gan yr awdurdod lleol drefniant, gyda hostel mynediad uniongyrchol yr Ambassador YMCA yng Nghaerdydd, i dalu am gadw un gwely ar gael trwy gydol y flwyddyn, ar gyfer unrhyw unigolyn o'r Fro, ag arno angen llety argyfwng. Hwyrach nad y trefniant hwn yw'r mwyaf priodol, gan y byddai'n rhaid i unigolion symud allan o'u cynefin i ddefnyddio'r cyfleuster. Hwyrach y bydd yn rhaid ystyried trefniant mwy lleol (a fyddai hefyd yn defnyddio'r adnoddau yn fwy effeithlon) yn absenoldeb cyfleuster mynediad uniongyrchol;
- Mae'n ymddangos bod peth anghytuno rhwng adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol a'r adran dai, ynglŷn â'r cyfrifoldeb dros letya pobl ifainc ddigartref, yn unol â'r Ddeddf Tai a'r Ddeddf Plant.

## WRECSAM

### 1. Amlder cysgu allan

Yn ôl yr adroddiad gan y Gwasanaeth Ymgynghorol Tai Anghenion Arbennig yng Nghymru a Shelter Cymru ym 1996 A Survey of Rough Sleepers in Wales, canfuwyd 5 o bobl yn cysgu allan yn Wrecsam ar 31 Ionawr, 1 a 2 Chwefror 1996.

ByddYmddiriedolaeth Weithredu Wrecsam Cristnogion Dros y Digartref (WATCH), sy'n cynnal lloches nos yn Wrecsam yn cymryd 'tro o gwmpas' y dref unwaith y mis rhwng tua 4.45am a 7.00am, i edrych am rai sy'n cysgu allan. Canfuwyd y canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| 10 Ebrill 1998 | 1 | |
| 15 Mai 1889 | 0 | (ond tystiolaeth o 2 yn cysgu allan) |
| 19 Mehefin 1998 | 0 | |
| 17 Gorffennaf 1998 | 0 | |
| 10 Awst 1998 | 0 | |
| 7 Medi 1998 | 0 | |
| 16 Hydref 1998 | 1 | (Hyd - Rhag: 4 canfyddiad, ond 2 berson gwahanol yn unig) |

| | | |
|---|---|---|
| 9 Tachwedd 1998 | 1 | |
| 7 Rhagfyr 1998 | 2 | |
| 8 Ionawr 1999 | 1 | (Ion a Chwef: 3 canfyddiad, ond 2 berson gwahanol yn unig) |
| 6 Chwefror 1999 | 2 | |
| 11 Mawrth 1999 | 3 | |
| 9 Ebrill 1999 | 7 | (2 wedi colli trên; 1 yn rhy feddw i fynd adref) |
| 2 Mai 1999 | 2 | |

Mae'r ffigurau hyn yn berthynol i 'droeon o gwmpas' ar un noson bob mis. Fodd bynnag, ym marn WATCH, nid oes niferoedd mawr o bobl yn cysgu allan yn Wrecsam. Clywsant sôn, o bryd i'w gilydd am 6 neu 7 o bobl yn cysgu allan gyda'i gilydd ond, er chwilio, ni lwyddwyd i ddod o hyd iddynt.

Lletywyd 103 o ddynion yn y lloches nos rhwng Medi 1997 ac Awst 1998; a chred WATCH a'r awdurdod lleol y byddai llawer ohonynt wedi bod yn cysgu allan pe na bai'r lloches yno.

## 2. Achosion cysgu allan

Yn arolwg 1996, cafwyd 13 o atebion gan y pump a fu'n cysgu allan, ynglŷn â'r rhesymau dros gysgu allan, sef:

- Analluu i fforddio llety (2);
- Problemau alcohol (2);
- Problemau cyffuriau (2);
- Dewis cysgu allan (2);
- Dim llety ar gael (1);
- Ddim yn hoff o'r llety a oedd ar gael (1);
- Ddim yn gwybod am lety (1);
- Problemau seiciatrig (1);
- Problemau iechyd (1).

Nododd WATCH y canlynol fel prif achosion digartrefedd:

- Tor-perthynas;
- Anallu i ymdopi mewn llety;
- Unigrwydd;
- Problemau cyffuriau (ffactor sy'n fwy a mwy cyffredin);
- problemau alcohol.

## 3. Enghreifftiau o'r gwasanaethau presennol

- Lloches nos (mynediad uniongyrchol) yn Wrecsam i 10 o ddynion dros 18 oed, a reolir gan WATCH. Mae'n agored o 5pm i 9am (ond ar dywydd garw iawn, caniateir i bobl aros trwy'r dydd);
- Cinio canol dydd yn ddi-dâl ar 5 diwrnod o'r wythnos yn lloches nos WATCH, a phryd di-dâl gyda'r nos ar 7 diwrnod o'r wythnos yn y gadeirlan Gatholig, Eglwys Fair, yn Wrecsam;
- Rhywfaint o waith adsefydlu a chymorth gan WATCH i'w preswylwyr;
- Cyngor tai gan Shelter Cymru;
- Hostel (Hurst Newton) i 11 o bobl sengl ddigartref 16-25 oed (mynediad trwy atgyfeirio yn unig) yn Wrecsam, a reolir gan Gymdeithas Tai Clwyd Alyn;
- Wrexham Foyer (36 gwely), sy'n darparu llety a hyfforddiant i bobl ifainc sengl digartref;
- Uned ddadwenwyno ar gyfer cyffuriau ac alcohol yn Wrecsam;
- Prosiect Byw Pobl Sengl yn Wrecsam a reolir gan Barnardo's, sy'n darparu addysg, hyfforddiant,a chyngor ynghylch tai a materion eraill i bobl ifainc;
- Cynllun bond yn Wrecsam, a reolir gan Barnardo's.

### 4. Strategaethau i'r digartref neu'r di-do sengl

Nid oes strategaeth ysgrifenedig. Nid oes fforwm digartrefedd penodol, ond yr oedd cyd-weithgor digartrefedd mewn bodolaeth tan tua 1996.

### 5. Pa wasanaethau a nodwyd sy'n absennol o'r ardal?

- Amrywiaeth o wasanaethau i bobl gyda phroblemau cyffuriau. Mae WATCH yn ymwybodol bod nifer y rhai sy'n defnyddio cyffuriau 'caled' yn Wrecsam ar gynnydd;
- Rhagor o dai un-person sy'n fforddiadwy ac yn yr ardal gywir;
- Hostel argyfwng mynediad uniongyrchol 24 awr, a all letya dynion a benywod. Mae llety argyfwng i fenywod yn fwlch amlwg, gan nad yw'r lloches nos yn lletya benywod.

### 6. Materion eraill

- Mae'n anodd iawn i bobl sy'n aros yn y lloches nos ac yn hostel Hurst Newton gofrestru gyda Meddyg Teulu. Gorfodir y staff i gysylltu yn aml â'r awdurdod iechyd i ddyrannu meddyg i'r preswylwyr. Mae'n ymddangos bod a wnelo'r anhawster â'r ffaith bod y preswylwyr yn byw yn y cyfeiriadau penodol hyn;
- Mae'n anodd iawn i'r bobl sydd yn y lloches nos gael grant o Gronfa Gymunedol yr Adran Nawdd Cymdeithasol (e.e. am ddillad, dodrefna a chyfarpar); ond mae preswylwyr Hurst Newton yn cael llai o drafferth;
- Gwaherddir y rhai sy'n arddangos problemau ymddygiad yn aml rhag cael llety (gan gynnwys y lloches nos a'r hostel), ac wrth i'w hymddygiad ddod yn fwy adnabyddus yn y cylch, cânt drafferth i ddod o hyd i lety a gwasanaethau;
- Gall fod yn anodd i'r bobl sy'n wynebu problem yn gysylltiedig ag alcohol a phroblem hefyd ynglŷn ag iechyd meddwl, gael cymorth gan y gwasanaethau iechyd meddwl na'r gwasanaethau alcohol, oherwydd eu hanghenion deuol;
- Byddai strategaeth ar gyfer y digartref, sy'n cwmpasu'r holl asiantaethau perthnasol, yn ddefnyddiol iawn o ran dwyn y gwahanol gyrff yn nes at ei gilydd, a gweithio i ddarparu'r gwasanaethau y mae ar yr ardal eu hangen fwyaf.

# Atodiad B: Yr awdurdodau lleol a'r cyrff y cysylltwyd â hwy

(Ymwelwyd â phob un a restrwyd ac eithrio'r rhai a farciwyd gyda seren, y cysylltwyd â hwy ar y teleffon)

## Awdurdodau Lleol (adrannau tai)

Abertawe

Blaenau Gwent

Bro Morgannwg

Caerdydd

Caerffili

Casnewydd

Castell-nedd a Phort Talbot

Ceredigion

Conwy

Gwynedd

Merthyr Tudful

Pen-y-bont ar Ogwr

Powys

Rhondda Cynon Taf

Sir Benfro

Sir Ddinbych

Sir Fynwy

Sir Gaerfyrddin

Sir y Fflint

Torfaen

Wrecsam

Ynys Môn

## Mudiadau ac unigolion (gan nodi'r ardal awdurdod lleol)

ACTS (Action of Churches Together in Swansea), rownd gawl, Abertawe

ADREF, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf

Andy Webb (rownd gawl), Caerdydd

Bangor, lloches nos, Gwynedd

Byddin yr Iachawdwriaeth, hostel, Caerdydd

Cangen Gogledd Cymru o'r Gymdeithas Genedlaethol er Adsefydlu Troseddwyr (NACRO), Sir Ddinbych

Caring Hands, Casnewydd

Cyngor Cyffuriau ac Alcohol Powys, Powys

Cymdeithas Caer Las, Abertawe

Cymdeithas Dai Llamau, Bro Morgannwg

Cymdeithas Ofal Ceredigion, Ceredigion

Cymdeithas Tai Cantref, Ceredigion

Cymdeithas Tai Clwyd Alun, Sir y Fflint a Wrecsam

Cymdeithas Tai Eastern Valley, Torfaen*

Cymdeithas Tai Eryri, Ynys Môn a Gwynedd

Cymdeithas Tai Gogledd Cymru, Gwynedd

Cymdeithas Tai Gwalia, Caerfyrddin a Llanelli, Sir Gaerfyrddin

Cymdeithas Tai Gwerin Torfaen*

Cymdeithas Tai Hafod, Pen-y-bont ar Ogwr

Cymdeithas Tai Trothwy, Aberhonddu, Powys

Cymdeithas Tai Trothwy, Y Drenewydd, Powys

Cymuned Wallich Clifford, Caerdydd

Cyreniaid Cymru, Abertawe

Cyswllt Tai Caerdydd, Caerdydd

Cywaith Joseff, Gwynedd

Dewis, Castell-nedd a Phort Talbot

Digartref Ynys Môn, Ynys Môn

Eglwys Elim, Abertawe

Get It While You Can, Conwy

Gobaith i Bobl Ifainc ym Mhobman (HYPE), Ceredigion

Grŵp Ieuenctid Sengl Digartref Arfon (GISDA), Gwynedd

Gweithredu dros Dai Cwm Rhymni (CRAG), Caerffili

Gweithredu Dros Ddigartref Sengl Caerdydd (CASH), Caerdydd

Gweithredu Dros Ddigartref Sengl sir Benfro (PASH), Sir Benfro

Home Access, Tabernacl, Penarth, Bro Morgannwg*

Hurst Newton, hostel, Wrecsam*

Network, NCH Gweithredu dros Blant Cymru, Blaenau Gwent

Newport Action for the Single Homeless (NASH), Casnewydd

Nyrs genhadol, Iechyd Morgannwg, Abertawe

Shelter Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr

Shelter Cymru, Wrecsam

Sylfaen (Cymdeithas y Plant), Gwynedd

Tîm Canol y Ddinas, Caerdydd

Tîm Digartrefedd Ieuenctid Abertawe, Abertawe

Tŷ fy Nhad, Ceredigion

Tŷ Tresillian, cynllun mynediad uniongyrchol, Caerdydd

WATCH (Ymddiriedolaeth Weithredu Wrecsam - Cristnogion Dros y Digartref), lloches nos, Wrecsam

Y Fenni, lloches nos, Sir Fynwy

Y Rhyl, lloches nos, Sir Ddinbych

YMCA, Caerdydd

YMCA, Castell-nedd a Phort Talbot

Ymddiriedolaeth Clwyd Cornerstone, Bae Cinmel, Conwy

Ymddiriedolaeth Ddatblygu Ebwy Fach, Blaenau Gwent

# Atodiad C: Cwestiynau i'r awdurdodau lleol

## Cwestiynau / materion ynglŷn â phobl yn cysgu allan yn ardaloedd yr awdurdodau lleol

1. A oes yna unrhyw wybodaeth y gellwch ei hychwanegu at yr hyn sydd eisoes yn eich Strategaeth Dai a Chynllun Gweithredol, am y nifer o bobl sydd yn cysgu allan yn eich ardal, ac am achosion eu sefyllfa?

   (Os oes modd, a ellwch anfon copi ataf o unrhyw arolygon neu adroddiadau a baratowyd, ynglŷn â chysgu allan yn eich ardal?)

2. Pa lety a gwasanaethau sydd ar gael i bobl yn cysgu allan yn eich ardal? e.e. rowndiau cawl, llety argyfwng, hostelau, gwasanaethau cynghori, gwasanaethau cenhadol, gwasanaethau adsefydlu, cynlluniau bond, canolfannau dydd etc.

   (Os oes modd, a ellwch anfon copïau ataf o unrhyw lenyddiaeth ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir gennych?)

3. A oes gennych strategaeth a baratowyd ar y cyd ag asiantaethau eraill, i ddiwallu anghenion brys ac anghenion hirdymor pobl sy'n cysgu allan?

   (Os oes modd, a ellwch anfon copi o'ch strategaeth ataf, ynghyd ag enwau'r bobl / asiantaethau eraill sydd yn gysylltiedig â hi?)

4. A oes gan eich Adran Dai unrhyw bolisi neu wasanaethau i atal cysgu allan?

5. Pa wasanaethau sy'n gweithio'n dda i'r bobl sy'n cysgu allan yn eich ardal?

6. Pa rai yw'r gwasanaethau nad ydynt yn gweithio'n dda (neu nad ydych yn eu cael yn addas) i'r bobl sy'n cysgu allan yn eich ardal?

7. Pa wasanaethau neu gymorth sy'n absennol i'r bobl sy'n cysgu allan yn eich ardal?

8. Pa gymorth sy'n anodd ei gael i'r bobl sy'n cysgu allan yn eich ardal?

# Atodiad D: Cwestiynau i'r cyrff gwirfoddol

## Cwestiynau / materion ynglŷn â phobl yn cysgu allan

1. Pa wybodaeth sydd gennych am y nifer o bobl sydd yn cysgu allan yn eich ardal, ac am achosion eu sefyllfa?

   (Os oes modd, a ellwch anfon copi ataf o unrhyw arolygon neu adroddiadau a baratowyd, ynglŷn â chysgu allan yn eich ardal?)

2. Pa lety a / neu wasanaethau fyddwch chi yn eu darparu i bobl yn cysgu allan ac i bobl ddigartref yn gyffredinol?

   (Os oes modd, a ellwch anfon rhestr ataf o enwau, cyfeiriadau a rhifau ffôn cysylltwyr yn yr asiantaethau priodol yn eich ardal?)

3. Pa wasanaethau fyddwch chi yn eu darparu, neu sy'n bod yn eich ardal, sydd yn helpu i atal pobl rhag cysgu allan?

4. Pa gysylltiadau sydd gennych gyda'r awdurdod lleol ac asiantaethau eraill ar gyfer darparu gwasanaethau i bobl sy'n cysgu allan?

5. A oes yna strategaeth yn eich ardal i ddiwallu anghenion brys ac anghenion hirdymor y bobl sy'n cysgu allan?

6. Pa wasanaethau sy'n gweithio'n dda i'r bobl sy'n cysgu allan yn eich ardal?

7. Pa rai yw'r gwasanaethau nad ydynt yn gweithio'n dda (neu nad ydych yn eu cael yn addas) i'r bobl sy'n cysgu allan yn eich ardal?

8. Pa wasanaethau neu gymorth sy'n absennol i'r bobl sy'n cysgu allan yn eich ardal?

9. Pa gymorth sy'n anodd ei gael i'r bobl sy'n cysgu allan yn eich ardal?

# Nodiadau